Jones (Griffith) Rector of Llanddowror

CYFARWYDDWR FFYDDLON

AT 1474.aa.14

Orſeddfaingc y Grâs:

SEF,

FFURF O WEDDIAU

I'W

HARFER MEWN TEULUOEDD FOREU A HWYR.

Wedi eu cymhwyſo a'u *cyfaddaſu* er mwyn yr *Anghyfarwydd* a'r *Anfedrus* a fyddo yn ewyllyſgar i ddyſgu Gweddïo ar DDUW mewn amſer cymmeradwy; fel y caffont râs a llwyddiant yn y bŷd hwn, a bywyd tragywyddol yn y bŷd a ddaw, trwy gyfryngdod yr Arglwydd JESU GRIST.

Gan Weinidog *Annheilwng o Eglwys* LOEGR.

YR AIL ARGRAPHIAD.

Es. lv. 6.

Ceiſiwch yr Arglwydd, tra y gellir ei gael ef; a gelwch arno, tra fyddo yn agos.

Hos. xiv. 2.

Cymmerwch eiriau gyda chwi, a dychwelwch at yr Arglwydd.

MAT. vi. 9.

Am hynny, Gweddïwch chwi fel hyn.

LLUNDAIN,

Argraphwyd gan J. a W. OLIVER, ym *Martholomew-Clôs*, yn agos i *Weſt-Smithfield*. MDCCLXXIV.

Egwyddor i'r Anllythyrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R Rh S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r rh ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R Rh S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r rh ſ s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu 'r Bogeiljaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwïr Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	ja je ji jo ju jw jy
all ell ill oll ull wll yll	la le li lo lu lw ly
am em im om um wm ym	lla lle lli llo llu llw lly
an en in on un wn yn	ma me mi mo mu mw my
ap ep ip op up wp yp	na ne ni no nu nw ny
aph eph iph oph uph wph yph	pa pe pi po pu pw py
ar er ir or ur wr yr	pha phe phi pho phu phw phy
as es is os us ws ys	ra re ri ro ru rw ry
at et it ot ut wt yt	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
ath eth ith oth uth wth yth	ta te ti to tu tw ty

HYSBYSIAD.

GAN i'r Argraphiad cyntaf o'r Llyfr hwn fod mor dderbyniol gan y *Cymry* hawddgar, fel y gwerthwyd yn agos i *bedair Mil*, o fewn ysbaid *deng Mlynedd*; fe welwyd yn gymmwys i'wail argraphu: a gadael heibio y ddwy weddi hir yn Nechreuad yr Argraphiad o'r blaen, gan chwanegu amryw o Weddiau, cymmwys i'w harferu ar Achosion ac Amserau neilldiol, fel y gallo'r Llyfr fod yn fwy buddiol i gyfarwyddo Dynion i weddio yn berthynasol ar bob Achos.

LLYTHYR yr AWDWR

AT

Yr *Anwyl* GYMRY.

Fy Mrodyr a'm Cyfeillion,

NID wyf yn gweled fod achos i mi ddywedyd ond ychydig mewn ffordd o ragymadrodd, yngbylch yr angenrheidrwydd a'r llês o weddïo Duw; nac yngbylch un peth arall a berthyn i'r ddyledſwydd fawr hon: o blegid fod hynny wedi ei wneuthur eiſioes (yn llawer gwell nag y medraf fi, oddieithr yn ei eiriau ef ei hun) gan y Parchedig ddiweddar Mr Griffith Jones, *yn y llyfr godidog hwnnw a elwir* Galwad at Orſeddfaingc y Grâs, *ac yn rhagymadrodd y llyfr a elwir* Hyfforddwr at Orſeddfaingc y Grâs, (*allan o ba un, gan mwyaf, y cymmerwyd y Gweddiau canlynol*) *yn* Eſboniad Gweddi *yr Arglwydd hefyd, y gellwch weled llawer o Reſymau tuag at berfwadio dynion i ymarfer â'r Ddyledſwydd hon. Efe, yr hwn a fu yn offeryn llwyddiannus yn llaw yr* Hollalluog, *i ddwyn llawer o rai dïweddi i weddïo, a wyddai yn dda mor angenrheidiol a buddiol yw* Gweddi; *ac mor ddychrynllyd a thruenus yw cyflwr y rhai oll a'i hesgeuluſant.*

geuluſant. Yr yſtyriaeth o hynny a barodd iddo gymmeryd cymmaint o boen i'ſgrifennu mor helaeth yng-hylch y ddyledſwydd bwyſig hon, ac i annog a thaer gymmell hên *ac* jeuaingc *i ymarfer â hi yn ddefoſiynol ac yn gydwybodol.*

Yr oedd y gŵr da bwn yn bwriadu, er ys amryw o flynyddau, i' ſgrifennu *ar* argraphu *Ffurf o Weddïau, i'w harfer mewn teuluoedd fore a hwyr; fel na byddai i neb ag a fyddai yn ewyllyſgar i weddïo gyd â'u tylwyth, eſgeuluſo gwneuthur felly, o eiſiau bod ganddynt gynnorthwyon cymmwys i ddechreu'r gwaith ar y cyntaf. Ond ni's gallodd efe gwplâu yr hyn ag oedd yn ei amcanu; o achos fod ganddo lawer o bethau angenrheidiol eraill yn llaw, na's gallaſai eu gadael heibio; ac o blegid i'w leſgedd a'i anhwyldeb* corphorol *gynnyddu ſwyſwy, nes iddo o'r diwedd gymmeryd ei gennad oddi wrthym ni, i fyned at ei brynwr mawr (dros yr hyn y bu efe yn wâs ffyddlon, tra bu yn y bŷd) i dderbyn y goron ag oedd yngbadw ar ei fedr yn nheyrnas nefoedd, lle na's daw na lleſgedd na chleſyd i'w gyfarfod byth mwy.* Er ei fod wedi marw, y mae efe yn llafaru etto, *ac yn taer alw arnom i ddyſgu addoli Duw, a gweddïo arno mewn amſer cymmeradwy; fel y gallom ddiangc rhag ei ddigofaint, a chael ein derbyn yn gymmeradwy ger ei fron, trwy haeddedigaethau yr Arglwydd Jeſu, pan y bôm ni yn myned allan o'r bŷd hwn. Duw a'n nertho ni oll i gofio ac jawn ddefnyddio yr holl rybuddion, y cynghorion a'r cyfarwyddiadau a roddes efe i ni; fel y gallom gael cyfarfod gorfoleddus yn nydd yr ymweliad.*

O Frodyr, *yſtyriwch y perygl o fyw yn ddïweddi! Nid aeth un enaid dïweddi erjoed i'r nefoedd*; *er fod llawer o weddïwyr* ffurfiol *a* rhagrithiol *wedi myned i uffern, o eiſiau iddynt geiſio grâs ac yſbryd Duw, i'w dyſgu i weddïo yn jawn. Chwi a wyddoch yn ddigon da, mai corph marw yw'r corph* dïanadl; *felly enaid marw yw'r enaid* dïweddi. *Pe baech chwi yn jawn ddeall gymmaint yw llwyddiant gweddi, a phe baech yn gwybod faint o lês a meluſder y mae'r ſcintiau yn ei broſi yn eu heneidiau wrth weddïo Duw*; *mi fyddai yn beth anhawdd i'ch perſwadio i ddyſgu gweddïo yn ebrwydd. Dywedwch i mi,* O Frodyr, *paham yr ydych yn eſgeuluſo peth ag ſy'n perthyn mor agos i'ch beddwch â Duw, a bywyd tragywyddol? Beth ſydd yn eich rhwyſtro i* weddïo? *A'i* cywilydd? *yn wîr, y mae yn llawer mwy cywilyddus, fod* neb *ag ſy'n byw* yngwlâd goleuni, *yn byw yn waeth nâ'r* Paganiaid, *neu addolwyr* Mahomet; *canys rhai o honynt hwy a weddiant* bedair *neu* bum *waith yn y dydd. O's dywedwch, mai o eiſiau* medr *i weddïo yr ydych yn eſgeuluſo*; *yna, mi a ddeiſyfaf arnoch, er mwyn Arglwydd Jeſu, gymmeryd o honoch y* ffurfiau *canlynol (o's na's gellwch gael rhyw rai eraill, a ſo'n ſwy cymmwys i'ch hachos) i'w harfer yn eich teiau fore a hŵyr, hyd oni ddeloch yn ddigon cyfarwydd i allu gweddïo heb lyfr. Mi a wn fod dynion yn rhŷ barod i oeri a diſlaſu wrth fynych arfer yr un peth*; *am hynny mi a dybiais yn angenrheidiol i roddi i chwi gynnifer ffurf o weddi foreuol a phrydnawnol eg ſydd o ddyddiau yn yr wythnos*; *fel y gallech eu*

newidio

newidio yn fynychach, er mwyn cadw eich byſbrydoedd yn fwy deffröus wrth weddio.

Yſtyriwch yn ddifrifol, fod tragywyddoldeb o ddedwyddwch neu o drueni yn ſefyll o'ch blaen, ac yn aros pob un o honoch; a bod eich hamſer yn fyr ac yn anſertennol jawn yn y bŷd hwn; ac am hynny nad yw boſſibl i chwi ddechreu gweddio yn rhŷ brwydd. Ni chlybüwyd i neb erjoed edifarhâu o achos dechreu *gweddio yn rhŷ* gynnar: *ond y mae llawer myrddiwn o rai truenus diobaith yn edifarhâu yn awr, yn nhân uffern, am iddynt* eſgeuluſo *gweddi nes aeth hi yn rhŷ* ddiweddar.

Coſiwch fod holl fendithion y diweddi dan felldith. Y mae holl fo dion grâs, ïe hyd yn oed y ſacramentau ſanctaidd eu hunain yn ddilys ac er damnedigaeth i bob enaid ag nad yw yn taer weddio am fendith Duw arnynt. Pa fodd y gall y rhai truenus hyn ſefyll ger bron brawdle Criſt yn y farn fawr olaf? O fy enediau, *deuwch ar frŷs, ac heb oedi yn hŵŷ, a fyrthiwch i lawr yn iſel ar eich gliniau o flaen gorſeddfaingc y grâs, i ddeiſyf ffafr y barnwr, a maddeuant o'ch holl bechodau yn ei erbyn; ac i ymbil am râs i'ch cynnorthwyo i ryngu ei fodd ef tra byddoch yn y bŷd; fel y galloch ſefyll yn ddiddychryn ger ei fron, pan yr ymddangoſo efe, i dywallt ei lid ar y* teuluoedd dïweddi. *Na ryfygwch i eſgeuluſo gweddio mewn amſer cymmeradwy: o nac oedwch hyd yr amſer y deloch i orwedd ar wely angau! Beth a dâl i chwi alw* gweinidog *eich* plwyf, *neu ryw un* arall *i weddio droſoch a chyd â chwi y* pryd hwnnw? *Pa*

galon *a all fod gan* weinidog *i weddio y pryd hwnnw dros ddyn na weddiodd erioed drosto ei* hun? *Pa fodd y gall efe ddeisyf ar Dduw am dderbyn enaid y dyn hwnnw i'r* nefoedd, *yr hwn a rodiodd yn ffordd* uffern *bob cam o'i fywyd? Cofiwch, gan hynny,* O rai anwyl! *cofiwch, mai yn* awr yw'r amser cymmeradwy, *ïe, yn* awr *yw'r amser i chwi i nesâu at Dduw, trwy ffydd yn enw Crist,* i ddeisyf trugaredd, ac i geisio grâs yn gymmorth cyfamserol.

Mi a wn am amryw o rai gwan-galon ag sydd a golwg obeithiol arnynt, ac yr wyf yn coelio eu bod (yn ôl eu deall a'u medr) yn arfer gweddio yn ddirgel ar eu pennau eu hunain: ac etto y maent yn ffaelu a gweddio yn gyhoeddus gyd â'u teulu, o achos nad ydynt yn meddu dawn *i wneuthur hynny mor fedrus ag eraill. Er mwyn y rhai hyn, neu bwybynnag eraill y gwelo yspryd y grâs fod yn dda i dueddau eu calonnau i ddysgu gweddio, y cymmerais y gorchwyl hwn yn llaw. Derbyniwch ef, gan hynny, mewn cariad, gan faddeu pa beth bynnag a fo'n feius ynddo. A phan fyddoch chwi yn nesâu at Orseddfainc y Grâs, attolwg, cofiwch finnau; a deisyfwch ar eich Tâd nefol roddi i mi ras a chymmorth i fod yn ffyddlon; yr hwn wyf*

Y mwyaf annheilwng

o'ch brodyr a'ch cyd-weision

yng Nghrist Jesu.

CYFAR-

CYFARWYDDWR FFYDDLON

AT

Orſeddfaingc y Grâs:

GWEDDL *i'w harfer mewn teulu ar* fore dydd yr Arglwydd, *cyn myned i'r addoliad cyhoeddus yn yr Eglwys.*

O Arglwydd DDUW y lluoedd, yr hwn wyt gadarn jor, a'th wirionedd o'th amgylch; yr wyt yn DDUW ofnadwy ynghynnulleidfa'r ſaint, ac i'th arſwydo yn dy holl amgylchoedd. Ger dy fron di yr ymgrymma llu'r nefoedd, ac yr addola trigolion y ddaear. Pwy a gyſtedlir â'r Arglwydd yn y nefoedd? Pwy a gyffelybir i ti, O DDUW, ym myſg meibion y cedyrn? Ti wyt yn llywodraethu ymchwydd y môr: pan gyfodo ei donnau, ti â'u goſtegi. Ti yw pen-rheolwr mawr y nefoedd a'r ddaear; y mae dy lywodraeth yn dragywyddol, a'th allu yn anfeidrol: pa beth a ddichon fod yn anhawdd

i ti? Teilwng wyt, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu: canys ti a greaiſt bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crëwyd hwynt. Yr wyt ti, O Arglwydd, yn preſwylio'r goruchelder a'r cyſſegr; yr wyt yn cyfanneddu ym moliant *Iſrael:* mîl o filoedd a'th waſanaethant, a myrdd fyrddiwn a ſafant ger dy fron.

Wele yma, O Arglwydd, ychydig nifer o greaduriaid y llwch, yn dymuno ac yn deiſyf cennad i nesâu at orſedd dy râs, y bore hwn, yn enw a chyfryngdod dy Fâb Jesu. Ni's gallwn ni ddyfod attat yn ein henwau ein hunain; o blegid mai pechaduriaid truenus a greſynol ydym, a rhai, llwyr annheilwng i gymmeryd dy enw ſanctaidd di yn ein geneuau halogedig: am hynny y dymunem gymmorth i ddyfod ger dy fron, gyd ag ymddiried yn eirjolaeth a chyfiawnder yr Arglwydd Jesu; yr hwn a ddichon yn gwbl jachâu y rhai trwyddo ef ſy 'n dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amſer i eirjol droſdynt hwy. Nid oes Jachawdwriaeth yn neb arall, ac nid oes enw arall wedi ei roddi dan y nefoedd, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig. Efe yw'r ffordd, a'r gwirionedd a'r bywyd; ni's gellir dyfod at y tâd, ond trwyddo ef. Er ei fwyn ef yr arbedwyd ein bywyd ni hyd yr awrhon, ac y rhoddwyd i ni bob trugareddau perthynol i'r bywyd hwn; a phob ben-

dithion a moddion angenrheidiol i c'duwioldeb a bywyd tragywyddol.

Pa gynnifer o ddyddiau ſanctaidd a dreuliaſom ni mewn oferedd, heb yſtyried dy fod di, O Arglwydd, wedi ſancteiddio'r ſabboth, a'i neilldduo at dy addoliad a'th waſanaeth dy hun! Pa gynnifer o odfëydd gwerthfawr a ddarfu i ni eu heſgeuluſo, a'u camddefnyddio! Pa gynnifer o bregethau grymmus ac awdurdodol a fuant yn ddilês ac yn anfuddiol i'n heneidiau ni, o achos ein calon-galedwch, ein hanghrediniaeth, ein hyſgafnder a'n dïofalwch ger dy fron di wrth eu gwrando! Nid ŷm ni yn haeddu cael un odfa yn ychwaneg, na chael clywed un alwad mwyach i ddyfod at yr Arglwydd Jesu, trwy yr hwn y maddëuir ein holl bechodau, ac y rhoddir i ni obaith am gymmod a heddwch â thydi.

O Arglwydd trugarog, ti a'n gweli ni yma ger dy fron, fel trueiniaid tlodion, yn gorwedd yn ein gwaed, yn ddigymmorth ac yn ddïymgeledd. Yr ydym yn llawn o wahanglwyf ffiaidd pechod, mae ein heneidiau yn glâf o glefyd marwol, ac yr ydym yn gorwedd mewn pydew erchyll o drueni: O Dâd, trugarhâ wrthym; edrych ar ein trueni, a gollwng ni yn rhŷdd o'n caethiwed, er mwyn yr jawn perffaith a dalodd dy Fâb Jesu i'th gyfiawnder di drosom. Attolwg, Arglwydd, cyfnewid ein calonnau, a gwnâ ni yn greaduriaid newydd yng Nghrist Jesu. Tro ni oddi wrth ein ffyddd drygionus, a chymmorth ni, â'th râs,

i'th

i'th addoli di y dydd hwn gyd â gwylder a pharchedig ofn. Pâr i ni fod yn ddiwyd i weithio allan ein Jachawdwriaeth ein hunain trwy ofn a dychryn. Wele yn awr yr amſer cymmeradwy! Wele yn awr ddydd yr Jachawdwriaeth! Pâr i ni yn ein dydd hwn adnabod y pethau a berthyn i'n heddwch â thydi; na âd iddynt fod yn awr yn guddiedig oddi wrth ein llygaid.

Llawer o ſabbothau gwerthfawr, ac odfëydd euraidd ſy wedi myned dro ein pennau, ac ni's gwelwn byth mo honynt mwyach! Cymmorth ni, O Arglwydd, i ddal gafael yn y dydd hwn; gwnâ ef yn ddydd o râs a tendith i ni, ac i bawb eraill ag ſydd yn ei fwynhâu. Bywhâ ni i alw ar dy enw; pâr i'n calonnau fod yn wreſog, a'n cydwybodau yn ddeffröus ym mhob rhan o'th waſanaeth di. Na âd i wâg hyder, a gobaith twyllodrus o hîr ddyddiau ar y ddaear, i'n twyllo, i eſgeuluſo tragywyddol bwys ein Jachawdwriaeth! Na oddef di, i ni wneuthur ein hewyllys ein hunain ar y dydd ſanctaidd hwn; eithr pâr i ni alw'r ſabboth yn ogoneddus, a'i anrhydeddu ef, heb wneuthur ein gweithredoedd ein hunain, na meddwl ein meddyliau ein hunain ar dy ddydd cyſſegredig di. Cymmorth ni i ymhyfrydu ynot ti, Duw ein Jachawdwriaeth, a chynnyddu mewn gras a gwybodaeth o honot ti, ac o'th Fâb yr Arglwydd Jesu.

O pâr lwyddiant i'r efengyl dragywyddol y dydd heddyw! Nertha dy holl weinidogion i

jaw-

jawn gyfrannu gair y gwirionedd, gan fynegi dy holl gyngor di i'r bobl, a thaer-ymbil ar iddynt droi oddi wrth eu ffyrdd drygionus, fel y byddont byw. Cymmorth hwynt, O Argylwydd, nid yn unig i oſod allan drueni pechaduriad anedifeiriol, a'u rhybuddio i ffoi rhag y llîd a fydd; ond hefyd i oſod allan ardderchawgrwydd yr Arglwydd Jesu, a'i barodrwydd i dderbyn pawb ag a ddêl, gyd â gwir edifeirwch, i ymofyn am fywyd tragywyddol trwy ffydd yn ei enw ef. O gwnâ weinidogaeth dy air yn rymmus ac yn effeithiol y dydd hwn, i argyoeddi pechaduriaid lawer, ac i gynnyddu grâs ym mhawb o'th bobl. Pâr iddo fod fel gordd yn dryllio'r graig; ac fel cleddyf llym daufiniog yn cyrraedd hyd at y galon, ac yn torri yr undeb ſydd rhwng pechaduriaid â'u pechodau; fel y tröer hwynt o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw. Gwnâ waith mawr ar y ddaear y dydd heddyw! rhwyga deyrnas y tywyllwch; pâr i'r deillion weled, i'r cloffion rodio, i'r byddariaid glywed ac i'r meirw gyfodi, wrth leferydd Mâb Duw yn athrawiaeth yr efengyl.

Yr ydym yn attolwg arnat, O Dduw trugarog, mewn modd neillduol dros dy wâs, i ofal yr hwn yr ymddiriedaiſt am ein heneidiau ni, trwy enau yr hwn yr ydym yn diſgwyl ac yn gobeithio cael clywed dy leferydd di y dydd hwn. Duw, bydd yn oleuni ac yn gymmorth iddo; fel y bô i'w athrawiaeth ddefnynnu fel gwlaw, a'i ymadrodd ddiferu fel gwlîth: fel gwlîth-wlaw ar îr-wellt, ac fel cawod-

ydd

ydd ar las-wellt. O na fydded i'n hannheilyngdod ni attal dy bresennoldeb di oddi wrth ei enaid ef; na rhwystro llwyddiant ei weinidogaeth y dydd heddyw! Bydded ei eirjau gyd ag awdurdod o'r nefoedd, a'i ymadrodd nid mewn geiriau denu o ddoethineb dynion, ond yn eglurhâd yr ysbryd a nerth.

Tydi, Arglwydd, a addewaist fod yn bresennol, lle y byddai ond dau neu dri wedi ymgynnull yn dy enw; bydd, attolwg, ynghanol dy bobl i'w bendithio hwy a ninnau y dydd sanctaidd hwn. Trugaredd werthfawr yw, ein bod ni yn cael dy air a'th ordinhadau yn ein mysg! Pa gynnifer mil o eneidiau truain fy'n amddifaid o'n rhagorfreintiau ni! Duw, trugarhâ wrthynt; a dysg ninnau i jawn brisio a defnyddio odfeydd a moddion jachawdwriaeth, fel na byddont, trwy dy gyfiawn farn di, er damnedigaeth i un enaid o honom. Dyro i ni galonnau newydd, O Arglwydd, dyro i ni galonnau tyner, hawddgar a da; fel y derbyniom yr impiedig air, a ddichon gadw ein heneidiau. Pâr i ni wrando yn ofalus ar yr hyn a dafarech di wrthym, gan ystyried y cyfrif fydd raid i ni roddi yn y farn olaf. Cyfeiria dy air at ein cydwybodau, fel y parer i ni ymadael â phob drygioni, a dychwelyd attat ti â'n holl galonnau.

Trugarhâ, Arglwydd, wrth holl dywyll-fannau'r ddaear fy'n llawn trigfannau trais: bydded i lewyrch hyfryd efengyl ein prynwr Jesu dywynnu arnynt; fel y dyger hwynt oddi wrth gyfeiliorni

orni eu ffrydd, i adnabyddiaeth o honot ti yr unig wir DDUW, a'r hwn a anfonaiſt ti, JESU GRIST. O Dâd, rhynged bodd i ti ei amlygu ef i'r holl genhedloedd. Gâd i ni, yn ôl dy addewid, weled mynydd tŷ'r Arglwydd wedi ei barotöi ym mhen y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; fel y dylifo yr holl genhedloedd atto. Bydded dy eglwys ſel dinas ar fryn, chwanega beunydd atti, y rhai a fyddant gadwedig.

Meddwl yn dy diriondeb a'th drugaredd, Arglwydd, am dy bobl ffyddlon, y rhai ſy'n dïoddef erlidigaeth o achos y gwirionedd: cerydda di eu gorthrymwyr gwaedlyd a didrugaredd; a nertha hwythau i ddwyn eu tyſtiolaeth yn ffyddlon dros dy enw hyd y diwedd.

O Arglwydd graſlawn, tywallt o'th râs a'th yſbryd ar holl drigolion y deyrnas hon; fel y bô i ni oll, o'r mwyaf hyd y lleiaf o honom, dy ofni di, a'th garu yn ffyddlon, am dy gariad rhyfeddol di, yn rhoddi ac yn cynnal i ni y fâth helaethrwydd o drugareddau yſbrydol a thymhorol hefyd. Nid oes un wlâd na theyrnas dan y nefoedd, wedi cael ei dyrchafu mewn breintiau fel y deyrnas hon. O mor anffrwythlon fuom dan y moddion goreu! Tydi a'n dyrchefaiſt ni hyd y nefoedd, o ran breintiau; ond yr ydym ni yn haeddu i ti ein tynnu i lawr hyd yn uffern, o blegid i ti anfon attom bethau mawrion dy gyfraith a'th efengyl hefyd, ac fel dïeithr beth y cyfrifwyd hwynt gennym. Trugarhâ wrthym, O

Arglwydd,

Arglwydd, a dŵg yn y blaen ddiwygiad cyffredinol yn ein plith; fe na bô i deyrnas Ddduw gael ei chymmeryd ymaith o'n gwlâd ni, a'i rhoddi i genhedl arall a ddygo well ffrwythau.

Gwrando ni, O Arglwydd, o nefoedd dy ſanctteiddrwydd, er mwyn ein prynwr bendigedig, yr Arglwydd Jesu. Gogoniant a mawl a fô i ti am dano ef, ac am yr holl drugareddau a dderbyniaſom ni trwyddo ef. Tydi a'i gwnaethoſt ef yn Arglwydd ac yn Grist, yn dywyſog ac yn jachawdwr, i roddi edifeirwch i'th bobl a maddeuant pechodau. Efe a ddûg fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl: trwyddo ef y gwaredir ni o ddywlaw ein gelynion, ac oddi wrth hollgaseion ein heneidiau.

Bendigedig a fyddo dy enw gogoneddus di, O Ddduw, am adael i ni gael gweled un o ddyddiau mâb y dyn drachefn yn nhîr y rhai byw: O cymmorth ni â'th râs, i'th waſanaethu di yn ffyddlon y dydd hwn, a holl ddyddiau ein bywyd; fel y caffom yn y diwedd ein derbyn attat ti i deyrnas nefoedd, i glodfori a moliannu dy enw ſanctaidd yn dragywydd; trwy deilyngdod a chyfiawnder Crist Jesu ein Harglwydd, i'r hwn, gyd â thi, a'r yſbryd glân, boed pob clod, anrhydedd a gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *i'w harfer mewn teulu ar* brydnhawn dydd yr Arglwydd.

Y Bendigedig a'r goruchel DDUW! Meddiannydd y nefoedd a'r ddaear; Duw *Abraham*, *Iſaac* ac *Iſrael*. Dy lywodraeth di a bery yn dragywydd, a'th frenhiniaeth o genhedlaeth i genhedlaeth byth. Nid oes neb fel tydi, ac nid oes Duw ond tydi, yn ôl yr hyn oll a glywſom ni â'n cluſtiau; Pwy wrth chwilio a all gael gafael ar DDUW? Pwy a all gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch a'r nefoedd ydwyt, beth all dyn wneuthur? Dyfnach nag uffern wyt, beth allwn ni wybod? Mae dy feſur yn hŵy na'r ddaear, ac yn llêd nâ'r môr; ni ddichon y nefoedd, na nefoedd y nefoedd dy gynnwys di; can's yr ydwyt yn breſennol ymhob lle ar unwaith. Duw o agos, ac nid Duw o bêll yw'r Arglwydd ein DUW ni; ni lecha neb mewn dirgel leoedd, fel na's gwelych di hwynt.

Yr oeddit ti yn canfod ein hymddygiad, ac yn gwybod oddi wrth dymmer ein calonnau a'n hyſbrydoedd, pan yr oeddym yn ſefyll o'th flaen yn dy dŷ a'th addoliad, y dydd heddyw: ni wyddom ni lai na bydd raid i rai o honom ymddangos ger dy fron di, yn y bŷd tragywyddol, cyn y caffom weled un ſabboth yn ychwaneg yn nhîr y rhai byw. O na fyddai i'r geiriau a glywſom ni â'n cluſtiau y dydd hwn, fod wedi eu plannu yn ein calonnau mor ddwfn, nad allai un

gelyn

ge'yn eu dïwreiddio byth! eithr bod iddynt ddwyn ffrwyth ynom er gogoniant i'th enw ſanctaidd di, ac er cyſur ac jachawdwriaeth i'n heneidiau ninnau trwy yr Arglwydd Jesu.

Tydi, Arglwydd, wyt hir-ymarhôus, heb ewyllyſio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch, ac i adnabyddiaeth o'r gwirionedd: eithr nyni a ddïyſtyraſom olud dy ddaioni a'th ddïoddefgarwch, a'th ymaros di, heb yſtyried y dylaſai dy ddaioni ein tywys ni i edifeirwch. Ti, O Arglwydd, a roddaiſt i ni foddion grâs ac odfêydd Jachawdwriaeth; ond fe ddarfu i ni eu camddefnyddio hwynt: tydi a'n gwahôddaiſt i ddyfod attat, yn enw dy Fâb Jesu; eithr nyni a wrthodaſom: ti a eſtynnaiſt allan dy law; ond ni ddarfu i ni yſtyried, eithr dïyſtyraſom dy holl gyngor di, ac ni fynnem dderbyn cerydd. Troïſom y wegil, ac nid yr wyneb attat ti, ac felly rhoddaſom gyfiawn achos i tithau droi dy wyneb ymaith oddi wrthym ninnau, a'n rhoddi ni i fynu i galedwch ein calonnau ein hunain, ac i feddyliau anghymmeradwy.

Pa ſawl gwaith y llafaroddd dy Fâb Jesu wrthym yn athrawiaeth yr efengyl, ac y mynnai ein caſglu ynghyd atto ei hun, modd y caſgl y jâr ei chywion dan ei hadenydd, ac ni's mynnem! Ti, Arglwydd, a'n rhybuddiaiſt i wrando arnat a chymmeryd addyſg ge nyt, rhag i'th enaid ymado â ni, a'n gwneuthur yn anrhaith, ac yn anghyfannedd-dra tragywyddol. Gwae ni, o's byw a marw a ſyddwn

yn

yn ein pechodau; a ninnau wedi cael ein taer-alw mor fynych i ymadael â hwynt, a dyfod i ymheddychu â thydi, trwy gyfryngdod yr Arglwydd Jesu.

Mae dy air ſanctaidd yn dywedyd, y bydd dinyſtr i'r rhai anwir, ac y dygir dïaledd dïeithr ar bennau y rhai a wnânt anwiredd. O Arglwydd, o's goſodi farn wrth linyn, a chyfiawnder wrth bwys, pa beth a wnawn? Canys rhai anwir ydym ninnau, ïe, rhai dïobaith a cholledig ynom ein hunain; etto, yr ydym wedi cael ein harbed hyd yr awr hon. er mwyn eirjolaeth yr Arglwydd Jesu. Rhyfedd yw'r cariad a'r tynnerwch a ddango ſaiſt i ni, er ei fwyn ef! Nyni a haeddaſom i ti gornelu ein hathrawon, a chymmeryd ymaith oleuni yr efengyl o'n plith; etto hyd yn hyn, y mae ein llygaid yn cael gweled ein dyſgawdwyr, a'n cluſtiau yn cael clywed hyfryd lais yr efengyl yn ein galw i edifarhâu a dychwelyd; fel y bô i'n holl bechodau gael eu maddeu, a ninnau gael ein cyfiawnhâu, a'n gwneuthur yn blant i Dduw, trwy ffydd yng Nghrist Jesu.

O Arglwydd graſlawn, yr hwn a roddaiſt i ni weinidogaeth y cymmod, attolwg, dyro râs hefyd i bob un o honom, fel y caffom ein dwyn i ymgymmodi â thydi, trwy gyfryngdod dy uniganedig Fâb, yr hwn a'n carodd ni, ac a roddes ei hun droſom yn offrwm ac yn aberth i ti o arogl peraidd. Er i ni bechu, etto y mae i ni ddadleuwr gyd â'r Tâd, Jesu Grist y cyfiawn. Efe

yw'r

yw'r jawn dros ein pechodau ni. Efe, yr hwn nid adnabu bechod, a wnaethpwyd yn bechod, ſef yn *bech-aberth*, droſom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw trwyddo ef.

Cofia dy addewid, O Arglwydd, a dôd dy yſbryd o'n mewn; gwnâ i ni rodio yn dy ddeddfau, a chadw dy orchymynion, a'u gwneuthur hwynt. Pura ni oddi wrth bob anwiredd, i fod yn bobl bŕiodol i ti dy hun, awyddus i weithredoedd da. Sancteiddia ni â'th yſbryd, a glanhâ ni oddi wrth ein holl aflendid: golch ein heneidiau yng ngwaed dy anwyl Fâb, yr Arglwydd Jesu. Rhynged bodd i ti, O Dâd, uno a chyſylltu ein heneidiau ag ef, trwy wir ffydd; fel y profem o'n mewn y tangnefedd hwnnw, na ddichon y byd ei roddi, na'i gymmeryd ymaith ychwaith.

Bendithia ni, O Duw, ag yſbryd addfwynder, goſtyngeiddrwydd a hunan ymwadiad: goſtwng falchder ein calonnau, a phâr i ni deimlo tlodi yſbryd o'n mewn, fel y gweithier ynom fwy o newyn a ſyched am dy râs di. Heblaw a welwn, dyſg di ni, fel lle gwnaethom ar fai na wnelom felly mwyach; ond bôd i ni yn waſtad (trwy gymmorth dy râs, a chyfarwyddyd dy yſbryd di) wneuthur yr hyn a fo union a chymmeradwy yn dy olwg. Maddeu, O Arglwydd, gymaint o yſgafnder a diofalwch a welaiſt ynom, wrth gymmeryd arnom dy addoli di y dydd hwn. Gwnâ ni, o hyn allan yn fwy yſbrydol, ac yn llai cnawdol, yn fwy nefol, ac yn llai daearol; fel y delom

i fod

i fod yn addfed i deyrnas nefoedd, cyn y bô i ni gael ein torri ymaith oddi ar y ddaear. Cynnorthwya ni i ymlanhâu oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yſbryd, gan berffeithio ſanctеiddrwydd yn dy ofn di: can's heb ſanctеiddrwydd ni ddichon neb dy weled di, na ſefyll yn gymmeradwyger dy fron.

Rhynged bodd i ti, O Arglwydd, fendithio a llwyddo gair yr Jachawdwriaeth, ſef efengyl dy Fâb Jesu, fel y caffo myrddiynau o bechaduriaid eu troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Ddduw; ac fel y bo i'th holl bobl gael eu hadeiladu, a'u perffeithio fwyfwy oddydd i ddydd. Ym mha eneidiau bynnag y dechreuwyd dim gwaith da y dydd heddyw, bydded i ti ei ddwyn yn y blaen, a'i berffeithio hyd ddydd yr Arglwydd Jesu. Na âd i'r ehediaid uffernol gippio ymaith yr hâd ſanctaidd a hauwyd heddyw, gan dy weinidogion di; eithr pâr iddo wreiddio i wared yng nghalonnau, a dwyn ffrwyth i fynu ym mucheddau pawb a'i clywſant.

Gwêl fod yn dda, O Dâd, i arddêl a bendithio pawb o weinidogion yr efengyl, fel y byddont offerynnau yn dy law di, i dynnu i lawr deyrnas y gelyn diafol. Mae'r cynhauaf yn fawr, O Arglwydd, a'r gweithwyr yn brin ac yn anaml; attolwg, anfon weithwyr i'th gynhauaf; a phâr lwyddiant mawr i bawb o'r gweithwyr ffyddlon.

Yr ydym yn deiſyf arnat wrando'r erfyniau a'r deiſyfiadau a oſodwyd i fynu at orſedd dy râs y dydd

y dydd heddyw yng ngweddïau dy eglwys, dros bob cyflwr ac oedran o ddynion. Gwrandawr gweddi wyt ti, Arglwydd; O gwrando ninnau er annheilynged ydym; a deued ein deisyfiadau i fynu yn gymmeradwy ger bron dy orseddfainc, er mwyn yr hwn sy'n eistedd arni, sef ein cyfryngwr sanctaidd, yr Arglwydd Jesu.

Cymmer bawb o'th eiddo, a phob un o honom ninnau dan ofal neillduol dy ragluniaeth y nôs hon; pâr i'n hysbrydoedd gymmeryd i fynu eu gorphwysfa gyd â thi, a boed i ber-arogl dy gariad orphwys yn wastadol ar ein heneidiau.

Mawl a diolch i ti, O ein Duw, am arbed ein bywyd, a pharhâu i ni odfeydd Jachawdwriaeth hyd y pryd hwn. Ti a roddaist i ni genhad i fyned i'th dŷ, i glywed hyfryd leferydd dy efengyl yn galw arnom i ddyfod attat, i gael maddeuant pechod, a chael cymmod a heddwch trwy dy Fâb Jesu. Bydded i'n heneidiau a'r cwbl sydd ynom fendithio dy enw gogoneddus am dano ef; Yr hwn yw'r *Arglwydd ein Cyfiawnder*; i'r hwn, gyd â thi, a'r ysbryd glân, boed pob addoliad a mawl, yr awrhon ac yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *i'w harfer mewn teulu ar* foreu dydd Sabboth, *cyn myned i dderbyn* Sacrament Swpper yr Arglwydd.

Y Gogoneddus a'r tragywyddol DDUW! Pwy ſydd debyg i ti ym mhlith y Duwiau? Pwy fel tydi yn ogoneddus mewn ſanctteiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau? Pwy ſydd gyfiawn fel yr Arglwydd? A phwy ſydd mor ofnadwy a Duw y Duwiau? Fel mynyddoedd cedyrn yw dy gyfiawnder; dyfnder mawr yw dy farnedigaethau. Cymmylau a thywyllwch ſydd o'th amgylch: cyfiawnder a barn yw trigfa dy orſeddfaingc; trugaredd a gwirioneedd a ragflaenant dy wyneb. Siccr jawn yw dy dyſtiolaethau; ſanctteiddrwydd a weddai i'th dŷ di yn dragywydd.

Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd, a'th ſaint a'th fendithiant. Dywedant am fawredd dy frenhiniaeth, a llafarant am gadernid dy weithredoedd ofnadwy. Mawl a'th erys di yn *Sion*, O DDUW, ac i ti y telir yr adduned; canys ti yn unig wyt Arglwydd Arglwyddi, a Brenin Brenhinoedd. Ti a wnaethoſt y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll ſydd arni, y moroedd a'r hyn oll ſydd ynddynt; a thi ſy'n eu cynnal hwynt oll, a llu'r nefoedd ſydd yn ymgrymmu i ti.

Pa beth yw dyn, O Arglwydd, i ti i'w gofio? Nid ydym ni oll ond gwagedd, ein dyddiau ſydd orthrymder,

orthrymder, a'n llafur yn ofid. Nyni a gollaſom ein holl wychder, a'n perffeithrwydd gwreiddiol; ſyrthiaſom i bechod a than farn o gondemniad; etto ni's gadêwaiſt ni i farw yn y cyflwr truenus hwnnw, ond ti a ddaethoſt i ymofyn ar ein hôl, ac a roddaiſt addewid raſlawn o waredwr i'n rhieni cyntaf, yn ebrwydd ar ôl eu cwymp. Dy unig-anedig Fâb dy hun, ydyw'r gwaredwr hwnnw! Ti a elwaiſt ei enw ef Jesu, o tlegid y gwaredai efe ei bobl oddi wrth eu pechodau. Pan ddaeth cyflawnder yr amſer, yr anfonaiſt ef i'r bŷd, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai oedd wedi ſyrthio dan felldith a chondemniad y ddeddf; fel y derbyniem y mabwyſiad. Efe yw'r jawn dros ein pechodau ni; trwyddo ef, y gwnëir plant digofaint, yn blant i Dduw; ac etifeddion uffern, yn etifeddion teyrnas nefoedd. Efe yw oen Duw, yr hwn ſy'n tynnu ymaith bechodau'r bŷd. Trwy ei werthfawr waed ef, y glanhêir ein heneidiau aflan ni. Yr Arglwydd ein cyfiawnder y gelwir ef, o tlegid trwyddo ef y cyfiawnhêir pob un ſydd yn credu. Efe a wnaethpwyd yn awdwr Jachawdwriaeth dragywyddol, i'r rhai oll a ufuddhânt iddo.

Nid yn ein enwau ein hunain, ond yn enw dy Fâb Jesu y dymunem nesâu ger bron dy fawredd di, O Arglwydd, i ymbil am gymmorth i fod yn ffyddlon yn y gwaith mawr ag ſydd o'n blaen y dydd hwn. Ni's gallwn ni na gwrando na gweddïo,

gweddïo, ni's gallwn ganu mawl i ti, na gwneuthur coffa am gariad rhyfeddol ein prynwr yn dïoddef ac yn marw drosom; heb gymmorth dy râs a chyfarwyddyd dy yſbryd ſanctaidd di. O mor gelyd yw'n calonnau! mor grwydraidd yw'n meddyliau! mor ddaearol yw'n ſerchiadau! mor oer yw'n cariad! ac mor lleſg yw'n hyſbryddoedd o'n mewn! Nid ydym yn ddigonol i ddim o honom ein hunain, ond y mae ein holl lwyddiant yn ſefyll ar dy law di.

Tydi, Arglwydd ſy'n troi ein nôs yn ddydd, a'n tywyllwch yn oleuni; ti a roddaiſt dy Sabbothau i fod yn arwydd cyfammod rhyngom ni â thi dy hun: O dyro gymmorth i ni, i ymafiyd yn dy gyfammod di heddyw! par i'n heneidiau hiraethu am danat, fel tîr crâs yn ſychedu am ddwfr. Nertha ni i briſio ac jawn ddefnyddio moddion grâs, ac odfêydd Jachawdwriaeth; fel y cynnyddom trwyddynt ar gynnydd Duw. Bendithia athrawiaeth dy air, O Arglwydd, er Jachawdwriaeth i bob enaid o honom: pâr iddo fod yn fwy dymunol genym nag aur, ïe nag aur coeth lawer; yn feluſach nâ'r mêl, ac nà diferiad diliau mêl. Dyro i ni lygaid i weled, a chluſtiau i wrando, a chalonnau i ddeall yr hyn a lafarech di wrthym yn dy air. Gwregyſa lwynau ein meddyliau, fel na bô iddynt wibio oddi wrthyt, tra bôm ni yn dy addoliad. Sancteiddia ein ſerchiadau, fel y bô i ni hoffi ymadroddion dy enau; pâr i ni fyfyrio yn dy gyfraith ddydd a nôs. O

pâr i ni gofio yn ofalus y pethau a glywom allan o'th air di y dydd hwn: gwahardd y gelyn rhag iddo ein rhwyſtro yn un rhan o'th addoliad.

O Arglwydd, bendithia holl gymmanfâoedd dy ſeintiau y dydd heddyw. Pâr i ni a hwythau hoffi trigfa dy dŷ, a lle preſwylfa dŷ ogoniant; canys gogoniant a harddwch ſydd o'th flaen di, nerth a hyfrydwch ſydd yn dy gyſſegr. O pâr i ni gael achos i ddywedyd, mai da yw diſgwyl wrthyt, a bod un dydd yn dy gynteddau di yn well nâ mîl. Dyſg ni, trwy lawenydd, i dynnu dwfr o ffynhonnau Jachawdwriaeth; na fydded i'th ordinhadau fod i ni fel ffynhonnau diddwfr, neu fronnau heſpon; eithr pâr iddynt fod fel ffynhonnau o ddwfr bywiol yn llonni yr eneidiau a fô yn diſgwyl wrthyt.

Arglwydd gogoneddus, yr hwn ſy'n gwneuthur ei genhadon yn yſbrydion, a'i weinidogion yn dân fflamllyd, bendithia a llwydda y rhai oll ſy'n gweini yn y gair a'r athrawiaeth: Bydd di gyd â hwynt y dydd hwn, i'w dyſgu ac i'w nerthu i jawn gyfrannu gair y gwirionedd. Bendithia dy wâs, mewn modd neillduol, trwy enau yr hwn yr ydym ni yn gobeithio cael clywed dy leferydd di heddyw. Bydd di gyd âi enau a'i galon ef, fel y llwyddo ei athrawiaeth, i ddeffroi pechaduriaid, ac i adeiladu'r ſeintiau. Llewyrched dy wyneb arno, a bydded dy law gyd ag ef; fel y credo llawer, ac y tröir hwynt o dywyllwch i oleuni, ac o ſeddiant Satan at Dduw.

Yr ydym ni yn bwriadu dyfod i adnewyddu ein cyfammod â thi, Arglwydd, y dydd hwn; attolwg, cynnorthwya ni i wneuthur hynny yn ewyllyſgar ac yn ffyddlon. Duw, parotôa ein calonnau i ddyfod i ſwpper neithior yr oen; pâr i ni edrych trwy ffydd ar yr Arglwydd Jesu, ein prynwr bendigedig, yn dïoddef ac yn marw droſom ar y groes. Selia i ni faddeuant pechod, trwy ei waed ef. Y Tâd ſanctaidd, rhynged bodd i ti i ddilladu ein heneidiau â mantell cyfiawnder ac â gwiſgoedd Jachawdwriaeth: goſod am danom y wiſg brïodas, fel y bôm yn rhai cymmwys i ymddangos yn llŷs y Brenin; ac fel y caffom ein gwahodd gantho ef at y bwrdd ſanctaidd, i gael bwytta o'r danteithion nefol a barotôwyd ar fedr yr holl wahoddedigion teilwng. O llawn-ddigona ni â braſder dy dŷ, a dïoda ni ag afon dy hyfrydwch! Bydded y brenin ar y bwrdd, yn amlygu ei gariad i'w bobl; canys y mae ei gariad yn well nâ'r gwîn, a'i drugaredd yn well nâ'r bywyd. O na chaem glywed ei leferydd yn dywedyd wrthym, bwyttêwch gyfeillion, ac yfwch, ïe yfwch yn helaeth fy rhai anwyl! Deffro di, ogledd-wynt, a thyred ddeheu-wynt, chwyth ar ein gardd, fel y gwaſgarer ei pheraroglau: deued yr anwylyd i'w ardd, a bwyttâed o'i ffrwyth peraidd ei hun.

O Arglwydd trugarog, dŵg holl belledigion y ddaear i wir adnabyddiaeth o'th Fâb Jesu. O bryſia'r amſer i ſymmud ymaith y dallineb a ſyrthiodd ar *Iſrael*. Deued y gwaredwr allan o *Sïon*,

i droi ymaith annuwioldeb oddi wrth *Jacob*, ac i dynnu ymaith eu pechodau hwynt; fel y byddo holl *Iſrael* yn gadwedig. Dŵg yr holl genhedloedd, y rhai a wnaethoſt, i addoli ger dy fron di, ac i ogoneddu dy enw, O Arglwydd. Gwared y rhai oll a ddelir yn gaethion dan baganiaeth, pabyddiaeth ac eilunaddoliad. Agor eu llygaid, dryllia eu rhwymau, a gollwng hwynt yn rhydd o'u caethiwed. Bydded i'r ddaear gael ei llenwi â gwybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y töa'r dyfroedd y môr. Caſgl dy blant ynghyd o'r dwyrain ac o'r gorllewin; dywed wrth y gogledd, dôd, ac wrth y dehau, nac attal; dŵg dy feibion o bêll a'th ferched o eithafoedd y ddaear.

Bryſia'r amſer, O Arglwydd, i ddiſtrywio teyrnas y tywyllwch, bwrw i lawr deyrnas ANGHRIST, a'i lywodraeth; difetha yr anwir hwnnw ag yſbryd dy enau, dilëa ef â diſgleirdeb dy ddyfodiad. Deffro, deffro, gwiſg nerth o fraich yr Arglwydd; deffro fel yn y dyddiau gynt, ſymmud ymaith y tramgwyddiadau ſy'n cadw dy bobl oddi wrthyt. Tyn ymaith bob rhwyſtrau oddi ar y ffordd, fel y dychwelo gwaredigion yr Arglwydd, ac y deuant i *Sion*, â chân ac â llawenydd tragywyddol ar eu pennau.

Trugarhâ, O Arglwydd, wrth y deyrnas hon, a bendithia bawb o'i phteſwylwyr. Bendithia y brenin, y frenhines a'r holl frenhinol deulu. Dyro i'r brenin gynghoriaid a ſwyddogion duwiol a ffyddlon, ag a fô'n ceryddu pob drygioni, ac yn

gwneuthur

gwneuthur eu rhan, i ddwyn llwyddiant crefydd yn y blaen, trwy'r holl wlâd.

Trugarhâ wrth yr holl rai cleifion: Arglwydd, ſancteiddia dy geryddon tadol iddynt; a phâr i'w clefydau fod er Jachawdwriaeth i'w heneidiau. Bydd di yn Dâd i'r plant amddifaid, a dadleu dros y gweddwon. Cryfhâ'r holl weiniaid, a diddana y rhai galarus. Arglwydd, pâr i'r tlodion (i ba rai y darfu i'th Fâb Jesu, bregethu yr efengyl ar y cyntaf) fod yn awyddus i ymofyn am wir wybodaeth; fel y gwneler hwynt yn gyfoethogion mewn ffydd, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd.

Mawr glod a diolch fô i ti, Arglwydd, ām yr holl fendithion a'r trugareddau a roddaiſt i ni, o'r pryd cyntaf y daethom i'r bŷd, hyd yr awr hon. O'th ddaioni a'th drugaredd anfeidrol di, yng Nohrist Jesu, y mae, nad yw ein Sabbothau wedi darfod arnom, a moddion grâs wedi eu cymmeryd ymaith o'n dwylaw ni cyn hyn. Diolch i ti, am ein cadw ni a'n heiddo mewn diogelwch, y nôs a aeth heibio: ac am gennad i nesâu at orſedd dy râs di, y bore hwn. Cymmer ni a'r cwbl ag a feddom dan dy ofal y dydd hwn; a dyro i ni galonnau i'th garu a'th glodfori bob amſer, am dy gariad digyffelyb yn ein prynedigaeth trwy yr Arglwydd Jesu, i ba un, gyd â thi, a'r Yſbryd Glân, boed pob parch, ufudd-dod a gogoniant o'r bore ſanctaidd hwn hyd yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*

Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *i'w harfer mewn teulu ar* brydnhawn dydd Sabboth, *ar ôl derbyn* Sacrament Swpper yr Arglwydd.

Y Goruchel a'r gogoneddus DDUW! yr hwn wyt yn marchogaeth ar nef y nefoedd, yn fathru ar uchelderau'r ddaear ac ar donnau'r môr; yr wyt ti yn preſwylio yn y goleuni diſglair, ac nid oes dywyllwch ger dy fron. I ti y mae mawl holl luoedd y nefoedd a'r ddaear yn ddyledus; canys nid oes neb fel tydi ym myſg y duwiau, na gweithredoedd fel dy weithredoedd di. Wele, yr holl genhedloedd a gyfrifir fel defnyn o gelwrn, ac fel mân lwch y cloriannau; y maent megis diddym ger dy fron di, ac yn llai nâ dim, ac nâ gwagedd y cyfrifwyd hwynt gennyt. Brenin mawr yw'r Arglwydd goruwch yr holl frenhinoedd; mae yn gwaredu, yn achub ac yn gwneuthur rhyfeddodau ac arwyddion yn y nefoedd àc ar y ddaear. Dy orfeddfaingc di, O DDUW, ſydd yn oes oeſoedd; teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy deyrnas di. Yr wyt yn caru uniondeb, ac yn casâu anwiredd; y mae dy natur yn burach, a'th olwg yn lanach nag y gelli edrych ar bechod: ac ni thrîg dim anwiredd gyd â thi.

O Arglwydd, er na's gelli edrych ar bechod nac ymfoddloni ynddo; etto, ti, o'th anfeidrol drugaredd yng NGHRIST JESU, a faddeuaiſt bechodau myrddiynau o bechaduriaid mawrion: a thydi a elli faddeu ein mawrion a'n haneirif bechodau

odau ninnau. Mae dy air yn tyſtio am dy reſonrwydd, O Arglwydd, ac yn dywedyd, mai nid byth yr ymryſoni, ac nid byth y bydd i ti ddal dy ddigoſaint, am ſod yn hoff genyt drugaredd. Onid wyt ti, O Dduw, yn diſgwyl am le i drugarhâu, ac yn ymddyrchafu i doſturio? Wele yma le i ti i drugarhau, a thyma le i ti, i doſturio, ſef wrthym ni, drueiniaid annheilwng ag ſy'n barod i farw dan euogrwydd ein holl bechodau! Oni buaſai dy ryfeddol amynedd di, a'th fawr gariad yng Nghrist Jesu tu ag attom, nyni a fuaſem yr awr hon yn wyloſain ac yn rhingcian dannedd, mewn poenau, heb obaith o ymwared byth. Yn ddïau, nid wyt yn ewyllyſio bod neb o honom yn golledig, eithr dyfod o honom i edifeirwch, ac i adnabyddiaeth o'r gwirionedd; ac i'r diben hynny, ti a roddaiſt i ni dy air ſanctaidd, i ſod yn lluſern i'n traed ac yn llewyrch i'n llwybrau. Nyni a allaſem ſod yn athrawon o ran amſer, ac o ran rhagorfreintiau hefyd, etto, mae arnom eiſiau dyſgu i ni beth ydyw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw.

Collaſom dy ddelw di, trwy gwymp ein rhieni cyntaf; er i ti eu plannu hwynt yn bêr winwydden, o'r jawn hâd oll; etto trwy bechod, hwy a aethant yn blanhigion afrywiog: ac felly yr ydym ninnau eu holl hiliogaeth, o'r un naturiaeth bechadurus a hwythau. Pe ymolchem â nitr, a phe cymmerem lawer o ſebon, ni'n glanhêid oddiwrth ein hanwiredd. Y mae ein trueni yn fawr

arnom, a llygredd pechod yn gryf ynom. Rhai aflan a halogedig ydym, pa beth a ddywedwn ger dy fron? Gofodwn ein llaw ar ein genau, a gofodwn ein genau yn y llwch (lle y gweddai i'n bâth ni fod) i edrych a oes gobaith. Er fod ein pechodau ni wedi tyfu hyd y nefoedd; etto, mae dy drugaredd di yn uwch nâ'r nefoedd. Peth hawdd i ti, yw fymmud ein pechodau oddi wrthym, mor belled ag yw'r dwyrain oddi wrth y gorllewin; gan eu dilëu fel ewmmwl ac fel niwl allan o'th olwg; am hynny yr ydym yn deifyf maddeuant, er mwyn yr Arglwydd Jesu; a nerth i ryngu bôdd i ti byth o hyn allan.

Bendithia ni, Arglwydd, â'r cyfryw ffydd ag a buro ein heneidiau. Boed i Grist Jesu drigo trwy ffydd yn ein calonnau ni; fel y byddom wedi ein feilio a'n gwreiddio mewn cariad, yn gallu amgyffred gyd â'r holl faint, beth yw'r llêd a'r hŷd, y dyfnder a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr hwn fydd uwchlaw gwybodaeth, fel i'n cyflawner â holl gyflawnder Duw.

O Dâd, tywallt fefur helaeth o'th gariad i mewn i'n heneidiau; fell y gallom fyned yn y blaen yn gyfurus, trwy holl drallodau'r bywyd hwn, a'n pwys ar yr anwylyd, yr Arglwydd Jesu. Efe yw ein prynwr ni a'n ceidwad; efe yw bugail ac efgob ein heneidiau; efe yw'r bugail da, yr hwn a roddes ei einioes dros y defaid; efe yw oen Duw, yr hwn fy'n tynnu ymaith bechodau'r bŷd: efe yw rhofyn faron a lili'r dyffrynoedd; y mae ei

gariad

gariad yn well nâ'r gwîn, ac arogl ei olew yn well nâ'r ennaint tywalltedig. O Arglwydd, agor ein llygaid, fel y gwelom hawddgarwch yr anwylyd hwn. Gwnâ i ni ei weled ef yn wynn ac yn wridog, yn rhagori ar ddengmil, fel y byddo ein heneidiau yn glâf o'i gariad.

Ei gariad ef tu ag attom ni, a barodd iddo ymadael â gogoniant y nefoedd, a dyfod i'r bŷd hwn, ynghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemnodd bechod yn y cnawd; fel y cyflawnid cyfiawnder y ddedf yn y rhai oll a rodiant, nid yn ôl y cnawd, eithr yn ôl yr yſbryd. Ein prynwr ſanctaidd a ddïoddefodd dlodi lawer, er mwyn ein cyfoethogi ni; efe a gafodd ei watwor, ei ammherchu a'i fflangellu o achos ein pechodau ni. Efe a yfodd gwppan digofaint y Tâd, fel y caem ni yfed o phïol Jachawdwriaeth. Efe a goronwyd â drain, fel y caem ni wiſgo coron gogoniant. Ei gorph ſanctaidd ef a rwygwyd, a'i waed gwerthfawr a dywalltwyd ar y groes; fel y caem ni ein jachâu a'n golchi oddi wrth amhuredd ffiaidd ein holl anwireddau. Oni welodd ein llygaid ni bortrëiad o'r dïoddefiadau chwerwon hyn pan yr oeddym wrth y bwrdd ſanctaidd y dydd heddyw!

O Arglwydd, dyro i ni râs, fel y bô i ni gofio byth, a charu yn ffyddlon yr hwn a'n carodd ni, ac a dywalltodd ei werthfawr waed droſom. Bydded i ni, trwy rinwedd y gwaed hwn, gael ein cymmodi a'n heddychu â'th fawredd di.

Nertha ni i ſefyll wrth y cyſammod a ſeliaſom y dydd hwn, yn y ſwpper ſanctaidd, heb gilio oddi ar dy ôl di i'r tu dehau nac i'r tu aſſwy. O na chyfeirid ein ffyrdd i gadw dy ddeddfau yn ffyddlon hyd y diwedd! Canys y ſawl a gadwant air dy amynedd di, a gedwir gennyt ti yn awr y brofedigaeth, yr hon ſy 'n dyfod ar yr holl fŷd, i brofi pawb ſy 'n trigo ar wyneb yr holl ddaear. Gwyn eu bŷd y rhai ſy 'n gwneuthur dy orchymynion di; hwy a gânt fraint ym mhren y bywyd, ac a gânt ſyned i mewn trwy 'r pyrth i'r ddinas nefol, pan fô eraill yn cael eu cau allan.

Dyſg ni i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw; tywyſed dy yſbryd daionus ni i dîr uniondeb. Nertha ni, fel y byddom wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawyr yn unig, gan ein twyllo ein hunain. Pâr i 'th air fod wedi ei gyd-dymmheru â ffydd ynom, fel y gwneler ef yn arogl o fywyd i fywyd i'n heneidiau. Dŵg yn y blaen ein ſancteiddiad o ddydd i ddydd; fel y delom o'r diwedd yn gymmwys i deyrnas nefoedd, trwy gyfryngdod yr Arglwydd Jesu.

O Arglwydd, bendithia *Sion*, a helaetha ei therfynau; gwnâ ddaioni yn dy ewyllyſgarwch iddi, ac adeilada furiau *Jeruſalem* Heddwch fyddo o fewn ei rhagfuriau, a llwyddiant yn ei phalaſau. Bydded i wlîth y nefoedd ddiſgyn yn helaeth ar dy winllan, fel y gwelir ynddi lawer o egin grawnwin. Na âd i'r baedd o'r coed ei thurio, na bwyſtfil y maes ei phori; eithr pâr i'w

phlan-

phlanhigion oll flodëuo fel palmwydd, a chynnyddu fel cedrwydd yn *Libanus.*

Bendithia GEORGE ein Brenin, ein Brenhines CHARLOTTE, ar holl frenhinol deulu. Arglwydd, pura holl feibion *Lefi*; coetha hwynt fel arian ac fel aur: pâr iddynt fod yn weinidogion cymmwys y Teſtament Newydd, nid i'r llythyren ond i'r yſbryd; nertha hwynt i fynegi dy holl gyngor di i'r bobl. Pa le bynnag y dechrëuwyd dim gwaith da y dydd hwn, bydded i ti ei ddwyn yn y blaen a'i berffeithio hyd ddydd yr Arglwydd JESU. Cofia, O Arglwydd, bawb oll ag a gofiwyd eiſioes ger dy fron, yng ngweddïau dy bobl y dydd heddyw. Cymmer hwy, a ninnau a'r cwbl a feddom dan dy nodded raſlawn y nôs breſennol.

Dïolch i'th fawredd di, O Arglwydd graſlawn, am dy fawr gariad tu ag attom, trwy dy anwyl Fâb JESU GRIST; efe a ddaeth i'r bŷd er mwyn achub eneidiau colledig. Efe yw'r jawn dros ein pechodau ni; y mae ei waed ef yn llefain pethau gwell nâ'r eiddo *Abel.* Nid oedd gwaed *Abel* ond llefain o'r ddaear am farn a dïaledd; eithr y mae gwaed CRIST yn llefain o'r nefoedd am gymmōd a heddwch i ni bechaduriaid euog, a dïobaith ynom ein hunain. Dïolch i ti am dy air ſanctaidd, am holl foddion grâs ac ordinhadau yr efengyl, a'r parhâd o honynt i ni hyd y pryd hwn. Bendithion gwerthfawr ac aneirif a roddwyd i ni, ac i'r holl wlâd hon yn gyffredinol: pâr i ni eu priſio a'u jawn ddefnyddio er gogoniant i ti, y

rhoddwr

rhoddwr o honynt, ac er ein llês a'n cyſur yſbryd-ol, a'n cynnydd mewn grâs a gwybodaeth o honot ti, tra bôm ni byw; fel y byddom cymmeradwy ger dy fron yn y dïwedd, trwy gyfiawnder ac eirjolaeth Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Gweddi *i'w harfer mewn teulu ar* fore *dydd* Llûn.

O Dduw trugarog a graſlawn, yr hwn wyt hwyrfrydig i ddigofaint, ac aml o drugaredd a gwirionedd: yr wyt yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'th gasânt; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'th garant ac a gadwant dy orchymynion. Duw eiddigus ydwyt, ni roddi dy ogoniant i arall, na'th fawl i ddelwau cerfiedig. Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot; canys da ydwyt, a'th drugaredd ſydd yn dragywydd. Mae dy lygaid di, Arglwydd, ar y rhai a'th ofnant, a'th gluſtiau yn agored i'w llefain hwynt. Tydi ſy'n gwaredu eneidiau dy bobl, ac nid anrheithir neb a ddiſgwylio wrth dy drugaredd di.

Tydi, O Arglwydd graſlawn, a fuoſt hirymarhöus tu ag attom ni bechaduriaid annheilwng, y rhai ydym yma, yn deiſyf cennad i nesâu at orſedd

orſedd dy râs, yn enw dy Fâb Jesu, y bore hwn. Ti a adwaenoſt ein defnydd ni; llwch a lludw ydym, pa fodd y gallwn godi ein hwynebau tu ag attat! Mae ein holl anwireddau o'th flaen di, a'n dirgel bechodau yng ngoleuni dy wyneb. Pechaſom, O Arglwydd, yn er yn y nefoedd, ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid ydym deilwng i gael ein galw yn blant i ti. Yr ydym ni fel peth aflan, ac fel brattiau budron yw ein holl gyfiawnderau.

Wele ni yma o'th flaen di, Arglwydd, yn ein camweddau, ac am hynny, ni's gallwn ni ſefyll ger dy fron di, ond trwy gyfryngdod yr Arglwydd Jesu. O's dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom; o's ymryſonwn â thi, ni's gallwn atteb i ti am un peth o fil; o's ymgyfiawnhâwn ger dy fron, ein genau ein hunain a'n barn yn euog; o's dywedwn ein bod yn berffaith, cei di achos i'n barnu yn gildyn.

Rhodio a wnaethom yn ôl oferedd ein meddwl; wedi tywyllu ein deall, wedi ymddieithrio oddi wrth fuchedd Duw, trwy'r anwybodaeth ſydd ynom, a thrwy ddallineb ein calonnau. Gadawſom yr Arglwydd, ffynnon y dyfroedd byw; a chloddiaſom i ni ein hunain bydewau wedi torri, y rhai ni ddaliant ddwfr. Mae ein calonnau wedi caledu trwy dwyll pechod, y maent wedi bod yn demlau i'r gelyn Satan, y maent megis lletty dreigiau neu nyth o nadredd: allan o honynt y mae pob medd-

y liau

yliau drwg yn dyfod. Mae holl ſwydd-gynneddfau a galluoedd ein heneidiau wedi myned allan o jawn hŵyl. Y mae ein eôf yn llygredig, ein hewyllyſiau yn gyndyn, ein ſerchiadau yn ddaearol, a'n ſynniad yn gnawdol: ys truain o ddynion ydym! Pwy a'n gwared ni oddi wrth gorph y farwolaeth hon?

O Arglwydd, dyſg ni i ddyfod attat ti, dan ddwys deimlad o'n trueni, a chyd â gwir edifeirwch, i lefain arnat am drugaredd er mwyn gŵr dy ddeheulaw, yr hwn ſydd yn y nefoedd yn eirjol droſom. Cymmorth ni i groeſhoelio yr hên ddyn ynghyd â'i wyniau a'i chwantau, er mwyn dirymmu corph pechod, fel rhagllaw na bô i ni waſanaethu pechod. Bydded i ddeddf yſbryd y bywyd yng Nghrist Jesu, ein rhyddhâu ni oddi wrth ddeddf pechod â marwolaeth. Bydded i'r grâs ſy'n dwyn Jachawdwriaeth, ein dyſgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol; I fyw yn ſobr, yn gyfiawn ac yn dduwiol, yn y bŷd ſydd yr awr hon; fel y bô genym ſail ſiccr i ddiſgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangoſiad gogoniant y Duw mawr, ſef, ein Jachawdwr Jesu Grist. Pura ni oddi wrth bob anwiredd, fel y bôm bobl brïodol i ti dy hun, awyddus i weithredoedd da.

O Dâd ſanctaidd, rhynged bôdd i ti, ein hadgenhedlu ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Jesu Grist oddi wrth y meirw. Pura ein heneidiau i ufuddhâu i'r gwirionedd trwy yr yſbryd. Pâr i ni yſtyried byrdra ein hamſer ac anſiccrwydd

ein

ein bywyd; fel i'n deffröer i ddyfod attat ti ar frŷs, i geiſio dy heddwch a'th gymmorth er mwyn yr Arglwydd Jesu. Niwyddom ni lai, Arglwydd, na fydd i ti ein galw ni allan o'r bŷd, cyn diwedd y dydd hwn. Llawer, yn ddiammau, o'r rhai ſy'n myned allan o'u tai, yn fyw ac yn jach, y bore hwn, fel ninnau; na ddychwelant byth yn ôl drachefn yn fyw. Ni ŵyr neb beth all ddigwydd mewn un diwrnod. Pâr i'r yſtyriaeth o hyn, weithio ymrôad difrifol ynom i ymadael â phob pechod, ac i lynu wrthyt ti o lwyr-fryd calon.

Pâr i ni weithio gwaith yr hwn a'n hanfonodd ni i'r bŷd, tra bô dydd ein bywyd yn para; canys y mae'r nôs, ïe, y mae hîr-nôs angau yn dyfod, pan na ddichon neb weithio. Cymmorth ni, gan hynny, O Arglwydd, i ddiſgwyl wrthyt ti yn unig, gan daer-lefain arnat, trwy ffydd yn enw Crist, am gyfarwyddyd dy yſbryd, a nerth dy râs, i'n gwneuthur yn ffyddlon ymhob rhan o'th waſanaeth tra bôm yn y bŷd; fel y byddom cymeradwy ger dy fron pan yr elom allan o hono. Bydded ein hedifeirwch yn wirioneddol, ein ffydd yn gywir, ein hufudd-dod yn gyſon a'n cariad yn wreſog, yn ffyddlon ac yn gynnyddus tu ag attat ti, hyd y diwedd.

O Arglwydd, cymmorth ni i garu ein gilydd o galon bûr yn helaeth; gan garu ein gilydd fel ein hûnain, can's cyflawnder y gyfraith yw cariad. Dyro i ni amynedd a gwroldeb dan bob trallodau a chroeſau ag a ddêl i'n cyfarfod yn y bŷd: pâr

i'r

i'r cwbl gydweithio er daioni i ni yn ôl dy addewid i'th bobl.

Trugarhâ, O Dduw, wrth bawb ag ſydd mewn amgylchiadau cyfyng; cynnorthwya hwynt i ddiſgwyl wrthyt ti am ymwared: nertha hwynt yn eu cyfyngderau, fel na flinont ac nad ymollyngont yn eu heneidiau. O Arglwydd, bendithia dy enneiniog yn y deyrngadair, bydded dy ofn yn waſtad o flaen ei lygaid, fel y byddo iddo lwyddo yn ei holl achoſion. Gwiſg di ei holl elynion ef â chywilydd; ac arno yntef blodëued ei goron. Bendithia ein graſuſol frenhines, a phawb o'r brenhinol deulu: dyro iddynt bob llwyddiant yn y bŷd hwn, a bywyd tragywyddol yn y bŷd a ddaw.

Cofia, O Dduw, am y rhai ſy'n dyſgu'r ffordd i deyrnas nefoedd, ſef gweinidogion dy air a'th ſacramentau; cyfranna yn helaeth arnynt o'th râs a'th yſbryd; fel y gallont ddwyn allan o'u tryſor bethau newydd a hên. Gwnâ hwynt yn dyſtion ffyddlon o'r pethau a welant ac a ddyſgant yn dy air di, fel y byddont offerynol yn dy law, i droi llawer o dywyllwch i oleuni, ac o deyrnas y diafol i deyrnas dy Fâb Jesu.

Tydi, Arglwydd, a ddewiſaiſt *Sion*, ac a'i chwennychaiſt yn drigfan i ti dy hun; bydded dy orphwyſfa ynddi yn dragywydd. Bendithia ei lluniaeth, diwalla ei thlodion â bara, a gwiſg ei hoffeiriaid â'th Jachawdwriaeth. Bydd yn fûr o dân o'i hamgylch, ac yn ogoniant yn ei chanol.

Rhŷnged bôdd i ti, O Arglwydd Ddvw, i fendithio yr holl rai cleifion a chyſtuddiol, ag ſy'n cwynfan ddydd a nôs dan dy law geryddol di: edrych arnynt mewn trugaredd, a nertha hwynt i obeithio a diſgwyl yn ddiſtaw am dy Jachawdwriaeth di. Dŵg bawb o honynt i undeb â'r Arglwydd Jesu; fel pa un bynnag a'i byw a'i marw a wnelont, y byddont yn eiddot ti yn dragywydd. Bydd dda, O Arglwydd, wrth bawb o'n perthynaſau a'n cymmwynaſwyr caredigol; llwydda hwynt yn eu holl achoſion, ac yn enwedig yn y pethau a berthyn i'w heddwch â thydi, trwy yr Arglwydd Jesu. Tywallt amldra o bob bendithion ar bennau pawb o'r rhai trugarogion hynny, ag ſydd yn gofalu am eneidiau'r tlodion anwybodus. Trwy dy fendith di y llwyddodd moddion gwybodaeth er llês i laweroedd o honynt hwy ac eraill: pâr lwyddiant etto, O Arglwydd, nes caffo pawb yn ein plith, eu dwyn i fod yn hyddyſg yn athrawiaeth y 'ſgrythur lân, yr hon ſydd abl i'w gwneuthur yn ddoeth i Jachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist Jesu.

Ymwêl yn dy drugaredd â'r holl rai galarus, gweddwon ac amddifaid. Trugarhâ wrth bawb o'r rhai lleſg, hên a methedig: nertha hwynt oll i ddiſgwyl wrthyt ti, yr hwn ſydd yn helaeth o drugaredd i'r rhai oll a'th geiſiant; ti a waredi dy bobl o'u gorthrymderau, ac a'u dygi i fwynhâu gorphwyſfa dragywyddol gyd â thi dy hun yn nheyrnas nefoedd.

Mawl

Mawl a dïolch a fô i ti, O Dduw, am dirïondeb dy drugaredd tu ag attom ni o'n dechreuad hyd yr awr hon: ti a roddaiſt i ni helaethrwydd o foddion grâs! ni adewaiſt i air y bywyd fod i ni fel geiriau llyfr ſeliedig; y mae dy fawrion weithredoedd di yn cael eu llafaru wrthym yn ein jaith ein hunain. Yr ydym ni yn byw yngwlâd goleuni, pan y mae eraill mewn tywyllwch; yr ydym ni yn jach, pan y mae eraill yn gleifion; ac yr ydym ni yn fyw, pan y mae myrddiynau o rai eraill wedi myned i blith y meirw.

Clod a dïolch i ti am ein cadw ni rhag pob perygl a dychryn y nôs neithiwyr, a'r rhan aeth heibio o'r dydd hwn. Tydi ſy'n ein porthi ac yn ein dilladu, yn ein cyſuro ac yn ein hamddiffyn bob amſer. Dïolch i ti, O Dâd graſlawn, am yr holl drugareddau hyn; ond ni a ddymunem gymmorth i'th garu a chlodfori dy enw ſanctaidd yn bennaf oll, am dy gariad anfeidrol yn ein prynedigaeth, trwy dy anwyl Fâb, yr Arglwydd Jesu, yn ei enw ef y gorchymynwn ein heneidiau a'n cyrph i ofal dy raglunaeth ac i dywyſiad dy yſbryd ſanctaidd di, y dydd hwn ac yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *i'w barfer mewn teulu ar* brydnhawn *dydd* Llûn.

YR hollalluog a'r tragywyddol DDUW, yr hwn wyt, a'r hwn oeddyt, a'r hwn a fyddi, yr unhyd yn oes oesoedd. Duw ydwyt, heb dy fâth, yn mynegi'r diwedd o'r dechreuad, ac er cynt y pethau ni wnaed etto; dy ewyllys di a fydd, a'th gyngor di a saif yn dragywydd. Yn yr Arglwydd y mae cadernid tragywyddol, perffaith yw ei weithred, canys ei holl ffyrdd ydynt farn; Duw gwirionedd ac heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw efe. Yr hwn sy 'n symmud mynyddoedd, ac heb wybod iddynt; ac yn eu dymchwelyd hwynt yn ei ddigofaint.

Tydi, Arglwydd, wyt yn cynhyrfu'r ddaear allan o'i lle; fel y cryno ei cholofnau hi. Y mynyddoedd a giliant a'r bryniau a symmudant, ond dy drugaredd di ni chilia oddi wrth dy bobl, a chyfammod dy hêdd ni syfl yn dragywydd. Ti yw'r Duw goruchel, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, ac mae ei enw yn sanctaidd; yn y goruchelder a'r cyssegr y preswyli di; a chyd â'r cystuddiedig a'r isel o ysbryd, i sywhâu y rhai isel o ysbryd, ac i sywhâu calon y rhai cystuddiedig. Pa DDUW sydd fel tydi, yn maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? Ni bydd i ti ddal dy ddig byth, am fod yn hoff genyt drugaredd.

Nid

Nid yn ôl ein pechodau y gwnaethoſt â ni, ac nid yn ôl ein hanwireddau y telaiſt di i ni: pe buaſit wedi gwneuthur felly â ni, nyni a fuaſem yn awr, yn codi i fynu ein golygon mewn poenau, heb obaith o ymwared byth. Oni buaſai i'th drugaredd ein rhagflaenu, ein cyrph a fuaſent, cyn hyn, yn ymborth i bryfed, a'r prŷf anfarwol yn ymborthi ar ein heneidiau. O pâr i ni weled dy drugaredd tu ag attom, a chynnorthwya ni i'th addoli di mewn yſbryd a gwirionedd: cyfeirier ein gweddi ger dy fron fel arogldarth, a dyrchafiad ein dwylaw fel yr offrwm prydnhawnol.

O Arglwydd graſlawn, ni's gallwn ni gyflawni un rhan o'th addoliad di fel ag y dylem, o herwydd y llygredd a'r pechod ſy'n llawn ynom; etto ni a ddymunem gael cymmorth oddi wrthyt, i nesâu yn oſtyngedig at orſedd dy râs, yn enw dy Fâb Jesu, i gyfaddef ein hannheilyngdod a'n mawrion bechodau i'th erbyn: ac i lefain arnat o eigion ein heneidiau am râs a chymmorth i ymadael â hwynt dros byth. Fe ddylai fod arnom gywilydd a gorchwyledd i godi ein hwynebau tu ag attat; canys y mae ein camweddau yn aml, a'n hanwireddau heb derfyn. Nid yw boſſibl i ni allu eu cyfrif hwynt, canys ni wyddom pa le i ddechreu, na pha le i ddiweddu arnynt. Y mae ein halogrwydd ni yn fawr jawn! ni's gall holl ddyfroedd y môr olchi ymaith ammhuredd ein heneidiau, na dim arall ein glanhâu, ond gwaed dy Fâb, yr Arglwydd Jesu.

Ein

Ein mebyd a dreuliaſom mewn gwagedd ac angof o honot ti, ein creawdwr; pa beth a ſu ein holl fywyd, o'n dechreuad hyd yn awr, onid megis un gadwyn ffiaidd o bechod? Ac er bod ein cyflyrau yn reſynol ac yn druenus jawn, etto, ti a weli mor ddifraw yw ein hyſbrydoedd o'n mewn, ac mor ddïymofyn ydym am gael adnabyddiaeth o'r Arglwydd Jesu, yr hwn yn unig a ddichon ein gwared oddi wrth ein pechodau, ag ſy'n achos o bob trueni tymhorol, yſbrydol a thragywyddol.

O Dâd trugarog, deffro, attolwg, deffro galon ac yſbryd pob un o honom i yſtyried ein ffyrdd, cyn yr elo hi yn rhy ddiweddar. Pâr i ni we'ed ein colledigaeth, a theimlo pwys euogrwydd ein pechodau, fel y bô i ni eu casâu hwynt â châs cyflawn; a llefain arnat am râs a chymmorth i wir edifarhâu am danynt, a dychwelyd oddi wrthynt attat ti, trwy ffydd yng Nghrist Jesu.

Y mae addewidion anwyl a ffyddlon dy air di, yn rhoddi annogaeth i ni i lefain arnat, a deiſyf maddeuant, er mwyn dy anwyl Fâb, yr Arglwydd Jesu. Ti a ddywedaiſt, trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach. Onid dy enaid ſanctaidd di dy hunan a ddywedodd, pe byddai ein pechodau fel 'ſgarlad, yr aent cyn wynned ar eira; a phe cochent fel porphor y byddent fel gwlân? O cyflawna yr addewidion hyn i ni. Dilëa ein camweddau fel cwmmwl, a'n pechodau

fel

fel niwl allan o'th olwg: tafl hwynt o'r tu ôl i'th gefn, tafl hwynt i ddyfnderoedd y môr; fel na ddelont i'n cywilyddio yn y bŷd hwn, nac i'n cyfarfod ac i'n condemnio yn nydd y farn.

Crëa galon lân ynom, O Dduw, ac adnewydda yſbryd uniawn o'n mewn; fel lle y gwnaethom ar fai, na's gwnelom felly mwyach. Bendithia ni, Arglwydd, â'r cyfryw wir ffydd ag a buro ein calonnau; canys y rhai pur o galon a gânt weled Duw. Dyro i ni y cyfryw ffydd ag a fô'n uno ein heneidiau â'th Fâb Jesu; y ffydd ac a'n nertho i orchfygu hudoliaeth y bŷd, ac a fyddo fel tarian yn diffoddi holl biccellau tanllyd y fâll, yn gwneuthur gweinidogaeth yr efengyl yn fuddiol i ni; ïe'r ffydd ag a fô'n dwyn cyſur i ni yn awr angau, ac yn troi yn olwg tu draw i'r bêdd. Arglwydd, nertha ni i'th garu di uwchlaw pob peth; fel y byddo i ti ein caru ninnau, ac egluro dy hun i ni.

Gwnâ ni yn gymmwynaſgar ac yn garedigol i bawb o'n cyd-greaduriaid, gan fod yn barod i wneuthur da i bawb, ond yn enwedig i'r rhai ſydd o deulu'r ffydd. Nertha ni i wilio a gweddïo beunydd, fel na ſyrthiom i brofedigaeth. Dyſg ni i adnabod dichellion y gelyn diafol, fel na bo i ni gael ein ſiommi ganddo un amſer. O Arglwydd, ſathr Satan dan ein traed ni ar frŷs. Parotôa ni erbyn amſer trallod, erbyn awr angau a dydd barn. Bydd di gyd â phob un a honom y nôs hon: pâr i ni huno a dihuno gyd â thi.

Bydded

Bydded melus ein myfyrdod am danat yngwiliad-wriaethau 'r nôs; a phâr i'n hyſbrydoedd o'n mewn dy foreu-geiſio di, O Dduw.

Eſtyn dy ddaioni, Arglwydd, i bawb o'n cydgreaduriaid: Bendithia ein holl bennaethiaid yn yr eglwys a 'r deyrnas. Cadw 'r brenhin a'r frenhines dan dy ofal neillduol bob amſer, ac amddiffyn hwynt rhag eu holl elynion yſbrydol a thymhorol hefyd. Trugarhâ wrth bawb ag ſy 'n ddïeithriaid i wladwriaeth *Iſrael*, yn eſtroniaid i ammodau 'r addewid, heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y bŷd.

Nertha holl weinidogion yr efengyl i bregethu gair yr Jachawdwriaeth: dyro di yſbryd deall a doethineb i bawb o honynt, fel y gwyppont pa fodd i ymddwyn yn jawn yn eglwys Crist, yr hon yw colofn a ſylfaen y gwirionedd. Cerydda di, y rhai oll a gasânt *Sïon*; darfydded am dy holl elynion, O Arglwydd, a bydded y rhai a 'th hoffant di, fel yr haul yn myned rhagddo yn ei rym. Bydd drugarog, O Dduw, wrth y cleiſion a 'r cyſtuddiol, ymhob man; gwnâ lês i 'w henеidiau trwy gyſtuddio eu cyrph, a pharotôa hwynt erbyn amſer eu hymddattodiad. Attolwg, Arglwydd, maddeu eu holl bechodau, a ſanctеiddia hwynt, fel y byddont gymmeradwy ger dy fron di yn dragywydd.

Trugarhâ wrth bawb ag ſy 'n dïoddef un mâth o galedi, adfyd neu garchar; dŵg hwynt oll at dy Fâb Jesu, i gael ymwared: canys o 's y mab a 'u

a'u thyddhâ, rhyddion a fyddant yn wir. Dyro râs i'r rhai oll a waredwyd o gyfyngderau a pheryglon, fel y cydnabyddont yn dda, oddi wrth bwy y cawſant ymwared; ac y dyſgont beidio a phechu mwyach, rhag digŵydd iddynt beth a fô gwaeth. O Arglwydd daionus, yr ydym yn attolwg arnat, i gofio a bendithio pawb ag ſy'n anwyl genym, yn enwedigol ein carennydd yn ôl y cnawd. Dŵg hwynt i fod yn bobl anwyl i ti, ac yn ddiſgyblion ffyddlon i'th Fâb Jesu; fel y llwyddont ymhob peth bob amſer, ac y byddont dan dy ofal di yn waſtadol. Nac anghofia'r gwragedd gweddwon, a'r plant amddifaid, dyſg hwynt i ddiſgwyl wrthyt am bob peth angenrheidiol: bydd yn gyfur ac yn gymmorth iddynt bob amſer.

Arglwydd, cynnorthwya y rhai ſydd etto ym mlodau eu hamſer, i th gofio di yn foreu; dyſg hwynt i rodio yn waſtad yn dy ffyrdd, a chynnyddu mewn gwybodaeth a grâs, megis y maent yn cynnyddu mewn oedran a dyddiau. Edrych hefyd yn dy drugaredd ar y rhai ſydd mewn henaint a phenllwydni: pâr di i'w dyddiau diweddaf fod yn ddyddiau da a chyſurus iddynt; a phan y bônt yn ymadael â'r bŷd hwn, derbyn hwynt i freichiau dy drugaredd. O Dad, bendithia, a llwydda yn helaeth dy bobl *etuſengar* a *charedig*, y rhai ſy'n cyfrannu yn ewyllyſgar tu ag at ddwyn y rhai anwybodus ac iſel râdd i adnabyddiaeth o'r Arglwydd Jesu. Tydi a'u llwyddaiſt hyd yn

hyn, (amlhâ eu nifer a) llwydda hwynt etto; na âd i lafur eu cariad fyned yn ofer eithr pâr i filoedd gael achos i'th glodfori di ar eu rhan yn nydd yr ymweliad. Edrych mewn tiriondeb, Arglwydd, ar y ſawl a wnaethoſt ti yn garedigol ac yn gymmwynaſgar i ni; cadw hwynt rhag pob drwg tra bônt yn y bŷd, a dŵg hwynt yn y diwedd i deyrnas y gogoniant. Trugarhâ hefyd wrth ein caſëion a'n drwg ewyllyſwyr; na âd i ni gynnwys yn ein calonnau un mâth oddrwg ewyllys iddynt na chwennych ymddïal arnynt: O Arglwydd, na *ddïal* dithau arnynt, eithr *maddeu* eu holl bechodau, ac achub eu hanfarwol eneidiau, er mwyn dy drugaredd yng NGHRIST JESU.

Bendigedig a fyddo dy enw gogoneddus di, O ein Duw, am dy holl ddaioni a'th drugareddau i ni, ac i bob dyn. Rhyfedd mor helaeth yr ydwyt wedi darparu droſom ymhob rhyw yſtyriaeth! Diolch i ti am na ddigwyddodd dim aflwydd na niwaid i ni'r dydd a aeth heibio, ac am roddi cennad i ni i nesâu attat i geiſio dy fendith, ac i orchymyn ein hunain a'r cwbl a feddôm i'th ofal di y nôs hon, yn enw yr Arglwydd JESU. O cymmorth ni i glodfori dy fawredd a'th garu byth am dano ef, yr hwn yw'r ffynnon fawr ddiddiſbydd, allan o ba un y mae ein holl fendithion a'n trugareddau gwladaidd ac eglwyſig, beunyddiol a noſweithiol yn tarddu. Trwyddo ef yr ydym yn gobeithio cael maddeuant o'n holl bechodau a thrugaredd i fywyd tragywyddol: iddo ef, gyd â

thi, O Dâd, a'r Yſbryd Glân, boed holl addoliad a mawl y nefoedd a 'r ddaear o'r nôs hon, hyd yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Boreuol Weddi *ar ddydd* Mawrth.

Y Brenin tragywyddol, anfarwol ac anweledig; tydi yw 'r unig ddoeth Dduw, yn hwn ſy 'n trigo yn y goleuni ni ellir dyſod atto; yr hwn ni 's gwelodd un dyn, ac ni 's dichon ei weled; i ti y perthyn anrhydedd, a gallu, a mawredd tragywyddol. Tydi ſy 'n tannu'r gogledd ar y gwagle; yr wyt yn crogi 'r ddaear ar ddiddym; ac yn rhwymo'r dyfroedd yn y cymmylau: ac nid yw'r cwmmwl yn hollti danynt hwy. Yn wyt yn attal wyneb dy orſeddfainge, ac yn tannu dy gwmmwl arni hi. Ti a amgylchaiſt wyneb y dyfroedd â therfynau, nes dibennu goleuni a thywyllwch. Y mae colofnau'r ddaear yn ſynnu ac yn crynu wrth dy gerydd di. Yr wyt ti wedi rhannu y ddaear â'th nerth, ac wedi addufno y nefoedd â'th yſbryd. Nid yw y rhai hyn, ond rhannau o'th ffyrdd di; mor ſychan yw 'r peth yr ydym ni yn ei glywed neu yn ei wybod am danat! Preſwylwyr eithafoedd y bŷd a ofnant dy arwyddion: gwnai i derfynau boreu a hwyr lawenychu. Coroni yr ydwyt

y

y ſiwyddyn a'th ddaioni, a'th lwybrau a ddiferant fraſder.

Mor fawr yw'r achos fydd genym ni i'th garu a bendithio dy enw di, O Arglwydd; a rhyfeddu riondeb dy gariad tu ag attom o'n dechreuad hyd y bore hwn! Tydi a'n tynnaiſt ni o grôth ein mammau, ac a'n meithrinaiſt ni, pan yr oeddym ar eu bronnau hwynt. Pa fodd y cadwyd ni rhag y damweiniau anghyfurus a ddigwyddaſant i laweroedd o rai eraill, onid trwy dy fod di yn gofalu am danom?

Er dangos o honot gyfrinfaint o gariad ac ewyllys da i ni, etto, anghofiaſom di, ac ni rodiaſom yn dy ffyrdd; eithr buom fyw fel Paganiaid, neu annuwiolion rhyfygus, y rhai a ddywedaſt yn eu calonnau, nad oes un Duw. Pa un o'th holl ſanctaidd gyſreithiau di, Arglwydd, na's darfu i ni dorri filoedd o weithiau, mewn meddyliau, geiriau a gweithredoedd? Pwy o honom a ddichon ddywedyd, glân yw fy nwylaw a phur yw fy nghalon, mi doyrchafodd fy meddwl at wagedd? Y mae ein calonnau yn fwy eu twyll nâ dim; drwg diobaith ydynt, pwy a'u hedwyn? Ein calonnau a ddirmygaſant gerydd; ni wrandawſom ar lais ein hathrawon, ac ni oſtyngaſom ein cluſt i'n dyſgawdwyr. Tynnaſom ddamnedigaeth arnom ein hunain, am ragluchna dy ras di: canys ti a anfonaſt oleuni i'r byd, a ninnau a garaſom y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, am fod ein gweithredoedd ni yn ddrwg.

Tro attom, a thrugarhâ wrthym, O Arglwydd: pâr i dduwiol driftwch feddiannu ein calonnau, am i ni erjoed bechu yn erbyn Duw mor dda, a thâd mor dirion! jachâ ni, Arglwydd, a ni a jachêir; achub ni, a ni a achubir; canys ti yw ein Jachawdwriaeth, a'n gobaith yn nydd trallod. Bendithia bob enaid o honom â gwir ac â bywiol ffydd: y ffydd ac a baro i ni ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amſer; gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thryſorau'r bŷd. Cymmorth ni, O Dduw, i'th waſanaethu di gyd â gwylder a pharchedig ofn.

Gwnà i ni dy garu di uwchlaw pob peth; can's yr hwn ſy'n caru Tâd neu fam, Mâb neu ferch yn fwy nâ thydi, nid yw deilwng o honot ti. Bydded i gariad Crist ein cymmell i fyw, nid i ni ein hunain; ond iddo ef, yr hwn a fu farw droſom, ac a gyfodwyd drachefn i'n cyfiawnhâu ni. Dyſg ni hefyd, Arglwydd, i garu ein gilydd o galon bur yn helaeth; gan fod yn unfryd, yn eyd-ddioddef â'n gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn fwynaidd: nid yn talu drwg am ddrwg, neu sën am sën; eithr yng ngwrthwyneb yn bendithio; gan wybod mai i hyn yma i'n galwyd, fel yr etifeddom fendith. Nertha ni hefyd i garu ein gelynion, a gweddïo dros bawb o'n caseion, yn ôl dy orchymyn di: na âd i ni lawenhâu yn eu drygfyd, na chwennych ymddïal; eithr rhoddi lle i ddigofaint: canys i ti y mae dïal, a thi a deli'r pwyth.

Cymmorth ni, O Arglwydd, i ſefyll i fynu yn wrol ymhlaid y gwirionedd, a thros ogoniant dy enw di, gan gyd-ymdrech gyd â ffydd yr efengyl. Na âd fod arnom na chywilydd nac ofn i arddel yr Arglwydd Jesu, ac i amddiffyn ei achos ef tra bôm ni yn y bŷd. Nertha ni, O Dâd, i fyned yn y blaen yn gyſurus trwy holl drallodau 'r bŷd a 'r bywyd hwn: adnewydda ein nerth o ddydd i ddydd, i ehedeg fel eryrod; gan redeg heb flino, a rhodio heb ddiffygio, nes bô i ni allu gorphen ein gyrfa trwy lawenydd.

O pâr i ni glywed dy drugaredd y bore hwn; o herwydd ynot ti y gobeithiwn. Pâr i ni wybod y ffordd y dylem rodio ynddi; canys attat ti y dyrchafwn ein heneidiau. O 'th ddaioni di, Arglwydd, y mae, na ddarfu am danom yn nhywyllwch y nôs neithiwyr: nyni a gawſom orwedd, a chyſgu a deffröi, canys tydi a 'n cynheliaiſt, ac ni adêwaiſt i ni huno yn yr angau. Arglwydd, cadw ni etto 'r dydd hwn rhag pob drwg; cadw ein heneidiau rhag pob pechod. Cadw ni yn ein mynediad allan a 'n dyfodiad i mewn, o 'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

O Arglwydd, trugarhâ wrth yr holl ynyſoedd pêll, ag ſydd mewn tywyllwch ac anwybodaeth: dŵg eu trigolion i adnabod yr Arglwydd Jesu. Hyſbyſa dy Jachawdwriaeth a datguddia dy gyfiawnder yngolwg y cenhedloedd. Cofia dy drugaredd a 'th wirionedd i dŷ *Iſrael*, a phâr i holl derfynau 'r ddaear adnabod dy Jachawdwriaeth.

Pryſura'r amſer. O Arglwyddi wneuthur *Sion* yn ogoniant yn holl ddaear. Cân i ni, yn ôl dy addewid, weled mynydd tŷ'r Arglwydd wedi ei barotoi ym mhen y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; ſel y dylifo'r holl genhedloedd atto.

O ein Tâd nefol, bendithia wlad ein genedigaeth: dyro heddwch i'n tîr; fel na ddelo ſŵn rhyfel, na thrwſt ein gelynion yn agos attom. Dyro i'r brenin ddoethineb a gwybodaeth, fel y gwybyddo pa fodd i ymddwyn yn ei ſyneidiad allan a'i ddyfodiad i mewn, o flaen dy bobl dioſog di. Dyro iddo galon ddiballus i farnu dy bobl, ac i ddeall rhagor rhwng y da a'r drwg. Bendithia y frenhines a'r holl frenhinol deulu, â phob graſau a bendithion cyfaddas i'w He a 'u ſefyllfa.

Dyſg di holl athrawon dy air i ddangos rhagor rhwng y ſanctaidd a'r halogedig, a pheri i bawb a fô dan eu gweinidogaeth wybod gwahaniaeth rhwng y glân ar aflan; a thynnu ymaith y gwerthfawr oddi wrth y gwael: fel y byddont megis dy enau di. Pâr di lwyddiant i'th holl weinidogion ffyddlon; a cherydda y rhai a jachânt friw dy bobl yn eſmwyth, gan ddywedyd, Heddwch, heddwch, pan na fyddo heddwch. Ti a orchymynnaiſt i ni gofio y rhai ſy 'n rhwym, fel pe baem yn rhwym gyd â hwynt; a'r rhai cyſtuddiol megis yn bod ein hunain hefyd yn y corph. Cofia di hwynt, O Dduw, a thrugarhâ wrthynt, canys y maent yn egwan ac yn lleſg: jachâ ac achub hwynt

er

er mwyn dy drugaredd; o blegid yn angau nid oes goffa am danat, yn y bêdd, pwy a'th folianna? na âd i angau nac einioes, na dim arall eu gwahânu hwynt oddi wrth dy gariad di yng NGHRIST JESU.

Arglwydd, bendithia ein brodyr a'n cenedl yn ôl y cnawd; pâr iddynt wybod, a gwneuthur dy ewyllys di bob amser; fel y derbynier hwynt yn frodyr ac yn chwiorydd i'r Arglwydd JESU. Bendithia'r plant, a'r dynion jeuaingc fydd dan ofal athrawon mewn yſgolion uchel neu iſel. Bendithia mewn modd neillduol, yr *yſgolion rhâd*, a a drefnodd dy ragluniaeth mor aml ym myſg y *llodieu a'r anwybodus*, yn y parthau hyn o'r deyrnas; gwnâ yr yſgolion hyn, yn *faeth dai* crefydd a rhinweddau da: pâr i'r addyſgiadau a roddery nddynt, fod fel ffrydiau o ddyfroedd bywiol i lawenhâu dinas Duw. Cyfranna yn helaeth o fendithion y nefoedd oddi uchod, a'r ddaear oddi iſod, ar bawb o gynnorthwywyr *eluſengar* y gwaith angenrheidiol hwn. Cofia, Arglwydd, am bawb o'r rhai gorthymmedig, gweddwon, amddifaid, galarus ac athrift, yn eu cyrph ac yn eu heneidiau: ſancteiddia holl drefniadau dy ragluniaeth iddynt, a chymmorth hwynt i ddiſgwyl wrth dy drugaredd di yng NGHRIST JESU.

Cynnorthwya ni i fod yn ddiolchgar i ti, O Arglwydd trugarog, am dy holl ddaioni a'th drugareddau i ni bob amſer. Tydi a'n bendithiaiſt ag amldra mawr o foddion grâs: ni adêwaiſt i'n

preſwylfod fod mewn tywyllwch ym mhêll oddi wrth gynteddau *Sïon*, eithr cymmeraiſt ni yn bobl agos attat dy hun; a rhoddaiſt dy air yn lluſern i'n traed, ac yn llewyrch i'n llwybrau. Nid wyt yn gadael i ni grwydro o fôr i fôr, ac i wibio o'r gogledd hyd y gorllewin i geiſio dy air, a ffaelu ei gael: ac yr ydym yn gobeithio y parhêi i ni weledigaeth eglur, ac na adëwi i'r haul fachludo ar y prophwydi, na'r dydd i dduo arnynt.

Diolch i ti, Arglwydd, am anfon i ni bob peth angenrheidiol i'n heneidiau a'n cyrph hefyd. O deffro ein hyſbrydoedd, i yſtyried y dyled ſydd arnom i'th garu a'th glodfori, uwchlaw pob trugaredd arall, am anfon o honot dy anwyl, a'th uniganedig Fâb i'n prynu, ac i fod yn jawn dros ein pechodau! Trwyddo ef y mae i ni ymwared oddi wrth ein gelynion, ac o ddwylaw pawb o'n caſëion. Trwyddo ef yn unig, y rhoddir i ni obaith am faddeuant pechod, a bywyd tragywyddol. Bydded, gan hynny, iddo ef gyd â thi, O Dâd, a'th Yſbryd Glân, bob clod, anrhydedd a gogoniant yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Prydnhawnol Weddi *ar ddydd* Mawrth.

O Arglwydd ſanctaidd a gogoneddus, nid oes fel tydi ym myſg y Duwiau, na gweithredoedd fel dy weithredoedd di. Tydi yw'r Duw ffyddlon,

ffyddlon, fy'n cadw cyfammod a thrugaredd â'r rhai oll a'th garant ac a gadwant dy orchymynion, hyd fil o genhedlaethau. Ynot ti y mae cadernid tragywyddol; perffaith yw dy weithred, canys dy holl ffyrdd ydynt farn: Duw gwirioned ac heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn ydwyt ti. Yr wyt yn lanach dy lygaid nag y gelli edrych ar ddrwg, ac ni thrîg dim anwiredd ger dy fron; am hynny, ynfydion ni ſafant o'th flaen: caſêaiſt holl weithredwyr drygioni. Dy law a gaiff afael ar dy holl elynion; dy ddeheulaw a gaiff afael ar dy gaſëion. Ti a'i gwnai hwynt fel ffwrn danllyd yn amſer dy lid; yr Arglwydd yn ei ddigloned a'i llwngc hwynt, a'r tân a'u hyſa hwynt. Duw ſydd ei-ddigus, a'r Arglwydd ſydd yn dïal; yr Arglwydd ſydd yn dïal ac yn berchen llid: dïal yr Arglwydd ar ei holl wrthwynebwyr, ac efe a ddifa y rhai annuwiol, yn ei ddigofaint. Mor ofnadwy wyt ti, O Dduw! Pwy a ſaif o'th flaen pan ennynno dy lid?

Pa beth a wnawn ni, bechaduriaid truain? Pa fodd y gallwn nesâu ger bron dy fawredd di, yn uchel Dduw, gan nad ŷm deilwng i gymmeryd dy enw ſanctaidd yn ein geneuau? Aflan, aflan, ydym! Darfu am danom, oni chawn ein dwyn ar frŷs at yr Arglwydd Iesu; trwy yr hwn yn unig, y rhoddir i ni obaith o faddeuant pechod, ac ymwared oddi wrth dy ddigofaint di, a damnedigaeth dragywyddol. Efe yw dinas noddfa yr holl rai gwir edifeiriol; efe yw'r cyfaill goreu yn

nydd trallod. Cyfaill a gâr bob amſer, a brawd a anwyd erbyn amſer caledi, yw yr Arglwydd Jesu. Gwyn eu bŷd y rhai oll a ymddiriedant ynddo. O na bae ein calonnau ninnau yn ymrwygo o'n mewn, yr awr hon, gan ddŵr iol driſtwch o blegid ein pechodau; fel y byddai i ni ddyfod, dan deimlad o'n trueni a'n colledigaeth ynom ein hunain, i ymofyn am dano ef i fod yn geidwad i'n heneidiau!

Nyni a haeddaſom, Arglwydd, i ti ein rhoddi i fynu, cyn hyn, i galedwch ein calonnau ein hunain, ac i feddyliau anghymmeradwy; canys dïyſtyraſom dy holl wahoddiadau graſlawn di. Er i ti alw ar ein hôl, etto, nid attebaſom di, ac ni fynnem ddyfod attat, (yn enw dy Fab Jesu, fel y caem fywyd. Gorwedd yr ydym yn ein cywilydd; ein gwarth a'n tôdd, am bechu o honom i'th erbyn.

Trugarha wrthym, O Dduw, a maddeu ein holl bechodau, er mwyn yr Arglwydd Jesu. Na âd i ni orphwys mewn gwâg-hyder; eithr pâr i ni ddwyn ffrwythau addas i edifeirwch. Tro di ni oddi wrth ein hyfryd drygioni, a gofod dy ofn yn ein calonnau, fel na phechom y'th erbyn mwyach. Cofia dy dofturiaethau, O Arglwydd, a'th drugareddau; canys erioed y maent hwy. Na chofia ein pechodau gynt y'th erbyn: yn ôl dy drugaredd meddwl di am danom, er mwyn dy ddaioni, Arglwydd.

Tydi,

Tydi, Arglwydd, a roddaiſt weinidogaeth y cymmod yn ein myſg, ſef yr efengyl ſanctaidd, yr hon ſy'n tyſtiolaethu dy fod yn cymmodi'r byd â thi dy hun yng NGHRIST JESU, heb gyfrif iddynt eu pechodau. Dymuniad ein heneidiau egwan ninnau yw, cael ein heddychu â thydi, fel y dêl i ni ddaioni. Tro ni, O DDUW, a thòr ymaith dy ddigofaint oddi wrthym. Tro di, a bywhâ ni, fel y llawenychom ynot; dangos i ni dy drugaredd, a dôd i ni dy Jachawdwriaeth. Pâr i ni adnabod y pethau a berthyn i'n heddwch â thi, cyn yr elo hi yn rhy ddiweddar: nertha ni i lafurio am wir ſancteiddrwydd; heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Ymwêl â ni yn nydd dy nerth, fel y bô i ni gael ein gwneuthur yn ewyllyſgar i ymadael â phob drygioni, ac yn awyddus i ryngu bodd i ti ymhob peth.

Na âd i ni fod yn glaiar ac yn fatwaidd yn y pethau a berthyn i'th ogoniant di; eithr nertha ni i ymaflyd yn dy addoliad â'n holl egni, ac ymwroli fel rhai yn gweled yr anweledig. O pâr i ni roddi cwbl ddiwydrwydd i gynnyddu mewn grâs, ac i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn ſicr: canys tra bôm yn gwneuthur hynny, ni lithrwn ni ddim byth; eithr felly y trefnir i ni helaeth fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n hachubwr JESU GRIST. Na âd i ni bellâu 'r dydd drwg oddi wrthym, ac addaw i ni ein hunain hîr amſer yn y byd: o blegid ni wyddom pa gynted y bydd raid i ni

ymddangos

ymddangos ger bron brawdle Crist, i roddi cyfrif am bob peth a wnelom yn y bŷd hwn, pa un bynnag a'i da a'i drwg a fyddo. Pa beth yw ein heinioes ni ond tarth, ſydd dros ychydig yn ymddangos, ac yna yn diflannu? fel y derfydd cwmmwl ac yr â ymaith; felly yr hwn ſydd yn diſgyn i'r bêdd, ni ddaw i fynu mwyach: ni ddychwel mwy i'w dŷ; a'i le nid edwyn ef mwy.

Ni wyddom ni, Arglwydd, pa gynnifer a orweddant y nôs hon, heb godi mwyach hyd ddydd y farn, ac a ânt o dywyllwch y nôs i dywyllwch tragywyddol; yn awr yn fyw, ac yn farw cyn y bore neſaf. Pâr i ni yſtyried, wrth orwedd ar ein gwelyau, fod y dydd yn dyfod ar fyrder, i ni gael ein goſod i orwedd yn y llwch. Cymmorth ni, gan hynny, O Arglwydd, i ſiccrhâu ein hawl yn Jesu Grist, fel pan y bô ein daearol dŷ o'r Babell hon yn cael ei ddattod, y caffom ein derbyn i dŷ nid o waith llaw, ond i'r tragywyddol bebyll yn y neſoedd.

Ymwêl, O Arglwydd, yn nhiriondeb dy drugaredd, â holl ddynol-ryw; par i'r efengyl dragywyddol ymdannu yn ei grym a'i diſgleirdeb, dros wyneb yr holl ddaear gan redeg a chael gogonedd; fel y dyger pawb ſy ar gyfeiliorn i adnabod y gwirionedd.

Tywallt dy yſbryd o'r uchelder ar holl ganghennau dy eglwys, fel y gwneler ei hanialwch yn ddoldir; ac y trigo cyfiawnder a heddwch, llwyddiant a diogelwch ynddi yn dragywydd. Gwnâ

anialwch

anialwch *Sion* fel *Eden*, a'i diffeithwch fel gardd yr Arglwydd: yna y ceir ynddi lawenydd a hyfrydwch, diolch a llais cân. Dyro ddeall a doethineb a llwyddiant mawr i holl weinidogion yr efengyl. Dyſg hwynt i lafaru'r pethau a weddo i athrawiaeth jachus: diwalla eu heneidiau hwynt â braſder, fel y digoner dy bobl, a fo dan eu gweinidogaeth, â daioni.

Rhynged bôdd i ti, O Dduw, i fendithio pawb o drigolion yr ynys hon, o'r brenin, yr hwn ſydd yn eiſtedd yn y deyrngadair, hyd at y gwaelaf a'r tlottaf o fewn y tîr. Eſtyn oes y Brenin a'r Frenhines; gwnâ eu blynyddoedd fel cenhedlaethau lawer. Dyro iddynt warrau eu gelynion, ac na lwydded bwriadau neb o'u caseion. Gwnâ ein holl wŷr mawrion yn wŷr da, yn rhai ac a fo'n caru ac yn ofni Duw, ac yn eſamplau o dduwioldeb i eraill.

Cofia, O Arglwydd, am y rhai ag ſydd dan wialen cerydd, a nertha hwynt ar eu clâf welyau. Bydd yn gyſur ac yn obaith i'r rhai oll ag ſydd ar ddarfod am danynt: bydd iddynt yn gymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder: glanhâ hwynt yng ngwaed Crist, fel pan elont oddi cartref o'r corph y caffont gartrefu gyd â thi yn nheyrnas nefoedd. Bydd yn gymmorth ac yn gyſur i'r holl rai gweddwon ac amddifaid: pan fo eraill yn eu dibriſio ac yn eu gwrthod, bydded i ti, O Arglwydd, eu derbyn, a gofalu am danynt.

Meddwl,

I Meddwl, Arglwydd, am y llawd, yr anghenus a'r holl rai anwybodus: bryſia i fod yn gymmorth ac yn waredydd iddynt. O na byddai i drueiniaid y praidd dy adnabod di, a diſgwyl wrthyt! Dyſg hwynt i chwilio'r 'ſgrythurau, fel y delont i adnabod yr Arglwydd Jesu, â'r fâth adnabyddiaeth jachuſol, ag a'u dygo i feddiannu bywyd tragywyddol. Bendithia yn helaeth y rhai hynny a ddyſgwyd gan dy râs, i doſturio wrth eu hanwybodaeth hwynt, ac i ofalu am Jachawdwriaeth eu heneidiau.

Bendithia ninnau, O Dad, ïe, ninnau hefyd, a'n holl garennydd; cadw bob un o honom, a'r hyn oll a feddom, mewn dïogelwch y nôs breſennol. Tydi ſy 'n llenwi ein dyddiau â bendithion dy ddaioni, ac a'n cedwaiſt y dydd hwn rhag pob drwg. Tydi ydwyt loches i ni, yr wyt yn ein cadw ni yn waſtad rhag pob ing, ac yn ein hamgylchynu â chaniadau ymwared. O na ddyrchafai ein mawl ger dy fron fel arogl-darth, a dyrchafiad ein dwylaw fel yr offrwm prydnhawnol! Dïolch i ti am dy ddaioni i'r holl wlâd hon yn gyffredinol, ti ſy 'n cadw ein gelynion allan o honi, ac yn rhoddi i ni lonyddwch o'i mewn i ſwynhau moddion grâs a breintiau yr efengyl. Ti ſy'n ffrwythloni llwch y ddaear, a choed y maes, ac yn darparu bendithion addas ac angenrheidiol i'th holl greaduriaid. O deffro ein hyſbrydoedd a holl alluoedd ein heneidiau i fendithio a moliannu dy enw gogoneddus di, am dy gariad anfeidrol ym

mhry-

mhrynedigaeth y byd, trwy dy anwyl Fâb, yr Arglwydd Jesu, am yr hwn, a thrwy yr hwn, ac i'r hwn, gyd â thi, a'r Yſbryd Glân, boed holl fawl ac addoliad y nefoedd a'r ddaear yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*

Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Boreuol Weddi *ar ddydd* Merchur.

Y Bendigedig a'r unig bennaeth, ti yw Arglwydd yr Arglwyddi, ti yw brenin y gogoniant. Mawr wyt, a mawr yw dy enw mewn cadernid. Pwy ni'th ofna di, brenin y cenhedloedd? canys i-ti y gweddai: o herwydd ymyſg holl ddoethion y cenhedloedd, ac ymyſg eu holl deyrnaſoedd hwy, nid oes neb fel tydi. Y mae dy lygaid di, Arglwydd, yn edrych ar yr holl ddaear, i'th ddangos dy hun yn grŷf gyd â y rhai ſydd a'u calon yn berffaith tu ag attat: ac nid oes dy wyllwch na chyſgod angau, lle y gall y rhai ſy'n gweithio anwiredd ymguddio rhagot. Y mae dy lygaid di ar y rhai cyſnawn, a'th gluſtiau yn agored i'w gweddi hwynt: ond y mae dy wyneb yn erbyn y rhai ſy'n gwneuthur drwg, i dorri eu coffa oddi ar y ddaear.

Gyd â phanch ac ymoſtyngiad mawr y dymunem ni nesâu at orſeddfaingc dy râs di y bore hwn, yn enw a chyfryngdod dy Fâb Jesu; yr hwn a roddaiſt

foddaiſt, i fod yn ben, yn brynwr ac yn briod i'th bobl, yr hwn a ddyrchefaiſt, ac a roddaiſt iddo enw goruwch pob enw; fel yn enw'r Jesu y plygai pob glîn o'r nefolion a'r daearolion, a than ddaearolion bethau Ynddo ef yr ymfendithia yr holl genhedloedd, ac a'i galwant yn wynfydedig. Er ei fwyn ef, yr ydym yn deifyf arnat, O Arglwydd, i edrych arnom, a'n nerthu i'th addoli di mewn yſbryd a gwirionedd yr awr hon. Gâd i ni gael dy yſbryd di i'n dyſgu; canys ni wyddom ni beth i weddïo megis y dylem.

Ein doethineb a drôwyd yn ynfydrwydd, a'n gwybodaeth yn dywyllwch, fel nad ydym yn medru ceiſio Duw. Rhoddaſom ein haelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod: a rhoddaſom ein ſerch ar bethau iſod ar y ddaear, ac nid ar y pethau ſydd uchod, lle y mae yr Arglwydd Jesu yn preſwylio. Caraſom wagedd y bŷd, yn fwy na gogoniant y nefoedd; a'n meluſchwantau yn fwy na Duw.

O mor grwydraſdd yw ein meddyliau! mor barod ydynt i fyned ar ôl oferedd ac ynfydrwydd! Gwibiant i gyrrau'r ddaear, ac ni ſafant yn llonydd gymmaint a'r munuddu hyn, tra yr ydym ni ar ein gliniau ger dy fron di. Y maent fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid. Haeddaſom fod wedi diſgyn i ddiſtawrwydd, a'n troi i dîr tywyllwch, cyn hyn; o blegid i ni anghofio dy gyſammod a'th gyfraith di, y rhai a

ddylaſem ni ddal yn dda arnynt, rhag un amſer eu gollwng i golli. Fe ddylai fod arnom ni gywilydd i godi ein hwynebau attat; o herwydd ein hanwireddau ydynt aml jawn dros ben, a 'n camwedd a dyfodd hyd y nefoedd.

O Arglwydd, trugarhâ wrthym; O Arglwydd, maddeu i ni er mwyn dy enw, ac er mwyn dy drugaredd anfeidrol yng NGHRIST JESU. Pâr i 'n calonnau grynu ynom, a phâr i 'n llygaid ollwng dagrau am ein hangof o honot, a 'n gwrthryfel y 'th erbyn. Tydi ſydd yn rhoddi i 'th bobl edifeirwch i fywyd: anfon dy yſbryd i 'n hargyoeddi ninnau o bechod. Dwyſbiga ni yn ein calonnau, fel y codom ein llef tua 'r nefoedd am faddeuant a thrugaredd er mwyn yr Arglwydd JESU. Tydi, O Arglwydd, ydwyt dda ac o fawr drugaredd i 'r rhai oll a alwant arnat; clyw ein gweddi, O DDUW, a gwrando yn raſlawn ar ein llef. Cuddia dy wyneb oddi wrth ein pechodau, a dilëa ein holl anwireddau. Na chofia 'r anwiredd gynt i 'n herbyn: bryſia, rhagflaened dy doſtur drugareddau ni; canys lleſg jawn ydym. Gwared ni o ddwylaw ein gelynion yſbrydol; ac jachâ ein heneidiau truain ſy wedi cael eu hanurddo gan lygredd a pechod.

Toſturia wrthym, O Arglwydd daionus, canys nid oes genym neb i ddiſgwyl wrtho, ond ti yn unig. Ein dinyſtr ſydd o honom ein hunain, ond ynot ti y mae ein cymmorth. Bydded i ni, y rhai

rhai wrth natur ydym bell oddi wrthyt, gael ein dwyn yn agos trwy waed Crist.

Cymmorth ni, O Arglwydd, i'th addoli di, bob amſer gyd â zêl a bywiogrwydd yn ein hyſbrydoedd. Pâr i ni yſtyried, nad oes i ni yma ddinas barhâus, ond ein bod yn bryſio i dŷ ein hîr gartref. Y llygad a'n gwelodd, ni'n gwêl mwy; o blegid pan ddêl ychydig ddyddiau, ni a rodiwn lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelwn. Cymmorth ni, gan hyhny, i fod yn dra-diëſgeulus yngwaith ein Jachawdwriaeth, tra bô dyddiau ein bywyd yn parhâu; canys nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bêdd, lle yr ydym ni yn myned. Pâr fod ein hymarweddiad yn y nefoedd, tra bôm ni ar y ddaear. O pâr i ni ddiſgwyl bounyddiwm dyfodiad ein Jachawdwr Jeſu Grist; fel pan ddêl, y cyfnewidier ein cyrph gwael ni, ac y gwneler hwynt yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus ef.

Tydi, Arglwydd, yw ein ceidwad, yr hwn nid wyt yn hûno nac yn cyſgu, tydi a'n ceidwaiſt ni rhag dychryn y nôs; cadw ni hefyd rhag y ſaeth a heda'r dydd. Ti a'n ceidwaiſt rhag yr haint ſy'n rhodio yn y tywyllwch; cadw ni hefyd rhag y dinyſtr ſy'n dinyſtrio ganol dydd. Bendithia waith ein dwylaw y dydd hwn; a derbyn ein diolch am dy holl ddaioni tu ag attom, o'n dyfodiad cyntaf i'r byd hyd yr awr hon. Bendigedig fyddo dy enw gogoneddus di, O Dduw, am dy anfeidrol gariad yn ein prynedigaeth trwy dy Fâb

Jesu,

Jesu, yr hwn a ddaeth fel y caem fywyd, ac y caem ef yn helaethach. Diolch i ti, O Dâd, am fod y pethau ag oeddynt guddiedig er dechreuad y byd, wedi cael eu hegluro yr awrhon i ni, trwy ymddangosiad ein Jachawdwr Jesu Grist; yr hwn a ddûg fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl. Ti sy'n rhoddi llonyddwch i ni, ac ymwared oddi wrth ein holl elynion. Yr ydym yn cael eistedd bob un dan ei winwydden a than ei ffigysbren ei hun; heb na rhuthro i mewn, na myned allan, na gwaedd yn ein heolydd. Ti sy'n gwneuthur ein bro yn heddychol, ac yn cyfrannu arnom amldra helaeth o bob trugareddau.

Cofia, O Arglwydd, am y rhai sydd mewn prinder o'n cyfuron a'n trugareddau gwerthfawr ni. Trugathâ wrth y rhai sy'n eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau; cyfeiria eu traed i ffordd tangnefedd. Dwg di yn *Iuddewon* a'r cenhedloedd oll i wir adnabyddiaeth o'r Arglwydd Jesu, yr hwn a drefnaist ti i fod yn Jachawdwr hyd eithafoedd y ddaear.

Tywallt dy fendith a'th holl werin y wlâd hon. Cadw ein Brenin a'n Brenhines mewn tangnefedd a diogelwch gwastadol: anfon iddynt gymmorth o'th gyssegr, a nertha hwynt o *Sion*. Gwnâ bawb o'n llywodraethwyr yn wŷr cyfiawn, yn rhai a fô'n barnu yn uniawn, heb dderbyn wyneb, na chymmeryd gwobr: canys gwobr a ddalla lygaid y doethion, ac a wyra eiriau'r cyfiawn.

Bendithia

y Bendithia holl genhadon dy râs: gwnâ hwynt yn gedyrn yn yr yſgrythurau; dyro iddynt ymadrodd, trwy agoryd eu genau yn hŷ, i hyſbyſu dirgelwch yr efengyl. Dyſg bawb o'r rhai cleifion i adnabod dydd eu hymweliad: gwnâ hwynt yn foddlon i ymoſtwng i'th geryddon di, heb rwgnach: pura hwynt yn y pair o gyſtudd, fel wedi i ti eu profi hwynt, y delont allan wedi eu puro megis aur. Diddana di y rhai ſy'n alarus ar ôl eu perthynaſau, a ymadawſant o'r bŷd; na âd iddynt driſtâu fel rhai heb obaith, eithr pâr iddynt yngyſuro ynot ti, y Duw byw.

Dyro râs a bendith, i'r holl rai jeuaingc a hên, i'r gweddwon a'r amddifaid, ac i bawb o'r tlodion a'r gorthrymmedig; fel y gwneler hwynt oll yn blant ac yn bobl i ti trwy yr Arglwydd Jesu; yn enw yr hwn yr ydym yn oftyngedig yngorchymyn ein hunain, ein perthynaſau, a'r cwbl a feddom, i'th ofal di o'r pryd hwn hyd yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, &c.

Gràs ein Harglwydd, &c.

Prydnhawnol Weddi *ar ddydd* Merchur.

Y Duw mawr ofnadwy a gogoneddus! Tydi yw Duw y duwiau ac Arglwydd yr Arglwyddi; i ti y perthyn mawredd, a gallu, a gogoniant yn oes oeſoedd: canys y cwbl yn y nefoedd

nefoedd ac ar y ddaear ſydd eiddot ti. Ti yw y gwir Dduw, y Duw byw, a'r brenin tragywyddol: rhag dy lîd di y cryna'r ddaear, a'r cenhedloedd ni allant ddïoddef dy ſorriant. Nid dyn wyt ti i ddywedyd celwydd, na mâb dyn i edifarhâu: a ddywedaiſt ti, ac ni'n cyflawni? a leferaiſt ti, ac oni chywiri? Y nefoedd a'r ddaear a ânt heibio; ond dy eiriau di, nid ânt heibio ddim.

Fe ddylai'r yſtyriaethau hyn o'th fawredd gogoneddus, weithio ymddaroſtyngiad mawr ynom *ni*, pan fôm yn nesâu attat; canys *pechaduriaid* aflan ydym, ïe rhai llwyr annheilwng i fwynhâu y lleiaf o'th holl drugareddau di. Er i ni oll grwydro fel defaid, a thröi o honom bob un i'w ffordd ei hun; etto yr wyt yn ein galw attat yn enw dy Fâb Jesu, i dderbyn trugaredd, ac i gael grâs yn gymmorth cyfamſerol. Ni bu ar neb erioed, fwy o eiſiau trugaredd a grâs, nag ſydd arnom ni! Ti a'n gelwaiſt lawer gwaith, ond ni wrandawſom arnat: aethom yn ôl chwantau ein calonnau ein hunain, yn lle cymmeryd ein harwain gan dy gyngor di.

Mewn anwiredd y'n lluniwyd, ac mewn pechod y cawſom ein geni a'n magu; mwy yw ein trueni nag y gallwn ni wybod oddi wrtho. Tydi yn unig, Arglwydd, a adwaenoſt blâ ein calonnau, ac a weli, mor llawn ydym o gydymrwydd, a chaledwch a phob anwydau pechadurus. Pa ſawl gwaith y darfu i ni gefnu arnat ti, ac eſgeuluſo moddion ac ordinhadau Jachawdwriaeth! pa ſawl gwaith y darfu i ni driſtâu dy yſbryd di, a gofidio

dy

dy galon! pa fawb gwaith y caer-gymmellwyd Jachawdwriaeth arnom, ac na's mynnem mi ei dderbyn! Yr Jesu hawddgar a fu'n curo yn hir, wrth ddrysau ein calonnau, ond nid agorasom iddo. Pe ddarfu i ni, fel ynysydion gwallgofus, gydfradwrio â'r gelyn diafol, yn erbyn Jachawdwriaeth ein heneidiau ein hunain.

O Arglwydd grasfawn, meddwl am danom ei mwyn dy drugaredd; a bydded i'n helygedd a'n cruoni gyffroi ymysgaroedd dy dosturi tu ag attom. Wele, ni yn sefyll ar geulan y pwll; gollwng a gwared ni, rhag disgyn o honom i'w waelod: canys ti a gefaist jawn. O Dduw, bydd drugarog wrthym ni bechaduriaid truain a cholledig. Cofia mai cnawd ydym, a gwynt yn myned heibio ac heb ddychwelyd. Gorwedd yr ydym dan haeddiant barn a melldith dragywyddol; a llawn ydym o archollion a chlwyfau pechod. Trugarha wrthym, O Arglwydd, a dwg ni at dy Fab Jesu i gael ein jachâu. Na ddos â ni i farn, o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di.

O Arglwydd, dysg ni i gasâu pechod ac edifarhâu am dano. Bendithia ni â gras fel y bo i ni wir gredu! Canys yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisioes. Pâr i ni ddysgu ofni a pherchi dy enw gogoneddus di bob amser; canys yr annuwiolion, y rhai ni fynnant ddysgu ofni dy fawredd di, yn awr, a ânt i dyllau 'r creigiau, ac i ogofâu 'r llwch, rhag dyfn di, Arglwydd, a rhag gogoniant dy fawredd; pan gyfodych i gynhyr-

fu 'r

fu 'r ddaear: ie yr holl rai drygionus a lewygant gan ofn, pan ymddangofo yr Arglwydd Jesu i farnu 'r byd. O cymmorth ni i ficcrhau ein hawl ynddo ef, fel pan yr ymddangofo, y byddo hyder genym, ac na chywilyddiom ger ei fron ef yd ei ddyfodiad.

Fe ddywedodd y barnwr, y byddai iddo ef ddyfod ar frys; pâr, i ni gan hynny, wilio a gweddio bob amfer; fel na bo i 'r dydd hwnnw ein goddiwes ni yn ammharod. O deffro ein calonnau i yftyried mor ddifymmwth y daw dydd y farn, ac mor ofnadwy a fydd, pan ddelo! Canys fel y daw y fellden o 'r dwyrain, ac y tywynna hyd y gorllewin: felly y bydd dyfodiad mâb y dyn. Pwy a fai o flaen ei lid ef? a phwy a gyfyd ynghynddaredd ei ddigofaint ef? canys ei lid a dywelldir fel tân, a 'r creigiau a fwrir i lawr ganddo. Y mynyddoedd a grynant rhagddo, a 'r brynniau a doddant, a 'r ddaear a lyfg gan ei olwg, a 'r byd hefyd a chwbl ag a drigant ynddo. Dyma 'r pryd, y bydd yr holl rai annuwiol yn llefain ar y mynyddoedd a 'r creigiau i fyrthio arnynt a 'u cuddio o wydd y barnwr; yr hwn a fô 'n ymddangos, yn y dydd hwnnw, er Jachawdwriaeth i 'w bobl, ac er dinyftr tragywyddol i 'w holl elynion. Gan fod diwedd pob peth yn nesâu, pa ryw fâth ddynion a ddylem ni fod, mewn fanctaidd ymarweddiad a duwioldeb, yn difgwyl ac yn bryfio at ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn y nefoedd gan lofgi a ymollyngant, a 'r defnyddiau gan wir wnês a doddant? O

Arglwydd, gwnâ ni yn ffyddlon ac yn ddiwyd ymhob rhan o'th wasanaeth di tra bôm ni yn y byd; fel y gallom sefyll yn ddiddychryn ger bron y barnwr pan ddelo i farnu'r byw a'r meirw.

Diolch a moliant a fô i'th enw di, O Dduw, am dy fod mor hirymarhöus tu ag attom, ac heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond bod iddynt ddyfod i edifeirwch, ac i adnabyddiaeth o'r gwirionedd. Ti a roddaist dy Fâb dy hun i fod yn jawn dros ein pechodau, fel y gallem, trwyddo ef, gael maddeuant am danynt, ac ymwared oddi wrthynt. Dyro i ni hefyd o'th râs a'th ysbryd i'n sancteiddio, ac i'n nerthu i rodio yn dy ffyrdd, tra bôm ni yn y bŷd. Bendigedig fyddo dy fawredd am ein holl ragorfreintiau a'n trugareddau, am ein llwyddiant a'n diogelwch ddydd a nôs, o'n dechreuad hyd y nôs hon. Diolch i ti am dy ddaioni neillduol i ni y dydd a aeth heibio, ac am gennad i nesâu ger bron gorsedd dy râs yr awr hon; pâr lwyddiant i ni er mwyn yr hwn sy'n eistedd arni, sef dy anwyl Fâb, yr Arglwydd Jesu.

O Arglwydd, bendithia holl drigolion y bŷd â gwir adnabyddiaeth o honot ti dy hun: bydded dy râs di gyd â phawb sy'n caru ein Harglwydd Jesu Grist mewn purdeb; a phâr i bob un ag sy'n enw ei enw ef, ymadael oddi wrth anghyfiawnder. Estyn dy drugaredd i'r rhai oll a'th ofnant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon. Bydd di yn nerth a chadernid Jachawdwriaeth iddynt hwy a ninnau bob amser. O cymmorth a

nertha

nertha di, y ſawl oll ag ſy'n dïoddef caledi ac erlidigaeth yn dy achos: difetha eu gelynion, a gwared hwythau allan o'u cyfyngderau.

Cofia, O Dâd, am y wlâd hon, lle yr ydym ni yn byw. Dyro bob bendith a llwyddiant i'th wâs, yr hwn a oſodaiſt i eiſtedd ar deyrngadair y frenhiniaeth. Nertha ef i fyfyrio ddydd a nôs yn dy gyfraith di, fel y cadwo ar wneuthur yn ôl yr hyn oll ſy'n 'ſgrifennedig ynddi; fel y llwyddo yn ei ffordd, ac y ffynno. Bendithia ein graſuſaf frenhines a'r holl frenhinol deulu. Cofia am bawb o'n barnwyr, bydd di gyd â hwynt wrth roddi barn, fel y bo iddynt gyfiawnhâu y cyfiawn a chondemnio'r beius.

Arglwydd, bydd gyd â holl weinidogion yr efengyl; cymmorth hwynt i edrych arnynt eu hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y goſododd yr Yſbryd Glân hwynt yn olygwyr i fugeilio eglwys Duw, yr hon a bwrcaſodd efe â'i briod waed. Pâr iddynt gryfhâu y lleſg, meddyginiaethu'r claf, rhwymo'r drylliedig, ceiſio'r colledig, adwyn y cyfeiliornus adref. Trugarhâ wrth bawb o'r cleifion: gwêl eu cyſtudd a'u helbul, a maddeu eu holl bechodau. Llewyrched dy wyneb arnynt, ac achub eu heneidiau er mwyn dy drugaredd yng Nghrist Jesu. Cyſura yr holl rai galarus, a'r holl rai gweddwon ac amddifaid. Bendithia'r clodion a phawb ag ſydd mewn anwybodaeth, â gwir adnabyddiaeth o'th ewyllys ſanctaidd. Dyro râs i'r holl rai jeuaingc; fel y bo iddynt gael eu

dyſgu i ffoi oddi wrth chwantau jeuengctid, a dilyn cyfiawnder, ffydd, cariad a thangnefedd gyd â y rhai ſy 'n galw ar dy enw di o galon bur. Deffro bawb o 'r rhai oedranus i yſtyried eu ffyrdd; pâr iddynt ymofyn am dy râs di, ac am hawl ſiccr yn dy Fâb Jesu, cyn y delo angau i 'w torri ymaith o dîr y rhai byw.

O Arglwydd trugarog, gwêl fod yn dda i gymmeryd pawb o 'th eiddo, a phob un o honom ninnau, a 'r hyn oll a feddom, dan gyſgod dy adenydd y nôs hon: a nertha ni i dreulio y rhan ſy 'n ôl o 'n bywyd, yn dy ofn a 'th waſanaeth di; fel y byddom cymmeradwy ger dy fron di yn y diwedd, trwy Jesu Grist ein prynwr, i 'r hwn, gyd â thi, a 'r Yſbryd Glan, boed y gallu a 'r gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Boreuol Weddi *ar ddydd* Jou.

Y Brenin mawr tragywyddol! yr hwn wyt yn gwneuthur yn ôl dy ewyllys bendigedig dy hun â llu 'r nefoedd, ac â thrigolion y ddaear; nid oes neb a all attal dy law, na gofyn i ti, Beth yr wyt yn ei wneuthur? Tydi ſy 'n ſymmud brenhinoedd ac yn goſod brenhinoedd: ti ſy 'n rhoddi doethineb i 'r doethion, a gwybodaeth i 'r rhai a fedrant ddeall. Yr wyt ti yn datguddio pethau

pethau dyfnion a chuddiedig: ti a wyddoſt beth ſydd yn y tywyllwch, a chyd â thi y mae'r goleuni yn trigo. Ti a barotôaiſt dy orſeddfa yn y nefoedd; a'th frenhiniaeth di ſy'n llywodraethu dros bob peth.

Pwy ydym ni, O Arglwydd, pan ddygit ni ſel hyn, i gael ymddangos o flaen dy wyneb y bore hwn? Wele, llwch a lludw ydym, mewn tai o glai yr ŷm yn trigo, a'n ſail yn y pridd; ac ni a falurir yn gynt na gwyfyn. Oni buaſai dy fawr drugaredd di tu ag attom, ſe fuaſai ein cyrph gwael ni wedi myned i blith y meirw; a'n heneidiau truain wedi myned i blith y damnedigion, cyn hyn; can's pechaſom y'th erbyn â llaw uchel, ac â braich eſtynedig. Pa faint o bechodau ac o anwireddau ſydd ynom! Y mae *un* (ïe y mae'r *lleiaf*) o honynt, yn fwy nâ digon i'n *damnio* ni dros byth! Pa fodd y gall ein *calonnau* lai nâ *dychrynu* o'n mewn, wrth yſtyried y bydd i'n *holl* bechodau ni ddyfod fel llu ofnadwy o elynion arfog, i'n *cyfarfod* yn *nydd y farn*; er ein cywilydd a'n gwarth tragywyddol: o's byw a marw a wnawn yn anedifeiriol, ac heb gael hawl yng NGHRIST JESU; gwaed yr hwn ſy'n abl i'n glanhâu ni oddi wrth bob pechod?

Pe jawn yſtyriem ni, Arglwydd, ein hangof o honot ti, a'n hanffrwythlondeb dan foddion grâs; ni's gallem lai na chywilyddio a galaru ger dy fron. Fe ddarfu i ni gael eiſtedd yn hîr dan ddiſetion y cyſſegr, a bod yn gyfrannogion o achles

dy winllan; ond ni chafwyd ynom ffrwythau da: yr ydym fel y ffigyſbren diffrwyth, heb ddim ond dail yn unig. Rhoddaſom gyfiawn achos i ti ein ffieiddio, a'n bwrw ymaith yn dragywydd mewn ſorriant; o blegid ein rhagrith a'n ffurfioldeb ger dy fron dì yn dy addoliad. Rhoddaſom achos i'th weinidogion i achwyn arnom wrthyt ti, a dywedyd, Na fynnwn ni wrando cyngor na chymmeryd addyſg i'n gwneuthur yn ddoethion erbyn ein diwedd: am hynny, Mai yn ofer y llafuriaſant, ac am ddim y treuliaſant eu nerth. Rhoddaſom dramgwydd ar ffordd dy ſeintiau, ac achos i'r annuwiolion i ddiyſtyru crefydd; wrth weled fod ein bywyd a'n proffes ni yn anghyfattebol i'w gilydd.

O Dâd, trugarhâ wrthym, maddeu i ni yr hyn oll a aeth heibio; a bendithia ni â'th râs, fel y gallom ryngu bôdd i ti byth o hyn allan. Na âd i ni fod yn anwybodus o'r pethau a berthyn i'n heddwch â thi trwy'r Arglwydd Jesu. Pâr i ni dy adnabod di, o'r mwyaf o honom hyd y lleiaf o honom; canys hyn yw'r bywyd tragywyddol, bod i ni dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaiſt ti, Jesu Grist. Yr ydym yn attolwg arnat, er ei fwyn ef, am gymmorth i'th waſanaethu di bob amſer gyd â gwylder a pharchedig ofn.

Attolwg, Arglwydd, edrych arnom, a thro ymaith oddi wrthym yr holl felldithion ag ſydd ddyledus i ni am ein holl bechodau; a bendithia

ni

ni â bendithion y cyfammod grâs. Dyro i n' galon newydd, ac yſbryd newydd, yn ôl dy addewid dy hun; fel y carom di yn berffaith, ac y mawrhâom yn deilwng dy enw ſanctaidd, trwy Jesu Grist ein Harglwydd.

Nid oes i ni ond byr amſer ar y ddaear; dyſg ni, gan hynny, i arfer y bŷd megis heb ei gamarfer, canys y mae dull y bŷd hwn yn myned heibio. Pâr i ni o Dduw, i'th gymmeryd di yn Dduw i ni; o pâr i ni dy geiſio di yn foreu! bydded i'n heneidiau a'n cnawd hir-ethu am danat, fel y caffom wir adnabyddiaeth o honot, cyn yr elom allan o'r bŷd. Pâr i ni yſtyried, fod ein hamſer ni yn fyr, fod ein gwaith ni yn fawr, a bod tragywyddoldeb o ddedwyddwch neu o drueni, yn aros pob un o honom! Dyſg ni, gan hynny, i gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau i ddoethineb.

Arglwydd, bendithia waith ein dwylaw y dydd hwn. Bendithia ein heneidiau, a'n cyrph, a'r cwbl a feddom: na âd i ni feddwl na gwneuthur dim, ond yr hyn ag allom ddiſgwyl cael dy fendith di arno. Gwnâ ni yn ſobr ac yn wiliadwrus bob amſer; o blegid y mae ein gwrthwynebwr y diafol, megis llew rhuadwy yn rhodio oddi amgylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu. O ein Duw, cymmorth ni i'w wrthwynebu ef yn gadarn yn y ffydd, fel y parer iddo ffoi oddi wrthym. Pan geiſio'r gelyn ni, i'n nithio fel gwenith, O bydded

i eirjolaeth ein prynwr lwyddo ar ein rhan, fel na ddiffygio ein ffydd!

Cofia dy bobl dy hun, Arglwydd, y rhai fy'n milwrio dan faner dy Fâb Jesu. Bendithia hwynt oll, pa le bynnag y maent, yn wasgaredig dros wyneb yr hōll ddaear. Cadw hwynt rhag y drwg, tra byddont yn y bŷd. Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd, fel y byddont oll yn un ynot ti; ac wedi eu perffeithio yn un, y caffont eu gwneuthur yn blant anwyl i ti, ac yn gyd-etifeddion â'th Fâb Jesu o'r gogoniant a ddarperaist iddynt.

Bendithia, a llwydda ein brenin, O Arglwydd; bydded ei galon yn uniawn bob amser ger dy fron di: cadarnhâ ei orseddfaingc ef mewn cyfiawnder. Bendithia ein brenhines, a phawb o'r gwaed brenhinol: bydded iddynt fod dan dy ofal di yn wastad; fel na's gallo neb gelynion eu drygu.

Cyfranna yn helaeth o'th râs a'th yspryd ar holl weinidogion dy air, fel y byddont ffyddlon a llwyddiannus yn eu gwaith. O Arglwydd, trugarhâ wrth y cystuddiol a'r clwyfus: jachâ di hwynt, a hwy a jachëir: achub di hwynt, a hwy a achubir. Cadw yn fyw, neu dderbyn i fywyd tragywyddol y rhai oll sydd ar ddarfod am danynt. Cadw di'r dieithriaid; cynnal yr amddifaid a'r gweddwon. Trugarhâ wrth y rhai anghenus ac anwybodus; bendithia foddion grâs iddynt; a gwobrwya y sawl oll ag sy'n gwneuthur eu rhan tu ag at eu cynnorthwyo hwynt i ddysod i adnabyddiaeth o'r gwirionedd.

Tydi,

Tydi, O Ddûw, a'n cedwaiſt ac a'n gwaredaiſt rhag pob drygau a pheryglon y nôs a aeth heibio; ac a roddaiſt gennad i ni i nesâu attat y bore hwn: bendigedig a fo dy enw mawr di am hynny. Dïolch i ti, am dy amynedd yn goddef, ac am dy raſlonrwydd yn cennadu i'r fâth rai annheilwng a ni, i fyw ar y ddaear hyd y pryd hwn. Pa gynnifer a gymmerwyd ymaith ynghanol eu dyddiau! a llawer o ddrwgweithredwyr a lyngcir beunydd mewn dinyſtr. Er cwympo o fîl yn agos attom, a dengmil o'n hamgylch, ni chafodd niweid ddigwydd i ni; canys ti, Arglwydd, a'n cedwaiſt bob amſer. Er na ddaeth genym ddim i'r bŷd, etto ni bu arnom eiſiau neb trugareddau; canys ti a ofelaiſt am danom.

Dïolch i ti byth, ac uwchlaw pob peth am yr Arglwydd Jesu, dy anwyl Fâb; yn yr hwn y dymunem ni ein cael heb ein cyfiawnderau ein hunain: i'r hwn, gyd â thi, O Dâd, a'th Yſbryd Glân, boed holl fawl ac addoliad y nef a'r ddaear yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Prydnhawnol Weddi *ar ddydd* Jou.

YR hollwybodol a'r hollbreſennol Ddûw! yr hwn a adwaenoſt ein heiſteddiad a'n cyfodiad, ac a ddealli ein meddyliau o bell. I ba le yr awn oddi wrth dy yſbryd? Ac i ba le y ffŏwn

o'th ŵydd? Pe dringem i'r nefoedd, yno yr wyt ti: pe cyweiriem ein gwely yn uffern, wele di yno. Pe dywedem, Diau y tywyllwch a'n cuddia; yna y byddai y nôs yn oleuni o'n hamgylch. Ni thywylla tywyllwch rhagot ti; ond y nôs a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti. Tydi, Arglwydd, fy'n chwilio'r calonnau ac yn profi'r arennau, i roddi i bob un yn ol ei ffyrdd, ac yn ol ffrwyth ei weithredoedd. Agos wyt at y rhai oll a alwant arnat, ſef, y rhai oll a alwant arnat mewn gwirionedd. Pan geiſio'r trueiniaid a'r tlodion ddwfr, ac ni's cânt: pan ballo eu tafod o ſyched, tydi, Arglwydd, a wrandewi ar eu deiſyfiadau, ac a ddiwelli eu heneidiau â daioni.

O Arglwydd ſanctaidd, cymmorth ni i nesâu attat yr awr hon, yn enw a chyfryngdod dy Fâb Jesu, gyd â dwys yſtyriaeth o'th ddaioni tu ag attom; a chyd â gofid calon am ein hangof o honot, a'n gwrthryfel i'th erbyn! Plant gwrthnyſig, a gweiſion anfuddiol a fuom ni; pa fodd y gallwn atteb yn nydd y farn, am yr holl dalentau a roddwyd attom? Y mae ein dyled yn llawer jawn mwy, nâ *dengmil* o dalentau; ac nid oes genym ddim i dalu! Y mae yn rhaid i ni fyned i garchar uffern dros oeſoedd tragywyddoldeb, oni rynga bodd i ti, i faddeu i ni y cwbl yn rhâd, er mwyn y machniydd mawr, yr Arglwydd Jesu. Y mae efe (ac nid oes neb arall, ond efe yn *unig*) yn gwbl abl i dalu ein holl ddyled, ac i'n rhyddhâu o law cyfiawnder, ac oddi wrth felldithion y ddeddf.

O

O Arglwydd, gostwng dy glust attom, a chlyw ein deisyfiadau; agor dy lygaid a gwêl ein anrhaith. Nid o blegid ein cyfiawnderau ein hunain yr ydym yn tywallt ein gweddïau ger dy fron, eithr o herwydd dy aml drugareddau di. Clyw, Arglwydd; arbed, Arglwydd; ystyr, O Arglwydd, a gwnâ; nac oeda, er dy fwyn dy hun, ac er mwyn ymysgaroedd dy dosturiaethau yng NGHRIST JESU.

Cymmorth ni, O DDUW trugarog, i edifarhâu ar frŷs, a dychwelyd oddi wrth ein ffyrdd drygionus, fel y dileer ein pechodau. Dysg ni i wybod, a nertha ni i wneuthur dy ewyllys di; tra bôm ni yn y byd. Gwisg ni â holl arfogaeth dy râs, fel y gallom sefyll yn erbyn cynnllwynion diafol, ac fel y gallom orchfygu pob gelynion a rhwystrau, a fô'n ymosod yn erbyn Jachawdwriaeth ein heneidiau. Gwnâ ni yn fwy nâ choncwerwyr ar ein holl elynion, trwy yr Arglwydd JESU, yr hwn a 'n carodd ac a ddodes ei hun drosom.

Gwared ni, Arglwydd, oddi wrth bob gweithred ddrwg, a chadw ni i 'th deyrnas nefol: cadw ni yn dy gariad di, fel y byddo genym sail sicer i ddisgwyl trugâredd ein Harglwydd JESU GRIST i fywyd tragywyddol. Parotôa ni erbyn ein hymadawiad allan o 'r bŷd hwn: canys ni a wyddom y dygi di ni i farwolaeth, ac i 'r ty rhagderfynedig i bob dyn byw. Pâr, gan hynny, i ni ddisgwyl holl ddyddiau ein milwriaeth, hyd oni ddelo ein cyfnewidiad: a phan ddêl, bydded iddo fod yn

gyfnewidiad er gwell, ac nid er gwaeth i neb o honom O na byddai i ni gofio bob nôs wrth fyned i'n gwelyau, am yr amſer ag y byddwn ni yn cael ein goſod i orwedd yn llwch y bêdd: a phob bore, wrth gyfodi o'n gwelyau, yn meddwl am ddydd yr adgyfodiad mawr, pan y bôm ni a holl ddynolryw, yn cael ein cyfodi o'n beddau, i ymddangos ger bron brawdle CRIST yn y farn olaf!

Cymmer ni, O Arglwydd graſlawn, dan ofal dy ragluniaeth y nôs breſennol; cau oddi amgylch i ni; ac oddi amgylch ein tŷ, a'r hyn oll a feddom; fel na chaffo dim drwg ddigwydd i ni.

Tydi, y brenin mawr, a orchymynaiſt fod ymbiliau a gweddïau dros bob dyn; yn enwedig, dros frenhinoedd a phawb mewn awdurdod. Mewn ufudd-dod i'th orchymyn di, y dymunem oſod i fynu ein deiſyfiadau mewn modd neillduol, dros dy enneiniog GEORGE ein brenin, a'n brenhines CHARLOTTE. Bydded eu heinioes wedi ei rhwymo ynghwlwm y bywyd; a gwared hwy a ninnau oddi wrth ein holl elynion. Dyro ddoethineb ac yſbryd barn a phwyll i bawb ag ſydd mewn ſwyddau ac awdurdod dan y brenin, fel y byddont yn wŷr duwiol a chydwybodol ymhob peth.

Dyſg a chynnorthwya di ein holl athrawon i fod yn ddïargyoedd, heb roddi achos tramgwydd mewn dim; fel na feier ar y weinidogaeth. Pâr iddynt edrych am gyflawni eu gweinidogaeth yn ffyddlon,

ffyddlon, gan wilio arnynt eu hunain ac ar eu hathrawiaeth; fel y gallont achub eu heneidiau eu hunain, a'r rhai a wrandawont arnynt. Anfon dy efengyl ſanctaidd i blith holl genhedloedd y bŷd; fel y byddo i holl gyrrau'r ddaear droi eu hwynebau attat ti, O Dduw, a bod yn gadwedig.

Arglwydd trugarog, cofia y cleifion ag ſy'n diffygio gan eu hochain ddydd a nôs. Na cherydda hwynt yn dy lidiawgrwydd, ac na choſba hwynt yn dy lîd. Maddeu eu pechodau, O Arglwydd, jachâ eu heneidiau, a gâd iddynt fod yn eiddo i ti yn dragywydd. O Dâd graſlawn, ymwêl yn dy drugaredd â'r rhai ſydd mewn blinder yſbryd; y rhai a ofnant dy enw, ac a wrandawant ar dy lais, ac a rodiant mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddynt. Y mae eu heneidiau yn dychrynu rhag dy gyfiawnder a'th farnedigaethau: dyro iddynt olwg ar dy drugaredd a'th gariad yn yr Arglwydd Jesu; a chynnorthwya hwynt i obeithio yn enw'r Arglwydd, ac ymddiried yn eu Duw. Cyſura di y rhai oll ſy'n alarus am eu perthynaſau a gymmerwyd ymaith oddiwrthynt i'r bŷd tragywyddol; fel na thriſtâont fel rhai heb obaith: canys y rhai a hunaſant yn yr Jesu, a ddŵg Duw drachefn gyd ag ef yn yr adgyfodiad: pan ddêl efe i'w ogoneddu yn ei ſaint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll a gredaſant ynddo. Bendithia hên ac jeuaingc, y cyfoethogion a'r tlodion, ein carennydd a'n hewyllyſwyr da, ïe ein caseion

hefyd,

hefyd, â gwîr adnabyddiaeth o honot ti dy hun, ac o'n prynwr bendigedig yr Arglwydd Jesu.

Gogoniant a fo i ti am dano ef yn dragywydd: efe a ddaeth i'r byd i gadw pechaduriaid; efe a ddiddymmodd angau, ac a ddûg fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl. Pan yr edrychom i'r bêdd, gallwn ddywedyd, Dyma'r man lle y gorweddodd ein prynwr! ac oddi yma yr adgyfododd i fyned i'r nefoedd i eirjol drosom ger bron y Tâd! Trwy ei waed ei hun yr aeth efe i mewn i'r cyflegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhâd. Efe a ddichon gwbl jachâu y rhai trwyddo ef sy'n dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eirjol drostynt hwy.

Gogoneddus a fyddo dy enw di, O Arglwydd, am wneuthur ein gwlâd ni yn wlâd goleuni, ac am osod y fâth dadmaeth da i lywodraethu drosom, yn nheyrngadair y frenhiniaeth. Ti a'n cedwaist rhag ein holl elynion, ac a'n hamddiffynaist rhag pob digwyddiadau drwg o'n dechreuad hyd yma. Diolch i ti am ein trugareddau y dydd a aeth heibio; ti a'n cedwaist rhag pob niweid ynddo, ac a'n dygaist ynghyd o flaen gorseddfaingc dy râs yr awr hon. O Arglwydd, cyfranna bob grâs a nerth i ni, fel y gogoneddom di tra bôm yn y byd, ac y caffom ein gogoneddu gyd â thi, pan yr elom allan o hono; trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Boreuol Weddi *ar ddydd* Gwener.

DUW a thâd ein Harglwydd Jesu Grist, Tâd y trugareddau a Duw pob diddanwch: ti yw Tâd y goleuni, gyd â'r hwn nid oes gyfnewidiad na chyſgod troedigaeth. Yr wyt yn ddoeth o galon, yn alluog o nerth, ac yn gwneuthur rhyfeddodau: pwy a gyſtedlir â thi ymhlith meibion y cedyrn? Y nefoedd yw dy orfeddfaingc, a'r ddaear yw leithig dy draed. Pan yr edrychech di ar y ddaear, hi a grŷn; a phan gyffyrddech â'r mynyddoedd, hwy a fygant. Y mae uffern yn noeth ger dy fron, ac nid oes dô ar ddiſtryw. Mawr wyt, O Arglwydd, a chanmoladwy jawn; dy fawredd ſydd anchwiliadwy. Y nefoedd a fawl dy ryfeddodau, a'th wirionedd a draethir yng nghynnulleidfa'r ſaint. Dy drugaredd, Arglwydd, ſydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymmylau.

Nid yn ôl ein gweithredoedd y gwnaethoſt ti â ni; ac nid yn ôl ein hanwireddau y telaiſt i ni: canys cyfuwch ag yw'r nefoedd uwchlaw'r ddaear y rhagorodd dy drugaredd di arnom ni. Ti a edrychaiſt ar ein cwymp a'n trueni trwy bechod: ti a oſodaiſt ein cymmorth ar un cadarn, ac a ddyrchefaiſt un etholedig o'r bobl, i fod yn Jachawdwr hyd eithafoedd y ddaear. Pan yr oeddym ni yn gwbl ddïobaith, megis rhai wedi eu taflu ar wyneb y maes, heb neb i doſturio wrthym: pan welaiſt ni yn ymdrybaeddu yn ein gwaed, ymwelaiſt

ymwelaiſt â ni ag amſer ſerchawgrwydd: ïe pan welaiſt ni yn gorwedd yn ein gwaed, ni 's gadewaiſt ni i farw; eithr ti a drefnaiſt i ni ymwared trwy dy uniganedig Fâb, yr hwn, Ynghyfiawnder yr amſer, a anfonaiſt i'r bŷd, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwyſiad.

Yr ydym ni oll dan y ddeddf, ac wrth naturiaeth yn blant digofaint megis eraill: canys llawn ydym o annuwioldeb a phob anwiredd. Yr ydym wedi troſeddu dy gyfreithiau di mewn miloedd o ffyrdd; ac wedi dïanrhydeddu dy enw ſanctaidd, trwy ein hynſydrwydd a'n gwrthryfel i'th erbyn! Llawn ydym o ddallineb a gwaeledd, ac ni ddarfu i ni yſtyried tiriondeb dy gariad yn ein prynedigaeth trwy 'r Arglwydd Jesu: na 'r mawr eiſiau ſydd arnom am gael ein gwaredu oddi wrth ein pechodau, a'n heddychu â thi trwyddo ef.

Cymmorth ni, O Arglwydd, i addef ein pechodau wrthyt yr awr hon, gyd â chywilydd a gofid calon o'u plegid; nertha ni i droi oddiwrthynt, fel y caffom drugaredd a maddeuant, er mwyn yr Arglwydd Jesu. Na wnâ â ni, yn ol ein pechodau, ac na wobrwya ni yn ol ein hanwireddau: ond yn ol dy drugaredd achub ni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yſbryd Glân; yr hwn yr wyt yn ei dywallt yn helaeth ar dy bobl, trwy Jesu Grist ein Jachawdwr.

Sancteiddia

Sancteiddia di, ac adnewydda ein hewyllyſiau; fel na bô i ni geiſio ein hewyllys ein hunain mwyach, ond ewyllys yr hwn a'n danfonodd ni. Pâr fod yn dda genym wneuthur dy ewyllys di, O Dduw: goſod dy gyfraith yn ein meddyliau, a'th ofn yn ein calonnau; fel na phechom i'th erbyn mwyach. Bydded i dangnefedd Duw, yr hwn ſydd uwchlaw pob deall, gadw ein calonnau a'n meddyliau yng Nghrist Jesu; fel y llawenychom ynot, O Arglwydd, yn waſtadol; ac y byddo dy lawenydd di yn nerth i ni bob amſer. Deffro ni, O Dduw, i waeddi ar ol gwybodaeth, ac i godi ein llef am ddeall; i'w cheiſio hi fel arian, ac i chwilio am dani fel am dryſorau cuddiedig; fel y caffom ddeall ofn yr Arglwydd, ac y caffom wybodaeth am Dduw: canys tydi yr Arglwydd ſydd yn rhoddi gwybodaeth; ac allan o'th enau di y mae deall yn dyfod.

Arglwydd trugarog, yr hwn a anfonaiſt dy anwyl Fâb i'r bŷd, i fod yn waredwr i bechaduriaid: bendithia ni â'th râs, fel y caffom ein dwyn atto ef i gael ein cadw a'n gwared oddi wrth ein pechodau, a'n holl drueni. Cymmorth ni i'w dderbyn ef trwy ffydd, i fod yn brophwyd i'n dyſgu, yn archoffeiriad i'n cymmodi â thi, ac yn frenin i'n llywodraethu, ac i'n hamddiffyn rhag ein holl elynion.

O Arglwydd, dyſg a nertha ni, trwy dy râs, i fod yn ddiſgyblion cywir i'th Fâb Jesu, tra bôm ni byw yn y bŷd. Pâr i ni fod yn ganlynwyr

ffyddlon

ffyddlon iddo, trwy barch ac ammharch, a thrwy anglod a chlôd; fel y caffom yn y diwedd ein derbyn, trwyddo ef, i fwynhâu y digonolrwydd llawenydd ſydd ger dy fron, a'r digrifwch ſydd ar dy ddeheulaw di yn dragywydd.

Gwêl fod yn dda, O Arglwydd, i drugarhâu wrth bawb o'n cyd-bechaduriaid, trwy yr holl fŷd. Anfon oleuni'r efengyl i bob gwlâd, ac i blith pob cenhedl o ddynion dan y nefoedd; fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear, a'th Jachawdwriaeth hyd eithafoedd y bŷd. Palmenta'r ffordd, a ſymmud ymaith bob rhwyſtrau, fel y delo yr *Juddewon* a'r holl genhedloedd i mewn i eglwys yr Arglwydd Jesu, fel colomennod yn ehedeg i'w ffeneſtri. Llwydda'r efengyl dragywyddol trwy yr holl deyrnas hon: cynnorthwya di bawb o'i gweinidogion i ddyſgu dy bobl i gadw pob peth a'r a orchymynnaiſt: bydd di gyd â hwynt bob amſer hyd ddiwedd y bŷd. Nertha hwynt i'w gwneuthur eu hunain yn brofedig gan Dduw, yn weithwyr difeſl, yn jawn gyfrannu gair y gwirionedd.

Dyſg, O Arglwydd, dy waſanaethwr George ein Brenin, i lawenychu yn waſtadol yn dy nerth di, ac ymhyfrydu yn dy Jachawdwriaeth. Cadw ef rhag ei holl elynion: na âd i eilunaddolwyr pabaidd a dynion gwaedlyd ddyfod i mewn i'th etifeddiaeth di, i halogi dy deml, ac i oſod ein *Jeruſalem* ni yn garneddau.

Bendithia

Bendithia ein grafuſol Frenhines CHARLOTTE, a phob un o'r hiliogaeth a'r gwaed brenhinol. Tywallt o'th yſbryd ar holl bendefigion y deyrnas, fel y gwneler hwynt yn wŷr cyſnawn, yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni. Bydded i ti, O Dâd, ddwyn yr holl rai anghenus at dy Fâb JESU, i gael eu diwallu; dŵg y deillion atto, i gael eu golëuo; dŵg y cleiſion atto, i gael eu hiachâu; dŵg y blinderog atto, i gael eu heſmwythâu: dŵg y galarus atto, i gael eu diddanu; dŵg y tlodion atto, i gael eu cyfoethogi; a dŵg bawb o'n cyfeillion a'n perthynaſau atto, i gael eu dyſgu ganddo, i'th addoli a'th wir waſanaethu di, tra byddont byw yn y bŷd.

Ti, O DDUW trugarog, yw ein ceidwad gofalus nôs a dydd! o'th ddaioni di y mae, ein bod ni ymhlith y rhai byw y bore hwn. Llawer o rai ag a aethant i'w gwelyau neithiwyr, yn jach fel ninnau, a hunaſant yn yr angau. Ti a ganiatteiſt i ni gael huno yn felus yn ein gwelyau, a dihuno dracheſn mewn jechyd adïogelwch, lle y gallaſem fod yr awr hon yn codi i fynu ein golygon mewn poenau a thywyllwch, ac heb weled goleuni byth mwy.

Cymmer bob un o honom dan dy ofal y dydd hwn, bendithia waith ein dwylaw. O bendithia a chadw ein mynediad allan, a'n dyfodiad i mewn, o'r bore hwn hyd yn dragywydd, er mwyn teilyngdod ac eirjolaeth CRIST ein Harglwydd; i'r hwn, gyd â thi, a'r Yſbryd Glân, y bo yr holl glod

glod, yr addoliad, a'r mawl, yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Prydnhawnol Weddi *ar ddydd* Gwener.

Y Tâd ſanctaidd, yr hwn wyt yn preſwylio yn y nefoedd! Tydi yn unig wyt Jehofa, ti wyt oruchaf ar yr holl ddaear. Tydi yn y dechreuad a ſylfaeneiſt y ddaear; a gwaith dy ddwylaw di yw'r nefoedd. Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi ſydd yn parhâu: hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant; ac megis gwiſg y plygi di hwynt, a hwy a newidir: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant.

O na fyddai i ddwys yſtyriaeth o'th fawredd gogoneddus di, feddiannu ein hyſbrydoedd ni wrth nesâu o'th flaen yr awr hon! Creaduriaid gwael, aflan a thruenus ydym ni, ïe rhai llwyr annheilwng i rodio ar dy ddaear, ac i anadlu yn dy awyr di, O Arglwydd. Mewn pechod y'n ganed ni, ac mewn pechod y buom byw hyd y pryd hwn! Er i ti drefnu moddion i'n glanhâu, etto, nid ymlanhaſom: rhoddaiſt i ni amſer i edifarhâu, etto, nid edifarhaſom. Rhoddaiſt dy gyſſegr yn ein myſg, a ffynhonnau Jachawdwriaeth yn llawn dwfr. Ti a ddanfonaiſt dy weinidogion i'n cymmell i ddyfod at dy Fâb Jesu, ond ni wrandawſom ni arnynt: ïe, er iddynt daer erfyn arnom

arnom dros GRIST, ar i ni ymgymmodi â thi; etto, gwrthodaſom eu gwahoddiadau, ac ni fynnem dderbyn eu cynghorion. O mor dueddol ydym i orphwys, i fwytta, ac i yfed, yn ddïofn, a bod yn llawen yn hoff bethau 'r bŷd hwn, er na 's gwyddom, nad y nôs hon y gofynir ein heneidiau oddi wrthym! ac yna, eiddo pwy a fyddant? neu, pa beth a dalant i ni wedy'n?

Trugarhâ wrthym, trugarhâ wrthym, O drugaroccaf Dâd; er mwyn ein prynwr bendigedig, yr Arglwydd JESU, maddeu i ni yr hyn oll, a aeth heibio: a chaniattâ gymmorth i ni allu byth o hyn allan, dy waſanaethu mewn uniondeb a ſanctteiddrwydd ger dy fron di holl ddyddiau ein bywyd. O cymmorth ni i jawn ddefnyddio odfëydd grâs a moddion Jachawdwriaeth; fel na bô i deyrnas DDUW-gael ei chymmeryd oddi wrthym ni, i'w rhoddi i genhedl a ddygo ei ffrwythau. Pâr i ni, Arglwydd, ddwyn ffrwythau addas i edifeirwch, a chredu yn dy Fâb JESU: o blegid yr hwn ſy 'n credu ynddo ef a gaiff faddeuant pechod a bywyd tragywyddol.

Nertha ni i ymddwyn yn y bŷd fel dïeithriaid a phererinion, gan ymgadw oddi wrth bob chwantau cnawdol, y rhai ſy'n rhyfela y y erbyn yr enaid. O dychwel ein heneidiau, ac arwain ni ar hyd llwybrau cyfiawnder, er mwyn dy enw! fel pan rodiom yn nyffryn cyſgod angau, nad ofnom niwaid. O DDUW, bŷdd di gyd â ni; bydded dy wïalen a'th ffon i'n cynnal a'n cyſuro.

Toſturia,

Toſturia, Arglwydd, wrth y rhai ſy'n byw trwy eu holl fywyd, mewn tywyllwch ac anwybodaeth: tywynned diſgleirdeb yr efengyl arnynt, fel y cyfeirier eu traed i ffordd tangnefedd. Cofia dy hên bobl yr *Juddewon*, y rhai a dorrwyd ymaith trwy anghrediniaeth: impia hwynt i mewn drachefn, trwy ffydd, yn eu holiwydden eu hun. Bryſia, Arglwydd, i ddiſtrywio teyrnas y bwyſtfil, dinyſtria ddyn pechod, mâb y golledigaeth. Difetha 'r anwir hwnnw ag yſbryd dy enau; dilëa ef â diſgleirdeb dy ddyfodiad. Gwared dy holl bobl, a phob un o honom ninnau hefyd, oddi wrth yr amryfuſedd cadarn ag ſy'n hudo cynnifer i gredu celwydd.

Bendithia, O Dduw, holl brewylwyr y deyrnas hon. Cadw lamp i'th enneiniog, yr hwn ſy'n eiſtedd ar orſeddfa y frenhiniaeth; fel na ddiffodder goleuni *Iſrael*: bydd di, Brenin y Brenhinoedd, gyd ag ef bob amſer, gwaſgar ei holl elynion, a phâr i 'w gaſcion ffoi o 'i flaen; dyro hwynt fel llwch i 'w gleddyf, ac fel ſofl gwaſgaredig i 'w fwa ef. Bydded i 'r Frenhines, a 'r holl Frenhinol Deulu, fod dan dy nodded di yn waſtadol. Bydd di gyd â phawb o 'n milwyr ar dîr a môr: dyſg di hwynt i ryfela, a nertha hwynt i orchfygu, bob amſer y caffont eu danſon allan i ymladd â neb gelynion.

Nertha holl weinidogion yr efengyl i bregethu'r gwirionedd: gwnâ di hwynt yn genhadon ffyddlon dros Grist. Bydded dy law di gyd â hwynt,

fel

fel y dêl nifer mawr i gredu, a throi attat ti trwy ffydd yn yr Arglwydd Jesu.

Llawer yw y rhai ſy'n cwynfan ac yn ochain ar eu clâf welyau, a'u heinioes yn nesâu i'r beddrod: Duw, maddeu eu holl bechodau, ac ymwêl â hwynt â'th Jachawdwriaeth; a phâr i'w byr yſgafn gyſtudd fod yn odidog rhagorol i weithredu iddynt dragywyddol bwys gogoniant. Bydd di gyd â hwynt yn ymchwydd yr *Forddonen*, a derbyn hwynt attat dy hun, pan fônt yn ymadael â'r bywyd hwn. Dangos dy drugaredd, O Arglwydd, i'r ſawl a doſturiant wrth y rhai anwybodus yn ein myſg, ac a wnant eu rhan tu ag at eu dyſgu i adnabod yr Arglwydd Jesu, ac i wybod eu dyledſwydd i Dduw, ac i bob dyn: bydded eu heinioes wedi ei rhwymo ynghwlwm y bywyd, a bydded i'r ffynhonnau uchaf ac iſaf lifo arnynt ffrydiau aml o drugareddau yſbrydol a thymhorol.

Bendithia, O Dâd, y plant amddifaid ſy'n aml yn y bŷd heb Dâd na Mam i ofalu droſtynt. Cyſura di y gwragedd gweddwon, a dyro iddynt râs, fel yr ymofynont am danat ti, i fod yn briod i'w heneidiau. Diddana y rhai oll ſydd mewn gorthrymderau, nertha hwynt i ymgyſuro ynot, a diſgwyl wrth dy drugaredd.

Bendigedig ſyddo dy enw di, ein Duw da, am ein cadw rhag pob drygau y dydd diweddaf. Dy law di ſydd raſol droſom, i'n cadw rhag dychryn y nôs, a'r ſaethau a ehedant y dydd. Diolch i ti, am roddi cennad i ni i gyfarfod o'th flaen

di

di y nôs hon, wedi ein bod ar waſgar ynghylch ein hamryw achoſion ar hyd y dydd; pan y mae llawer eraill, ar ol eu mynediad allan y bore, heb weled eu gilydd byth mwy yn nhîr y rhai byw. Dy eiddo di ydym, Arglwydd, canys ti a'n creaiſt, a thydi a anfonaiſt dy unig Fâb i'n prynu: yn ei enw ef y dymunem nesâu attat, i ddeiſyf pob cymmorth a bendith genyt, ac yn ei enw ef yr ydym yn awr yn gorchymyn yn oſtyngedig ein hunain i'th ddwylaw a'th ofal di, y nôs hon ac yn dragywydd. *Amen*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*

Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Boreuol Weddi *ar ddydd* Sadwrn.

O Arglwydd ein jor ni a'n nerth, mor arddechog yw dy enw ar yr holl ddaear, yr hwn o oſodaiſt dy ogoniant uwch y nefoedd! Ti ſy'n gwneuthur trugaredd a barn i'r rhai gorthrymmedig oll; yr wyt yn agoryd llygaid y deillion, ac yn gollwng y carcharorion yn rhŷdd. Tâd yr amddifaid a barnwr y gweddwon yw Duw yn ei breſwylfa ſanctaidd. Daionus wyt ti, O Arglwydd, i bawb; a'th drugaredd ſydd ar dy holl weithredoedd: bendigedig yw 'r ſawl a fendithiech di, a melldigedig yw dy holl gaseion.

Duw mawr a ſanctaidd wyt ti; ond nyni ydym bechaduriaid aflan a halogedig. Rhai ynfyd ac angall

angall fuom, heb dy adnabod di; yn ſynhwyrol i wneuthur drwg, eithr gwneuthur da nid ydym yn medru arno. Dy drugaredd di, O Dduw, yw'r achos na ddarfu am danom: pa nifer o'n gwell ni ſy wedi cael eu torri ymaith, ac na welir mo honynt mwy yn nhîr y rhai byw!

Nid oes un rhan o'n heneidiau na'n cyrph heb gael eu halogi gan bechod. Y mae ein deall yn llawn tywyllwch, mae ein côf yn llygredig, mae ein calonnau yn gelyd fel yr adamant, mae ein ſerchiadau yn ddaearol, a'n ſyniad yn gnawdol; y mae ein meddyliau yn barod i grwydro oddi wrthyt ti, hyd yn oed yr amſer y bom yn ymoſtwng ar ein gliniau ger dy fron, i geiſio gweddïo arnat! Pe gallem alw ein holl anwireddau i gôf, nyni a gaem weled, er ein ſyndod a'n cywilydd, eu bod yn aneirif fel *glaſwellt y ddaear*, ïe fel *tywod y môr*, y rhai ni's gellir eu cyfrif. Y mae hyd yn oed ein gweithredoedd goreu, a'n haddoliad puraf ni, yn llawn o'r cymmyſgedd ffiaidd hwn o bechod! O Arglwydd o's creffi ar anwiredd, pwy o honom a ddichon ſefyll?

O na bai ein pennau yn ddyfroedd, a'n llygaid yn ffynhonnau o ddagrau, fel yr wylem ddydd a nôs, o herwydd ein gwrthryfel i'th erbyn, ac o herwydd y plâ toſt, a'r dinyſtr mawr jawn a dynaſom ar ein heneidiau! Nid oes neb yn y nefoedd nac ar y ddaear yn abl i'n jachâu a'n gwaredu, ond yr Arglwydd Jesu yn unig; yr hwn yn nyddiau ei gnawd, a jachâodd bob clefyd ac afiechyd

ymhlith

ymhlith y bobl. Wele ni yma yn gorwedd mewn trueni, o'th flaen di: pa le y mae ymyſgaroedd dy doſturiaethau, O Arglwydd? y mae'n gyfyng jawn arnom! ni wyddom ni beth i wneuthur, ond arnat ti y mae ein llygaid: canys y mae dy air ſanctaidd yn mynegi i ni, nad wyt yn ewyllyſio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch. Ti a ddyrchefaiſt dy Fâb Jesu a'th ddeheulaw dy hun, i fod yn Dywyſog ac yn Jachawdwr, i roddi edifeirwch i'th bobl a maddeuant pechodau. Bendithia bob un o honom ninnau â gwir edifeirwch; a thro ni ymaith oddi wrth ein drygioni. Rhyddhâ a gwared ni, Arglwydd, o'n caethiwed yſbrydol; rhag diſgyn o honom i bydew dinyſtr: gollwng ni yn rhydd ar gyfri'r jawn a dalodd ein prynwr Jesu droſom ar y groes. O cymmorth ni i gredu ynddo ef, a chadw ei orchymynion bob amſer: canys y rhai crediniol ac ufudd a arddelir ganddo ef yn nydd y farn, ac a wahôddir gyd ag ef i deyrnas nefoedd; pan fo'r anghrediniol yn cael eu hanfon ymaith i drueni tragywyddol.

Nertha ni, O Arglwydd, i ymlanhâu oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yſbryd, gan berffeithio ſancteiddrwydd yn ofn Duw. O cymmorth ni i fyw, nid i ni ein hunain, ond i'r hwn a fu farw droſom, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu. Na âdi ni fod un amſer yn anyſtyriol o gariad a dïoddefiadau yr Arglwydd Jesu, nac o'r breintiau gwerthfawr a bwrcaſodd efe i ni; eithr nertha ni i'w gofio

a'i garu yn dragywydd, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni, a dyfod i lawr o'r nefoedd i'n prynu, ac i'n hachub oddi wrth ein holl elynion. Pa beth a dalwn i ti, am y fâth waredwr anwyl ag yw'r Arglwydd Jesu! O Dâd, dyro i ni lawer o râs, i'n gwneuthur yn gwbl ewyllysgar i roddi ein heneidiau a'n cyrph hefyd at dy wasanaeth di, tra bôm ni byw yn y bŷd. Caniattâ i ni'r fâth adnabyddiaeth jachusol o'r Arglwydd Jesu ac a'n gwnelo ni yn glâf o gariad, ac yn ewyllysgar i ymadael â'r cwbl a feddom, ïe, ac â'n *bywyd* hefyd, o's bydd achos, er ei fwyn ef. Pâr i bob un o honom weled nad oes un peth yn yr holl fŷd a wnâ lês i ni, tra byddo ein heneidiau heb gael eu dwyn i undeb â Christ Jesu. Efe ydyw y rhan dda, ni bydd eisiau dim ar y fawl a'i caffo; canys y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol ynddo ef. Attolwg, Arglwydd, dwg ni oll i feddu hawl gadwedigol ynddo; canys y fawl a'i caffont ef, a gânt fywyd, ac a feddiannant ewyllys da genyt ti, y Tâd nefol.

Bydded i'r efengyl dragywyddol (yr hon fy'n gosod allan degwch a hawddgarwch ein prynwr fanctaidd) gael ei phregethu ymhob man trwy'r holl fŷd; fel y caffo'r deillion olwg i'w weled ef, a'r byddariaid gluftiau i wrando ei leferydd. Dwg y rhai gwahan-glwyfus atto ef, i gael jachâd, a phâr i'r holl rai tlodion ymofyn am wir wybodaeth o hono, fel y gwneler hwynt yn gyfoethog-

ion mewn ffydd, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol.

Bendithia fawrhydi 'r Brenin a 'r Frenhines, O Arglwydd, llwydda hwynt ymhob peth, a chadw hwynt bob amſer rhag y fawl a ewyllyſiant eu drygu. Ti a addewaiſt wneuthur Brenhinoedd yn Dadmaethod, a Brenhineſau yn Fammaethod i'th eglwys: poed felly bô, Arglwydd, yn ein dyddiau ni; fel y cynnyddo crefydd, fel yr adfywier grym duwioldeb trwy'r holl deyrnas, ac fel y bô i bob anwiredd gau ei ſafn. Gyrr ymaith y diluw o annuwioldeb ſy wedi gorchuddio wyneb ein tîr. Ti a ddywedaiſt, pan y byddai i'r gelyn ddyfod i mewn fel afon y byddai i ti anfon dy yſbryd i'w ymlid ef ymaith: cyflawna dy addewid ar frŷs, er gogoniant i'th enw dy hun, O Arglwydd, er cyfur i'th bobl ſy'n hiraethu am weled diwygiad yn cael ei ddwyn yn y blaen; ac er clôd i olud dy râs, yn nhroedigaeth miloedd o bechaduriaid colledig.

Tywallt o'th yſbryd ar holl bennaethiaid a barnwyr y deyrnas, fel y bô iddynt droi mîn y cleddyf o awdurdod a oſodwyd yn eu dwylaw, yn erbyn pechod ac annuwioldeb. Na âd iddynt farnu ar gam, na derbyn wyneb y rhai annuwiol: eithr bydded i farn redeg i wared fel afon, a chyfiawnder fel ffrŵd gref. O Dduw trugarog, cynnorthwya holl weledyddion *Sion*, i fod yn wiliadwrus ac yn ffyddlon yn eu gwaith: nertha hwynt i oſod allan

allan ardderchawgrwydd yr Arglwydd Jesu, a rhybuddio pechaduriaid rhyfygus a difraw, a'u taer alw i ymadael â'u ffyrdd drygionus, a dyfod atto ef i gael cymmod, a heddwch, a bywyd tragywyddol.

Cofia di, Arglwydd, am y rhai fy'n gorwedd ar eu clâf welyau. Pâr iddynt yftyried, nad yw cyftudd yn dyfod allan o'r prîdd, na chlefydau yn blaguro o'r ddaear; eithr mai tydi fy'n eu danfon, i'r diben mwyaf graflawn a charedigol, fef, er dwyn dynion i weled drwg pechod, ac i edifarhâu am dano, fel y caffont hawl yn yr Arglwydd Jesu, yr hwn fy'n jachâu pob clefyd ac afiechyd a fô ar gyrph ac eneidiau ei bobl.

Bendithia yr holl yfgolion addyfg a ofodir i fynu ymhob lle trwy'r deyrnas: bendithia mewn modd neillduol yr *eluſen yſgolion*, ym mha rai y mae y rhai *jeuaingc*, *a'r tlodion anwybodus*, yn cael eu dyfgu i ddarllain dy air fanctaidd di yn eu *hiaith eu hunain*. Pâr iddynt ddyfgu casâu pechod, a charu duwioldeb; fel y tyfont i fynu i fod yn blanhigion hardd a chynnyddus yn dy eglwys di. Bydd di dda wrth gynnorthwywyr eu Hiachawdwriaeth, ac na âd i'r diafol, na neb o'i offerynau, allu rhwyftro llwyddiant y gwaith hwn, na digalonni y rhai fy'n dymuno ei gynnydd

O Arglwydd tirion! nertha y rhai oll fydd dan amheuaeth a blinder yfbryd, i obeithio yn dy drugaredd di yng Nghrist Jesu. Dywed wrth

y rhai ofnus o galon, mai ti yw Duw eu Hiachawdwriaeth. Cymmer di ofal am y gweddwon, a nertha yr amddifaid i ymddiried ynot. Cymmer ofal hefyd am bob un o honom ninnau, a phawb o'n perthynafau, y dydd heddyw: cadw ni yn ddiniwaid, a llwydda yr hyn a fô'n llaw genym.

Dïolch i ti, Arglwydd, am ein cadw ni mewn diogelwch y nôs ddiweddaf. Ti a wnaethoft ein cwfg yn fuddiol, a'n hûn yn felus i ni. Yr wyt yn ein llwytho beunydd â'th drugareddau, bob bore y maent yn dyfod o newydd. O pâr i ninnau dy gyfarfod di bob bore, ar ein gliniau; i'th fendithio am danynt oll. Ti, O Ddduw, fy'n troi ein nôs ni yn ddydd, a'n tywyllwch yn oleuni; ac yn peri i derfyn bore a hŵyr lawenychu. Dïolch i ti am dy holl drugareddau i ni, ac i'r holl wlâd hon yn gyffredin: ond ni a ddymunem help o'r nefoedd i'th glodfori di uwchlaw pob peth am ein prynwr bendigedig, yr Arglwydd Iesu, yn ei enw ef yr ydym yr awr hon yn gorchymyn ein hunain i ofal dy ragluniaeth, i lywodraeth y râs, ac i dywyfiad dy yfbryd fanctaidd di, y dydd hwn ac yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, &c.
Grâs ein Harglwydd, &c.

PRYDNHAWNOL WEDDI *ar ddydd* Sadwrn.

HOllalluog ac anfarwol Arglwydd Dduw, creawdydd y nefoedd a'i heſtynydd, lledydd y ddaear a'i chnŵd, rhoddwr anadl i'r tobl ſydd arni, ac yſbryd i'r rhai a rodiant ynddi. Tydi a oſodaiſt ſylfaeni'r ddaear, a thydi ſy'n cynnal colofnau'r nefoedd. Mor fawredig yw dy weithredoedd, O Arglwydd, mewn doethineb y gwnaethoſt hwynt oll, llawn ydyw'r ddaear o'th gyfoeth! Dy drugaredd, Arglwydd, ſydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymmylau. Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder; dyfnder mawr yw dy farnedigaethau: dyn ac anifail a gedwi di, Arglwydd. Ynot ti yr ydym ni yn byw, yn ſymmud ac yn bôd, tydi a'n cedwaiſt ac a'n gwaredaiſt hyd y pryd hwn: mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw! am hynny, yr ymddiried plant dynion dan gyſgod dy adenydd.

Cynnorthwya ni, O Arglwydd, i yſtyried yn ddifrifol, y mawrhydi gogoneddus a berthyn i ti, ger bron yr hwn yr ydym ni yn nesâu y nôs hon; fel na bô i ni ruthro yn fyrbwyll, fel ynfydion ar orfedd dy râs; eithr bod i ni ddyfod gyd â pharch a gwylder: canys y mae ein dedwyddwch preſennol a thragywyddol yn ſefyll ar y llwyddiant a gaffom ger dy fron di. Fe ddylai fod arnom gywilydd i godi ein hwynebau tu ag attat: canys

gwrthryfelgar fuom i'th erbyn trwy ein holl fywyd.

Nyni a roddaſom ein haelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod. Ein traed á redaſant i ddrygioni: ein dwylaw a wnaethant anwiredd; ein llygaid a edrychaſant ar wagedd; y mae ein cluſtiau yn hwyrdrwm i wrando ar leferydd dy air di, ond yn barod i wrando ar ymadroddion llygredig a choeg ddigrifwch: ein tafodau a gablaſant dy enw mawr, yn lle dy foliannu a'th ogoneddu, fel y dylaſem wneuthur: halogedig yw, hyd yn oed ein meddwl a'n cydwybod! Y pen oll ſydd glwyfus, a'r holl galon yn lleſg. O wadn y troed hyd y pen, nid oes dim cyfan ynddo; ond archollion a chleiſiau a gwelïau crawnllyd: y rhai ni waſgwyd, ni rwymwyd, ac ni thynerwyd ag olew.

O Arglwydd graſlawn, trugarhâ wrthym, jachâ holl leſgedd ein heneidiau, a ſancteiddia ni yn gwbl oll; fel y caffom fyw ger dy fron di yn dragywydd. Dyro i ni yſbryd doethineb i'n dyſgu i'th adnabod di, ac i oleuo llygaid ein meddyliau; fel y gwypom beth yw gobaith dy alwedigaeth di, a pheth yw golud gogoniant dy etifeddiaeth di yn y ſaint, a pheth yw rhagorol fawredd dy nerth tu ag at y rhai ſy'n credu yng NGHRIST JESU; yr hwn a gyfodaiſt ti o feirw, ac a oſodaiſt i eiſtedd ar dy ddeheulaw dy hun yn y nefolion leoedd. Efe yw ein harchoffeiriad mawr ar dy

DDUW:

Dduw: nertha ni i ddyfod yn hyderus, trwy ffydd yn ei enw ef, at orſeddfaingc y grâs, fel y derbyniom drugarcdd, ac y caffom râs yn gymmorth eyfamſerol.

Cymmorth ni i ddiſgwyl yn ddyfal wrthyt ti, O ein Duw, a gwnâ ni yn gynnyddus yn dy râs, fel yr elom rhagom o nerth i nerth, nes caffom o'r diwedd ymddangos ger dy fron di yn *Sion*. Cynnydda ni mewn goſtyngeiddrwydd a hunanymwadiad, mewn deall ac amynedd, a chariad perffaith tu ag attat ti, a phob dyn. Nertha ni, Arglwydd, i wilio a gweddïo bob amſer, fel na ſyrthiom i brofedigaeth, ac na bô i awr angau a dydd barn ein goddiwes ni yn ammharod. Llawer o ddyddiau ac wythnoſau o'n bywyd ſy wedi inyned heibio, ac ni welwn mo honynt mwy: ni wyddom ni pa leied o'n hamſer ſydd etto yn ôl ac heb ddarfod. Pâr, attolwg, i'r yſtyriaeth o hyn, i'n deffröi i weithio allan ein Jachawdwriaeth ein hunain trwy ofn a dychryn; fel pan ddelo yr awr olaf, y bô genym hyder a chyſur yn ein heneidiau; i'n gwneuthur yn galonnog ac yn ddïofn wrth gyfarfod â brenin y dychryniadau.

Trugarhâ, O Dduw, wrth yr holl fŷd hwn ſy'n gorwedd mewn drygioni. Llewyrched goleuni yr efengyl dros wledydd yr holl ddaear, fel y dyger ei phreſwylwyr i'r jawn, allan o fagl diafol, ac allan o feddiant y tywyllwch. Bendithia yr efengyl a llwydda ei gweinidogaeth (mewn

modd neillduol) ym myſg trigolion y wlâd hon: bydded dy orſeddfaingc di, a theyrnwialen dy frenhiniaeth, yn waſtadol yn ein plith. Na âd i'n goleuni ddiffoddi; eithr ail ennyn luſern dy deml; a phâr i bob rhan o 'r deyrnas gael ei llenwi â gwybodaeth o 'th ogoniant, fel y töa 'r dyfroedd y môr.

O Dduw, dôd i'r Brenin dy farnedigaethau, a bydd iddo yn dŵr cadarn, ac yn dŷ amddiffyn rhag wyneb ei elynion. Cuddia ei ben ef yn nydd y rhyfel. Bendithia ei arfau a llwydda ei filwyr, fel y ſathrer i lawr ei holl gaëion ef, tan ei draed. Bydded i'r Frenhines a'r holl Frenhinol deulu fod dan ofal neillduol dy ragluniaeth di bob amſer. Dyſg bawb o 'n pen cynghoriaid i ymofyn cyfarwyddyd o 'th enau di ynghylch holl achoſion y deyrnas.

Bendithia, Arglwydd, a llwydda bawb o 'n dyſgawdwyr a 'n bugeiliaid yſbrydol: pâr iddynt borthi dy braidd yn ofalus, a dangos eu trueni i'r rhai ſydd yn parhâu yn ddiymofyn am yr Arglwydd Jesu. Gwnâ di hwynt yn weinidogion cymmwys y Teſtament Newydd, nid i'r llythyren, ond i'r yſbryd; can's y llythyren ſy'n lladd, ond yr yſbryd ſydd yn bywhâu. Cofia, O Dduw, am y rhai oll ſy'n rhwym mewn cyſtudd a blinder: pâr iddynt ddioddef dy geryddon yn amyneddgar, a deiſyf dy fendith arnynt, fel y byddont well o'u

plegid.

plegid. Cymhwyſa di hwynt i'r hyn ſydd o'u blaen, pa un bynnag a'i bywyd a'i angau fyddo.

Trugarhâ wrth y caethion, y trallodedig a'r galarus, a phawb ag ſydd mewn cyfyngderau ar dîr a môr. Nyni a ddymunwn arnat gofio am y weddw a'r amddifad, cyſura a dyſg hwynt i ymddiried ynot. Dyſg y rhai jeuaingc i'th gofio di eu creawdwr ym mlodau eu hamſer: bendithia hwynt â'th râs, fel y dyſgont dy ofni a chadw dy orchymynion â'u holl galonnau. Bydd dyner a thirion, O Arglwydd, wrth y rhai y mae y dyddiau blîn a'r blynyddoedd anniddanus wedi eu goddiweddyd; na wrthod hwynt, pan ballo eu nerth. Y mae gan dy Fâb Jesu, *rai hên* ddiſgyblion yn y bŷd; cofia hwynt mewn modd neillduol: pâr iddynt flodeuo fel palmwydd, a bod yn dirfion ac yn iraidd yn eu henaint, gan ffrwytho fwyfwy, nes bô iddynt ddyfod o'r diwedd yn gwbl addfed i ogoniant y nefoedd.

Dyro bob peth wrth fodd eu calonnau i'r cyfryw rai ag a ddyſgwyd genyt ti, i doſturio wrth anwybodaeth y tlodion yn ein plith; ac i gyfrannu yn helaeth tu ag at eu dwyn i wybod y pethau a berthyn i Jachawdwriaeth eu heneidiau. Bydded dy fendith yn canlyn llafur eu cariad, a bydded eu gwobr yn berffaith gyd â thi yn y nefoedd. Rhynged bôdd i ti, O Dâd, i gyfrannu o'th râs a phob bendithion angenrheidiol i bawb o'n perthynaſau; fel y dyſger hwynt i'th ofni di,

a rhodio yn dy ffordd, tra byddont byw yn y bŷd. Cymmer hwy a ninnau a'r cwbl a feddom, i'th gadwraeth rasol y nôs hon.

Diolch i'th fawredd di, y Tâd grasławn, am dy ddaioni a'th holl drugareddau i ni bob amser. Yr ydwyt yn achub ein blaen ni â bendithion daioni ac â rhoddion gwerthfawr, ac yn gwneuthur yn dra rhagorol drosom, tu hwnt i'r hyn yr ydym ni yn ei ddymuno neu yn ei feddwl! Daionus ydwyt, O Arglwydd, a'th drugaredd sydd ar dy holl weithredoedd. Ti a'n cedwaist rhag pob digwyddiadau drwg y dydd a aeth heibio: a thi a roddaist gennad i ni i ymostwng o'th flaen yr awr hon. Derbyn ein gweddi, O Arglwydd, a deued ein deisyfiadau i fynu yn gymmeradwy ger dy fron, er mwyn teilyngdod ac eirjolaeth ein prynwr sanctaidd; am yr hwn y dymunai ein heneidiau fendithio dy fawredd, tra bôm ni ar y ddaear, mewn gobaith o gael, trwyddo ef, dy foliannu yn ddiddiwedd yn y nefoedd; boed iddo ef, gan hynny, gyd â thi, a'r Yspryd Glân, bob clod, ufudd-dod a mawl, yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *i'w harfer mewn teulu yr amſer* Rhyfel.

O Arglwydd DDUW y lluoedd, cynorthwywr y Trueiniaid, a Noddfa 'r gorthrymmedig yn amſer trallod. Ti ſy 'n llywodraethu dros holl deyrnaſoedd y ddaear. Pa ham y terfyſga 'r Cenhedloedd, ac y myſyria 'r Bobloedd beth ofer?

Y mae brenhinoedd pabaidd ac eilunaddolgar yn ymgodi yn erbyn dy bobl, ac yn bwriadu difetha dy etifeddiaeth di. Yr annuwiolion a dynnaſant eu cleddyf ac a anelaſant eu bwa, i fwrw i lawr y tlawd a'r anghenus; ïe i ddifetha dy *Sion* di, ac i ladd y rhai union eu ffordd: ond pan gyfodych di, eu cleddyf a â yn eu calon eu hun, a'u bwa a ddryllir.

Gwir yw, O Arglwydd, ein bod ni, o herwydd ein hangof o honot, ein cam-arferiad o 'th holl drugareddau a moddion Gras, yn cyfiawn haeddu iti adael i'n gelynion ein gorchfygu, a'r cleddyf ein herlid; nes ein torri ymaith yn gwbl oddi ar y Ddaear. O Arglwydd, os creffi ar anwiredd, pwy o honom a ddichon ſefyll? Ond y mae trugaredd gyd â thi a maddeuant; am hynny y 'th ofner.

Rhynged

Rhynged bodd i'th fawredd di, O Dduw, ein bendithio ni â 'th ras, a 'n ſancteiddio â 'th lan yſbryd, fel lle y gwnaethom ar fai, na wnelom felly mwy. Pâr ini wir edifarhau am ein pechodau, a dychwelyd attat ti â 'n holl galon, fel y caffom drugaredd a maddeuant er mwyn dy anwyl Fab, yr Arglwydd Jesu.

Ti, Arglwydd, a weli fod ein gelynion yn terfyſgu, a 'n caſeion yn codi eu pennau. Dy eiddo di yw y Rhyfel, ac os rhynga bodd iti ſefyll i fynu o'n plaid, yna nid rhaid ini ofni tyrfa fawr ein gelynion. Ti yw tarian cynorthwy dy bobl, a chleddyf eu hardderchowgrwydd hwynt. Cyfod, O ein Duw, gwaſgar di ein gelynion, a ffoed ein caſeion o'th flaen. Dychwel i ymladd ar ran myrddiwn miloedd *Iſrael*. Moes di gynorthwy ini rhag cyfyngder, canys ofer yw ymwared dyn. Caniatta na bo ini hau ein tîr, a 'n gelynion fwytta ffrwyth ein llafur: Oh! na âd i 'n caſeion feiſtroli arnom.

Bydd di, O Dduw, ymmhlaid y rhai ſy 'n anturio eu heinioes droſom i farwolaeth ar uchel-fannau'r maes. Dyſg di eu dwylaw i ymladd a'u byſedd i ryfela. Bydd yn nerth Jachawdwriaeth iddynt, a gorchguddia eu pennau yn nydd brwydr.

Na chaniatta ddymuniad ein gelynion, ac na lwydda eu drwg-ſeddwl; rhag balchïo o honynt: eithr ymladd di droſom yn eu herbyn. Gwared ni o ddwylaw y rhai a geiſiant ein heinioes, troër

yn

yn eu hol a gwaradwydder y rhai oll a ewyllyſiant ein drygu a 'n difetha.

Ti, Arglwydd, ſy'n goſtegu twrf y moroedd, a therfyſg y bobloedd. Ti a elli beri i ryfeloedd beidio hyd eithaf y Ddaear. Bydded iti ddryllio'r bwa, a thorri'r waywffon, a lloſgi cerbydau ein holl elynion â thân.

Symmud oddi wrthym ſŵn yr udgorn a gwaedd rhyfel; ac achub ni â'n teyrnas rhag llid y rhai a ymgodant yn ein herbyn.

Barna di, O Dduw, rhwng y cenhedloedd, cerydda bobloedd lawer; fel y curont eu cleddyfau yn ſychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau: fel na bo i genedl godi cleddyf yn erbyn cenedl, na dyſgu rhyfel mwyach.

Ni a orchymynwn y Brenin, y Frenhines a 'r holl deulu frenhinol i'th ofal a'th nodded di. Yr ydym yn attolwg iti goſio am holl gynghoriaid y Brenin, a'n holl lywiawdwyr a'n bugeiliaid yſbrydol: dyro i bawb o honynt ras a help i fod yn ffyddlon yn eu ſwyddau.

O trugarha wrth yr holl gleifion, yr amddifaid, gweddwon a 'r tlodion. Gwel fod yn dda i gymmorth pawb o honynt yn ol eu rhaid a'u hachos.

Derbyn ein clod a 'n diolch ninnau, O Dduw, am yr holl ddaioni, y breiniau a'r trugareddau a roddaiſt ini o Ddydd i Ddydd: a chaniatta ein cadw ni oll rhag pob pechod (y *dydd hwn*, neu'r

nos

nos hon) a'n cymhwyſo i'th fwynhau di mewn llawenydd tragywyddol yn dy nefol deyrnas yn y diwedd, trwy JESU GRIST ein Harglwydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *deuluol yn amſer* Prinder *a* Drudaniaeth.

YR holl-gyfoethog Arglwydd DDUW, yr hwn wyt yn cynnal yr holl greaduriaid, ac yn rhoddi ymborth i bob cnawd. Golygon pob peth ſydd yn diſgwyl wrthyt, a thi ſy'n rhoddi iddynt eu bwyd yn ei bryd, gan agoryd dy law i ddiwallu pob peth byw â'th ewyllys da. Yr hyn a roddych di iddynt, a gaſglant: ond pan guddiech dy wyneb, yna hwy a drengant, ac a ddychwelant i'r llwch.

Er ini gam-arfer dy ddaioni, a cham-ddefnyddio dy holl drugareddau, er hynny fe ddarfu iti ddarparu drosom hyd yr awr hon. Yr ydym, O Arglwydd, yn cyfaddef yma ger dy fron, nad ydym deilwng i dderbyn y lleiaf o'th drugareddau di: canys pechaſom yn erbyn y nefoedd, ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid ydym deilwng i gael ein galw yn blant i ti. Er iti ein llwyddo, a

llanw

llanw ein dyddiau â'th ddaioni, etto ni a'th anghofiasom, ac a dreuliasom dy drugareddau ar ein melus-chwantau, gan beri iddynt weini i'n trachwantau pechadurus ein hunain.

Yr ydym yn cyfaddef yma ger dy fron, O Arglwydd, mai cyfiawn a fyddai iti gymmeryd ymaith ein hŷd a'n gwîn ag sy'n cynnal ein bywyd, a dwyn ymaith ein gwlân a'n llîn ag sydd yn ein dilladu ac yn ein cynnesu. Yr ydym yn haeddu iti i anfon newyn i'n plith, a thorri ymaith ffon ein bara, gan beri ini fwytta cnawd ein meibion, a chnawd ein merched, a phob un gnawd ei gyfaill yn ei gyfyngder. Ond, O Arglwydd trugarog, na wna di â ni yn ol ein pechodau, ac na wobrwya ni yn ol ein hanwireddau: eithr trugarha wrthym, a maddeu ein holl bechodau i'th erbyn.

Na fydded iti anfon glendid dannedd ac eisiau bara i'n gwlad; ond dychwel attom mewn trugaredd; gan fendithio bendithia ein lluniaeth a diwalla'r tlodion â bara, fel na byddont farw o newyn.

Rhynged bodd iti, O drugarog Dad, i faddeu ein holl bechodau, a symmud ymaith ein holl anwireddau, fel na bo iddynt attal dy ddaioni oddi wrthym. Dyro ini, er mwyn dy Fab Jesu, O Ddydd i Ddydd ein bara beunyddiol, fel y gallom fwytta heb brinder, a phan fwyttaom a'n digoni,

digoni, y bo i'n heneidiau fendithio yr Arglwydd, am ei holl ddoniau ini.

O ein Duw daionus, na thor di ymaith ffon bara yn ein gwlad, fel y bo ini fwytta ein bara dan bwys, ac mewn gofal, ac yfed ein dwfr dan feſur. Na phâr di i'r llafurwyr i gywilyddio, a'r gwinwyddwyr i udo, am y gwenith a'r haidd, o blegid fod cynhauaf y maes yn brin, a'r ddaear yn pallu ei chnwd.

Dyſg ni, O Arglwydd, i geiſio dy deyrnas di a'th gyfiawnder yn bennaf o bob peth; fel y gallom ddiſgwyl yn gyſurus (yn oll addewid ein prynwr) am gael mwynhau pob peth angenrheidiol at ein cynhaliaeth yn y byd hwn, a'r happuſrwydd tragywyddol yn y byd a ddaw.

Caniatta, O Ddduw, i gyfrannu yr un bendithion a'r trugareddau ag yr ydym yn ddeiſyſu ini ein hunain, i bawb eraill o'n cyd greaduriaid trwy'r holl deyrnas, o'r brenin ar yr orſeddfaingc hyd y tlottaf yn y wlad.

Mawr yw'r rhwymau ſydd arnom i fendithio a chlodfori dy enw di, O Arglwydd, am dy holl ddaioni a'th drugareddau ini o'n dechreuad hyd yr awr hon. Ti ſydd yn ein bwydo, yn ein dilladu ac yn ein cynheſu yn waſtad: a thi a'n cedwaiſt yn fyw hyd yma. Cymmer ni dan ofal dy ragluniaeth tra byddom yn y byd, a chym-

hwyſa

hwyſa ni oll i fywyd tragywyddol, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Gweddi *Deuluaidd, pan fo aml* Glefydau *a* Marwolaeth yn y Wlad.

O Arglwydd goruchel, penllywydd pob peth, yr hwn ſydd yn clwyfo ac yn jachau, yn archolli ac yn meddiginiaethu, yn dwyn i wared i'r bedd, ac yn cyfodi i fynu drachefn.

Mae pob pla a phob clefyd dan dy lywodraeth di. Ti ſydd yn eu danfon, a thi yn unig ſydd yn abl i'w ſymmud ymaith drachefn.

Y mae dy arwyddion ar lêd yn y byd yn awr, i'n dyſgu ni ac eraill i weled drwg pechod, i edifarhau ger dy fron, a llefain arnat am drugaredd a maddeuant cyn y bo hi yn rhy ddiweddar. Pâr ini gofio mai pechod yw'r achos o'r holl ddrygau a'r clefydau ag ſydd yn y byd. O dyſg ni i ymoſtwng o'th flaen, i edifarhau a dychwelyd, fel y dilëer ein pechodau.

Dy ſaethau di, O Arglwydd, ſydd yn hedeg o'n hamgylch: eu gwenwyn ſydd yn yfed yſbryd dynion.

dynion. Y mae dychrynfâu Duw yn ymfyddino yn ein herbyn, ac ofn marwolaeth ſydd yn neſau attom. Angau ſy 'n dringo i 'n ffeneſtri, ac yn dyfod i mewn i 'n tai: yn mae yn dinyſtrio meibion a merched, ac yn difetha jeuainge a hên.

O gleddyf yr Arglwydd, pa hyd ni lonyddi? Dychwel, attolwg, i 'th wain, gorphwys a bydd ddiſtaw bellach; fel na bo ini gael ein yſgubo ymaith oddi ar wyneb y ddaear, a 'n torri i 'r bedd yn hanner ein dyddiau.

O drugarog Duw, edrych arnom a golwg o doſturi, er mwyn dy Fab Jesu. Tyn dy bla oddi wrthym, a ſymmud ymaith y clefydau ſydd yn ein plith; fel y gwypo holl breſwylwyr y byd, nad oes Duw cyffelyb iti trwy 'r holl ddaear.

Pan goſbech ddyn am anwiredd, dattodi fel gwyfyn ei ardderchowgrwydd ef: gwagedd yn ddiau ydym; ein holl ddyddiau ſydd orthrymder, a 'n llafur yn ofid. O gwrando ein gweddi, a chlyw ein llef. Cadw ni yn ddibryder rhag yr haint ſydd yn rhodio yn y tywyllwch, a 'r dinyſtr ſy 'n dinyſtrio ganol dydd; fel pan gwympo mîl wrth ein hyſtlys, a deng-mîl ar ein deheu-law, na ddêl yn agos attom ni.

Pâr ini wneuthur yr Arglwydd yn Noddfa, a 'r goruchaf yn amddiffynfa ini: fel na ddigwyddo ini niweid, ac na ddelo pla yn agos i 'n pabell. Cymmer ni oll, a 'th holl bobl trwy 'r byd, dan dy raſlawn nodded [*y dydd heddyw* neu *y nôs breſennol*]

ſennol] a derbyn ein clod a'n diolch am dy holl ddaioni ini, a'th ofal droſom nôs a dydd, hyd yma.

O cymmorth bob un o honom, byth o hyn allan, i'th waſanaethu a'th ſodloni mewn newydd-deb buchedd, er anrhydedd a moliant i'th enw, trwy JESU GRIST ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thi a'r Yſbryd Glan, boed yr holl anrhydedd a'r gogoniant, byth bythoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *i'w harfer mewn teulu yn amſer* Sychder mawr, a Phrinder gwlaw.

Y Goruchef DDUW, meddiannydd y nefoedd a'r Ddaear. Yr wyt ti yn DDUW mawr, ac yn frenin mawr goruwch yr holl dduwiau. Y mae gorddyfnderau'r Ddaear yn dy law, ac uchder y mynyddoedd yn eiddot ti. Nid oes neb fel tydi, mawr wyt, a mawr yw dy enw mewn cadernid. Ti ſy'n cynnwys y dyfroedd yn dy Ddwrn, ac yn meſur y nefoedd â'th rychwant.

Y mae'r gwyntoedd a'r cymmylau dyfroedd dan dy lywodraeth di. Nid oes neb ym mhlith oferedd y cenhedloedd a wna iddi wlawio ar y Ddaear:

Ddaear: ac nid oes neb ond tydi, O Arglwydd, a ddichon beri i'r nefoedd roddi cafodau. Tydi ſy'n rhwymo'r dyfroedd yn y cymmylau, ac yn peri nad yw'r cwmmwl yn hollti danynt. Pwy yw Tad y gwlaw, onid tydi? a thi a genhedlodd ddefnymau'r gwlith. Yn ol dy orchymyn di y gwlawia'r wybrennau, a thi yn unig ſy'n abl eau ac agoryd coſtrelau'r nefoedd.

Caledrwydd ein calonnau, a'n diffrwythder ni dan foddion Gras, ſy'n rhoi cyfiawn achos iti, O Arglwydd, i attal y cymmylau rhag gwlawio arnom. O herwydd ein hanwireddau yr wyt yn bygwth gwneuthur y nefoedd yn brês uwch ein pennau, a'r Ddaear yn haiarn oddi tanom.

Attolwg, Arglwydd, edrych arnom yn drugarog, er mwyn dy Fab Jesu, maddeu ini ein holl bechodau, a nertha ni i ymadael â hwynt dros fyth. Agor y nefoedd a dyro wlaw ar y tîr a roddaiſt ini yn etifeddiaeth. Ymwel ar Ddaear, yn awr yn ein dirfawr angenrhaid, a dyfrha hi: mwyda hi â chafodau, a bendithia ei chnŵd. Os bydd iti attal dy fendith, yna fe fydd i'r hadau bydru dan y priddellau, a'r yſguboriau a'r ydlannau a fyddant yn anrheithiedig ac yn weigion: ie, yr ŷd a wywa, coed y maes a fyddant yn ddiffrwyth, a'n hanifeiliaid a fyddant yn griddfan o eiſiau porfa.

O Arglwydd trugarog a daionus, tro attom mewn heddwch, fel y gorfoleddom ynot: a gwlawia

gwlawia arnom yn gymhedrol. Pâr di i'r cynnar-wlaw a 'r diweddar-wlaw ddiſgyn arnom yn ei amſer; fel y llenwir ein hyſguboriau o ŷd, ac y bo i'r gwîn newydd a'r olew fyned dros y lleſtri.

Pa hyd y galara 'r tîr, ac y gwywa gwellt yr holl faes, am ddrygioni ei breſwylwyr? Agennodd y Ddaear, cywilyddiodd y llafurwyr, a'r rhai a anfonir am Ddwfr a ddychwelant â 'u lleſtri yn weigion. Dihidla wlaw graſlawn ar dy etifeddiaeth, O Dduw, agor dy dryſor daionus, a dyro wlaw o 'r nefoedd i'n tîr, yn ei bryd, fel y cedwir ini ddefodol wythnoſau cynhauaf.

O pâr ini wrando ar dy orchymynion, a'th garu di a'th waſanaethu bob amſer â'n holl galon, ac â'n holl enaid. O Arglwydd, gwna â ni gyſammod heddwch. Gwna ni ac amgylchoedd ein bryn yn fendith. Pâr i'r gwlaw ddiſgyn yn ei amſer, a bod yn gafodydd bendith ini. Hyn ynghyd a phob peth arall angenrhaid ini ac i'th holl eglwys, yr ydym yn oſtyngedig yn ei erfyn er mwyn Jesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thi a'r Yſbryd glan boed pob addoliad a gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Gweddi *yr amser* Llifeiriant a Thymheſtloedd.

O Arglwydd Ddduw, yr hwn a wnaethoſt y nefoedd a'r Ddaear a'th fawr allu, ac a'th fraich eſtynedig. Mawr wyt mewn cyngor, a galluog ar weithred. Ti ſy'n gwneuthur yr hyn oll a fynnych yn y nefoedd, ar y Ddaear, yn y moroedd a'r holl ddyfnderau.

Yr wyt ti yn codi y niwl o eithaf y Ddaear, yn gwneuthur y mellt gyd-â'r gwlaw, gan ddwyn y gwyntoedd allan o'th dryſorau. Y mae'r tân a'r cenllyſg yr eira a'r tarth a'r gwynt yſtormus yn gwneuthur dy air di. Pan anfonech di dy air, y gwyntoedd a chwythant a'r dyfroedd a lifant. — Ti ſy'n rhoi cafodydd o wlaw, ac yn anfon allan wlaw mawr trwy dy nerth.

Wrth dy orchymyn di y bydd i'r cymylau dywallt allan ddyfroedd; twrf dy daran a glywir oddi amgylch, a'th fellt a oleuant y byd; ti a beri i'r Ddaear gyffroi a chrynu dan draed eu thrigolion. Dy ffordd ſydd yn y môr a'th lwybrau yn y dyfroedd dyfnion, ac nid adwaenir dy ôl.

O dyſg ni, trwy dy geryddon, i edifarhau o gwellhau ein bucheddau. Cymmorth ni ar frys i ymheddychu â'th fawredd, fel na bo ini gael

ein difetha gan lifeiriant dy ddigofaint, yr hwn a dywelltir ar fyrder ar warthaf yr holl rai anwir.

Bydded iti, yr hwn fy'n gwifgo'r nefoedd â thywyllwch, yn tywyllu y dydd yn nôs, yn galw dyfroedd y môr ac yn eu tywallt ar wyneb y Ddaear, dywallt dy ras i'n calonnau ni, fel y'th ofnom di bob amfer.

Megis yr addewaift na chai dyfroedd *Noa* ddyfod mwy i foddi'r byd; gwel fod yn dda yn awr, i wafgar y cymmylau, a pheri i'r haul dywynnu ar y Ddaear, i addfedu ei ffrwythau; a llonni y creaduriaid ag fydd yn cyfanneddu arni.

O cofia ni yn dy drugaredd, ac na chofba ni â'r cyfryw lif-ddyfroedd ag na adawo ymborth ar ei ol i'n cadw yn fyw: eithr danfon di y cynnar-wlaw a'r diweddar-wlaw yn gymhedrol, ac yn ei amfer.

Achub ni, O Dduw, yn y dydd ag y dêl dy ddigofaint fel llifeiriant mawr i ddifetha dy elynion yn llwyr gwbl oddi ar wyneb y Ddaear. Dyfg ni i gydnabod yn ddiolchgar dy fawr ddaioni tu ag attom bob amfer: a phâr i'th diriondeb ennyn fwyfwy o gariad ynom, a mwy o hiraeth am danat ti yn waftadol.

Diolch i'th enw am ein holl waredigaethau, ein bendithion a'n trugareddau, o'n dechreuad hyd yr awr hon. Ti a fuoft yn noddfa ini yn y dydd y bu cyfyngder arnom. O cadw ni etto dan gyfgod dy adenydd o'r pryd hwn hyd yn

oes oesoedd; a hyn yr ydym yn ei ddeisyf er mwyn teilyngdod dy anwyl Fab Jesu, i'r hwn gyd â thi a'r Ysbryd glan, boed yr holl anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

GWEDDI *neillduol* i un a so dan Argyoeddiad.

O Arglwydd sanctaidd a gogoneddus, yr hwn wyt yn gyflawn o burdeb a gwirionedd! Nid yw yr haul, y lloer a'r sêr, ddim amgen nâ llŵch dan dy draed di. Yr wyt yn burach dy natur, ac yn lanach dy olwg nag y gelli edrych ar bechod; ac ni thrîg dim anwiredd ger dy fron. Nid yw'r nefoedd ei hun yn lân mewn cymmhariaeth i ti. Pa faint mwy ffiaidd a drewëdig yw dyn, yr hwn sy'n bwytta pechod fel bara, ac yn yfed anwiredd fel dwsr?

O pa fodd y dichon y fâth bechadur aflan ag wyf fi, edrych i fynu tu ag at anneddle dy sancteiddrwydd, na chymmeryd dy enw mawr di yn sy ngenau halogedig! canys pechais yn erbyn nef ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid wyf deilwng i'm galw yn blentyn i ti. O mor galed yw fy nghalon, mor dywyll yw fy neall ac mor gyndyn yw fy ewyllys! Y mae rhifedi sy mhechodau fel tywod y môr; a'u maintioli fel mynyddoedd. Plentyn digofaint ydwyf wrth natur,

cholledi

cholledig fyddaf yn dragywydd, oni wêl dy fawredd di fod yn dda i droi attaf, a thrugarhâu wrthyf ar fyrder.

O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur. Bendithia fi â gwîr edifeirwch, a nertha fi i wîr gredu yn dy Fâb Jesu; yr hwn a ddaeth i'r bŷd, i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid. Efe a ddichon yn gwbl jachâu y rhai sy'n dyfod attat ti trwyddo ef, gan ei fod ef yn byw bob amser i eirjol drostynt hwy. Trwyddo ef y rhoddir cennad i mi, y pennaf o bechaduriaid, i nesâu at orsedd dy râs di yr awr hon, i ymofyn am drugaredd, ac i geisio grâs yn gymmorth cyfamserol. Ymwêl â mi, O Arglwydd, â'th Jachawdwriaeth. Maddeu fy anwiredd, canys mawr yw: symmud fy mhechodau oddi wrthyf, cyn belled ag yw'r dwyrain oddi wrth y gorllewin; fel na bô iddynt ddyfod i'm cywilyddio yn y bŷd hwn, nac i'm condemnio yn nydd y farn. Nertha fy enaid egwan i ddisgwyl wrthyt ti, am gymmorth i rodio ger dy fron mewn sancteiddrwydd, ac uniondeb calon, dros amser fy ymdaith yn y bŷd. Na âd i mi dy anghofio di, na phechu i'th erbyn byth mwy: eithr pâr i mi ddysgu dy ofni di, a'th garu, â'm holl galon, â'm holl enaid, â'm holl feddwl ac â'm holl nerth. Dyro i mi râs; a minnau a roddaf fy enaid a'm corph at dy wasanaeth di, tra bydd wyf byw.

Cadw fi, attolwg, rhag pob pechod ac anwiredd, a gwared fi oddi wrth bob peryglon [*y dydd*

heddyw neu *y nôs hon*] ac yn dragywydd. Gwrando fy ngweddi, O Arglwydd; a llwyr fendithia fi, er mwyn Jesu Grist dy anwyl Fâb; i'r hwn, gyd â thi, a'th Yſbryd Glân, y bô 'r holl addoliad, y parch a'r gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Gweddi dros ddŷn clâf.

Y DUW mawr anfarwol! yr hwn wyt o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. Ynot ti yr ydym ni yn byw, yn ſymmud ac yn bôd. Oddi wrthyt ti y derbyniaſom ni ein bywyd ar y cyntaf, ac yn dy law di y mae 'r gallu i 'w gymmeryd ymaith oddi wrthym, yr amſer, y môdd a'r lle y gwelo dy fawredd di fod yn dda. Nid ydym ni ond megis er doe, ac ni wyddom pa un ai yn y bŷd hwn, neu yn y bŷd tragywyddol y byddwn ni y fory. Prîdd ydym ni, ac i'r prîdd y dychwelwn. Nid yw ein bywyd ond megis tarth, neu gyſgod, yn ymddangos dros ychydig, ac yna yn diflannu. Nid oes i ni yma ddinas barhâus; yr ydym yn trafaelu yn feunyddiol tua bŷd arall; ac yr ydym yn nês i 'n diwedd yr awrhon nag y buom erjoed o'r blaen.

O Arglwydd, edrych arnom mewn trugaredd, a maddeu ein holl bechodau; er mwyn dy anwyl Fâb Jesu. Bendithia ni âth râs, i'n nerthu i'th ogoneddu di bob amſer; ac i ddiſgwyl wrthyt ti yn unig am ymwared, pan y bôm mewn clefyd a chyfyngder. Pâr i'r rhai oll ſydd dan dy geryddon di, wybod mai cyfiawn yw dy farnedigaethau, ac mai mewn ffyddlondeb yr wyt yn eu cyſtuddio. Pâr iddynt yſtyried, nad yw cyſtudd yn dyfod allan o'r prîdd, nac yn blaguro allan o'r ddaear; eithr mai tydi ſy'n daroſtwng ac yn dyrchafu, yn clwyfo ac yn jachâu, yn dwyn i wared i'r bêdd ac yn codi i fynu drachefn. Bydd di, y Duw tragywyddol, yn noddfa iddynt, a bydded y breichiau tragywyddol oddi tanynt i'w cynnal i fynu. Dywed y gair am faddeu eu pechodau, a hwy a faddeuir: dywed y gair am achub eu heneidiau, a hwy a achubir.

Nyni a ddymunem, trwy ffydd, ddwyn y *claf hwn* at borth dy drugaredd, gan ddeiſyf arnat ti ei jachâu *ef*. O Arglwydd, ſancteiddia yr ymweliad hwn *iddo*; fel y caffo achos i ddywedyd, mai da fu *iddo* gael ei *gyſtuddio*, ac mai mewn ffyddlondeb y darfu i ti ei *geryddu*, er mwyn ei *ddyſgu* i'th adnabod di, ac i ddiſgwyl wrth dy Jachawdwriaeth. Trugarhâ *wrtho*, maddeu ei holl bechodau a gollwng *ef* yn rhydd rhag diſgyn o *hono* i'r pwll. Y mae pob clefydau dan dy awdurdod a'th lywodraeth di: wrth dy arch di y

maent yn dyfod, ac wrth dy orchymyn di y maent yn ymadael.

O Dâd trugarog, dyro i'r *clâf hwn* amynedd dan ei *gyſtudd*, a chymmorth i obeithio a diſgwyl yn ddiſtaw am dy Jachawdwriaeth di. Nertha *ef* i gredu yn yr Arglwydd Jesu, ac ymddiried ynddo fel ei *unig* feddyg; ac fel ei *unig* geidwad a'i Jachawdwr. Efe a ddichon yn gwbl jachâu y rhai oll a ddeuant trwyddo ef attat ti; canys y mae efe yn byw bob amſer i eirjol droſtynt hwy.

Arbed fywyd y cyſtuddiol *hwn* ychydig yn hŵy, a dyro *iddo* râs, fel y *gallo* fyw yn well o hyn allan: ond, o's nad wyt yn gweled bod yn dda i roddi *iddo* ychwaneg o amſer i fyw; attolwg, maddeu ei holl bechodau, a derbyn *ef* i fywyd tragywyddol. Nertha *ef* i roddi ei hunan i fynu yn gwbl i'th ewyllys di, a dyſg *ef* i oſod ei holl obaith a'i ymddiried yn dy drugaredd di yng Nghrist Jesu; fel y gallo edrych yn hŷ ac yn gyſurus yn wyneb brenin y dychryniadau. Bydd di gyd *ag ef* yn nyffryn cyſgod angau, fel nad ofno niwaid; bydded i'th wïalen a'th ffon ei *gyſuro*.

Gwrando ein gweddi, O Dduw, a derbyn y *clâf hwn*, a phob un o honom ninnau i freichiau dy drugaredd yr awr hon. Bendithia bob un o honom â'th râs ac â'th yſbryd; a nertha ni i'th ogoneddu di ar y ddaear, fel y caffom, yn ôl y ſuchedd hon, ein derbyn attat i deyrnas nefoedd, trwy gyfryngdod a haeddedigaethau Jesu Grist ein Harglwydd;

Harglwydd; i'r hwn, gyd â thi, a'r Yſbryd Glân, boed pob clod, moliant a gogoniant yn oes oe oedd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Gweddi i ddyn clâf.

O Arglwydd graſlawn a thrugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu ochenaid calon gyſtuddiedig, nac adduned y gorthrymmedig. Wele yma bechadur tlawd annheilwng, yn dymuno nesâu at borth dy drugaredd, yr awr hon! Y mae ſy enaid yn glâf, y mae ſy nghorph hefyd yn glâf: ac yr ydwyf yn ſicr o farw yn dragywydd dan dy ddigofaint di, oni wêl dy fawredd ſod yn dda i drugarhâu wrthyf, a'm cadw yn fyw, er mwyn yr Arglwydd Jesu. Pan yr edrychwyf yn ôl, ac yſtyried y môdd y treuliais ſy mywyd, hyd yma; nid wyf yn gallu canfod ſod i mi gyſur oddi wrth ddim a wnaethum i erjoed; ond yn hytrach ſod y cwbl yn achos o ofid calon a dychryn mawr i mi: canys treuliais ſy holl fywyd mewn oferedd a gwrthryfel yn dy erbyn di.

Ni's gallaf alw yn ôl, gymmaint ag un awr na munud o'r amſer gwerthfawr a aeth heibio; ac ni wn i lai nad wyf, yr awr hon, dan wŷs a galwad

i ymddangos ger dy fron di, yn nhragywyddoldeb: pa beth a ddaw o'm henaid truan, oni weli di fod yn dda i drugarhâu wrthyf, a maddeu i mi y cwbl yn rhâd, er mwyn dy Fâb Jesu? Er bod fy ngwrthryfel i yn fawr jawn, etto y mae dy drugaredd di yng Nghrist yn anfeidrol mwy! Gwîr yw, O Arglwydd, fod fy mhechodau am hanwireddau i, wedi tyfu hyd y nefoedd; etto y mae dy drugaredd di yn uwch nâ'r nefoedd. Pa fwya pechadur wyf, cymmaint a hynny yn fwy yw'r eisiau ſydd arnaf am faddeuant a thrugaredd. Trugarhâ wrthyf, O Dduw, cyn diſgyn o honof i'r pwll

O Arglwydd, dyro i mi nerth ac amynedd dan y cyſtudd hwn; fel na bo i mi anfoddloni na grwgnach yn erbyn dy ewyllys di. Pâr i mi yſtyried dy fod di yn fy nghoſbi yn llawer jawn llai nag yr haeddai fy mhechodau i. Wele fi yma, O Arglwydd, dan dy law di; o's cedwi fi yn fyw, byw a fyddaf: ac yr wyf yn bwriadu, trwy gymmorth dy râs di, i fyw yn well o hyn allan, nag y bûm i hyd yma, o's rhynga bôdd i ti arbed fy mywyd y waith hon, a rhoddi i mi ychydig o amſer i fyw yn hŵy yn y bŷd. O gariad ar fy enaid, gwared fi o bwll llygredigaeth, a thafl fy holl bechodau o'r tu ôl i'th gefn. Nid yw fy nyddiau ond ychydig, bryſia, O Dduw, a gwared fi; cyn myned o honof lle na ddychwelwyf, i dîr tywyllwch a chyſgod angau.

Cofia,

Cofia fi, Arglwydd, yn ôl dy raſlonrwydd i'th bobl, a ſancteiddia yr ymweliad hwn i mi; fel y byddwyf well o'i blegid, ac y caffwyf achos, yn ôl llaw, i'th garu a'th fendithio di am dano. O parotôa fi erbyn yr amſer y bô i'm daearol dŷ o'r babell hon gael ei ddattod, a phâr i'm hymddattodiad, pan ddêl, fod mewn tangnefedd. Yr wyf yn lleſg ac yn egwan jawn! y mae fy nghnawd a'm calon yn pallu: O bydd di yn nerth i'm calon ac yn rhan dragywydd i mi. Yr wyf yn awr yn gorchymyn, yn oſtyngedig, fy hun i'th ddwylaw di, O Dâd, yn enw Jesu Grist, fy unig geidwad a'm gobaith; i'r hwn, gyd â thi, a'r Yſbryd Glân, y bô pob mawl ac addoliad yn dragywydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt, *&c.*
Grâs ein Harglwydd, *&c.*

Grâs o flaen bwyd.

O Arglwydd, bendithia ni a'r holl drugareddau yſbrydol a thymhorol yr wyt yn eu rhoddi i ni o bryd i'w gilydd; bendithia yr ymborth hwn ſydd ger ein bron yn breſennol, a chymmorth ni â'th râs i fwytta ac yfed, a gwneuthur pob peth er gogoniant i 'th Enw ſanctaidd di, trwy JESU GRIST ein prynwr. *Amen.*

Grâs ar ôl bwyd.

BEndigedig fyddo dy enw di, y Tâd trugarog, am dy fod yn gofalu am danom bob amſer, er annheilynged ydym, ac yn ein porthi hŵyr a bore a chanol dydd. O'th ddwylaw di y cawſom ymborth yr awr hon; derbyn ein dïolch am dano, a nertha ni i'th garu a'th waſanaethu di yn ffyddlon yn y mwynhâd o'th holl drugareddau, tra bôm yn y bŷd, fel y caffom ein derbyn i fywyd tragywyddol yn y diwedd, trwy JESU GRIST ein Harglwydd. *Amen.*

EIN Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd; Sanct-eiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg: canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oesoedd. *Amen.*

Gràs ein Harglwydd Jesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyd â ni oll, byth bythoedd. *Amen.*

DIWEDD.